# ADRODDIAD ANNIBYNNOL

**Awdur: Rhianwen Roberts**

**Dyddiad cyhoeddi: 15 Mai 2020**

**Cyflwynwyd adroddiad adolygiad annibynnol Rhianwen Roberts i Gomisiynydd y Gymraeg ar 23 Mawrth 2020 a chafodd ei ystyried mewn cyfarfod o’r Tîm Rheoli fis Ebrill lle gwnaed y penderfyniad i gyhoeddi’r adroddiad.**

# 1 Crynodeb gweithredol

## Crynodeb o gŵyn Cymdeithas yr Iaith:

Mae Cymdeithas yr Iaith yn credu ac yn honni fod y Comisiynydd presennol yn arfer ei ddisgresiwn statudol yn wahanol i'r cyn-Gomisiynydd a bod hynny yn cyflwyno arferion cyn-ymchwilio newydd, sydd yn golygu ei fod yn agor llai o ymchwiliadau. Mae Cymdeithas yr Iaith yn honni fod hyn yn:

i) Groes i Fesur y Gymraeg 2011
ii) Anrhyloyw
iii) Groes i Bolisi Gorfodi'r Comisiynydd

Mae Cymdeithas yr Iaith hefyd yn honni nad yw'r Comisiynydd yn defnyddio pwerau cosb sifil.

Yn ogystal, mae Cymdeithas yr Iaith yn honni fod Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan AC, yn dylanwadu ar weithrediadau'r Comisiynydd.

## Casgliadau a barn yn gryno

Nid yw'r Comisiynydd wedi cyflwyno arferion cyn-ymchwilio newydd. Yn seiliedig ar yr ystadegau a gyflwynodd Cymdeithas yr Iaith yn eu cwyn, nid oedd nifer yr ymchwiliadau a gynhaliodd y Comisiynydd yn isel. Roedd nifer yr ymchwiliadau a gynhaliwyd yn y blynyddoedd cynt, fodd bynnag, yn arbennig yn 2018, yn ymddangos yn uchel.

i) Nid yw'r Comisiynydd yn gweithio yn groes i Fesur y Gymraeg 2011
ii) Nid yw'r Comisiynydd yn anrhyloyw
iii) Nid yw'r Comisiynydd yn gweithio yn groes i'r Polisi Gorfodi.

Mater o ddisgresiwn i'r Comisiynydd yw pa opsiwn i'w gymryd/pa opsiynau i'w cymryd pan mae methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol.

**Tabl yn crynhoi'r honiadau, y casgliadau a barn**

| Honiadau/materion | Casgliadau/Barn | Adran yn yr adroddiad |
|---|---|---|
| **Honiad o weithredu yn groes i'r Mesur a'r Polisi Gorfodi (honiad 1 a 3)** | Yn fy marn i, nid yw'r Comisiynydd yn gweithredu yn groes i'r Mesur a'r Polisi Gorfodi. Mae'r gŵyn yn awgrymu nad yw Grŵp Hawl Cymdeithas yr Iaith yn deall darpariaeth y gyfraith yn y Mesur, pwysigrwydd y Tribiwnlys yng ngweithdrefn y gyfundrefn gyfreithiol, nac egwyddor gwahaniad pwerau mewn cyfundrefn gyfansoddiadol.<br><br>Yn fy marn i, nid yw yn fuddiol, o dan y gyfraith bresennol, i roi ffocws ar derm megis 'datrysiad buan'; yn hytrach, y pŵer sydd gan y Comisiynydd yw arfer ei ddisgresiwn a'i swyddogaethau o fewn y Mesur, sydd wedi cael ei ddehongli gan y Tribiwnlys yn achosion y Tribiwnlys. | Adran 3, 4, 5, 6 a 7 |
| **Honiad o anrhyloywder (honiad 2)** | Mae canllawiau yn barod yn y pau cyhoeddus yn nyfarniadau a phenderfyniadau'r Tribiwnlys, er efallai nad yw'n hawdd dod o hyd iddynt na'u dehongli. Er hwylustod, mae'r canllawiau hyn wedi eu llunio yn yr adroddiad hwn (Atodiad 1).<br><br>Gan na all rhestr o ganllawiau cynhwysfawr fodoli (yn dilyn dyfarniad y Tribiwnlys yn achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*), mae'n dilyn na all y Comisiynydd gyhoeddi canllawiau cynhwysfawr. Fodd bynnag, os yw'r Comisiynydd yn dewis ychwanegu at y rhain, trwy lunio canllawiau posib ei hun (gan gofio na allent fod yn gyflawn, yn dilyn achos 16/8), rwyf o'r farn y gall y wybodaeth honno gael ei heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 31(1)(g) ac adran 31(2)(c) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ar y sail bod datgelu'r wybodaeth honno yn debygol o niweidio | Adran 8 |

| | | |
|---|---|---|
| | gwaith gorfodi'r Comisiynydd. | |
| **Pwerau cosb sifil** | Mater o ddisgresiwn i'r Comisiynydd yw pa opsiwn i'w gymryd/pa opsiynau i'w cymryd pan mae methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. | Adran 11 |
| **Honiad bod y Comisiynydd presennol yn agor llai o ymchwiliadau na'r cyn-Gomisiynydd** | Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai nifer yr ymchwiliadau oedd yn uchel yn 2018 (ac i raddau llai, yn 2017), nid bod nifer yr ymchwiliadau a agorwyd yn 2019 yn isel.<br><br>Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod dau reswm dros gynnydd yn nifer yr ymchwiliadau dros 2017/18:<br><br>i) Nad oedd achwynwyr/Ceiswyr yn deall darpariaeth y gyfraith yn y Mesur, pwysigrwydd dyfarniadau'r Tribiwnlys yn y weithdrefn gyfreithiol, nac egwyddor gwahaniad pwerau mewn cyfundrefn gyfansoddiadol.<br><br>ii) Yng nghyfnod 2016/17/18, cafodd y Comisiynydd ganllawiau gan y Tribiwnlys ynglŷn â sut i arfer y pŵer a'r dyletswyddau o dan y Mesur. Erbyn 2019, mae'r casgliad o ddyfarniadau/canllawiau'r Tribiwnlys yn fwy aeddfed sydd yn galluogi'r Comisiynydd i adeiladu ar y gwaith a'r dyfarniadau a fu dros 2016, 2017 a 2018. | Adran 9 a 10 |
| **Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol** | Nid oes gennyf unrhyw awdurdod i fynegi barn ynglŷn â Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.<br><br>Er y llythyru, ac unrhyw argraff y tu allan i'r cyd-destun cyfreithiol, mae'r Comisiynydd wedi arfer ei swyddogaethau yn briodol. | Adran 12 |

Mae'r adolygiad annibynnol hwn wedi bod, i raddau helaeth, yn ddarganfyddiad bod rhai o'r achwynwyr nad ydynt yn cyd-fynd â phenderfyniadau'r Comisiynydd (cyn neu bresennol), i beidio ag agor ymchwiliad i'w cwyn, ddim yn deall gweithrediadau Mesur y

Gymraeg (Cymru) 2011, natur cyfraith weinyddol, na threfn gyfansoddiadol. Rwyf o'r farn bod cwyn Cymdeithas yr Iaith yn syrthio i'r un categori.

Mae rhan helaeth o'r adolygiad hwn felly yn egluro'r gyfraith berthnasol i Gymdeithas yr Iaith. Bydd hyn yn egluro pwerau a dyletswyddau cydymffurfio'r Comisiynydd. Bydd hefyd yn egluro unrhyw newidiadau yn nifer yr ymchwiliadau sydd wedi/yn cael eu hagor.

Heb y ddealltwriaeth hon, mae'n ymddangos i mi o ddyfarniadau'r Tribiwnlys fod cynnal ymchwiliadau anghymesur yn cynyddu'r risg o rwymo gweithrediadau'r Comisiynydd a'i swyddfa, rhag gweithredu'n effeithiol ac effeithlon i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Fel y dywedodd y Tribiwnlys yn achos 18/3 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* (para. 22), "Rhaid i'r Comisiynydd, wrth weithredu'r system, gael elfen o ddisgresiwn i ganolbwyntio adnoddau ar weithgareddau a fydd yn cyflawni'r budd mwyaf".

Rwyf yn annog Cymdeithas yr Iaith (a rhai achwynwyr eraill), i ystyried goblygiadau hirdymor eu hymagwedd ymgyfreithiol ar y niwed mae'r cyhoeddusrwydd, sydd yn seiliedig ar wybodaeth anghyflawn, yn ei greu i'r Comisiynydd a'i sefydliad, ac felly, i'r defnydd o'r Gymraeg. Mae llawer ohonom yn teimlo'n rhwystredig nad yw rhai cyrff cyhoeddus eto yn cydymffurfio'n ddigonol gyda'u dyletswyddau cyfreithiol o dan y Safonau; fodd bynnag, nid yw adnoddau'r Comisiynydd yn ddiderfyn. Nid yw'n bosib i'r Comisiynydd agor ymchwiliad i bob cwyn lle mae methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Rhaid i'r Comisiynydd ystyried rhesymoldeb ymchwilio gan ystyried a fyddai cynnal ymchwiliad o fudd i'r Gymraeg ac yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

**<u>Argymhelliad i'r Comisiynydd</u>**

Er hwylustod i Gymdeithas yr Iaith ac achwynwyr eraill, ei fod yn casglu at ei gilydd ganllawiau'r Tribiwnlys ynglŷn â'i ddyletswyddau wrth ystyried ai i agor ymchwiliad ai peidio, a'u lllwytho i fyny ar ei wefan. Er hwylustod i'r Comisiynydd, maent wedi eu cynhyrchu yn Atodiad 1.

**<u>Argymhelliad i Gymdeithas yr Iaith</u>**

Er lles Cymdeithas yr Iaith a'r Comisiynydd, eu bod yn ymgyfarwyddo â chanllawiau'r Tribiwnlys ynglŷn â dyletswyddau'r Comisiynydd wrth ystyried ai i agor ymchwiliad ai peidio. Er hwylustod i Gymdeithas yr Iaith, rwyf yn argymell bod y Comisiynydd yn casglu at ei gilydd ganllawiau'r Tribiwnlys ynglŷn â'i hawliau a'i ddyletswyddau, a'u llwytho i fyny ar ei wefan.

**TABL CYNNWYS**


| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Cylch gorchwyl** | **1** |
| **3** | **Y gŵyn a'r ymateb** | **1** |
| **4** | **Ymateb y Comisiynydd i honiadau Cymdeithas yr Iaith** | **12** |
| **5** | **Apêl Cymdeithas yr Iaith** | **19** |
| **6** | **Crynodeb o gŵyn Cymdeithas yr Iaith** | **24** |
| **7** | **Materion rhagarweiniol** | **25** |
| **8** | **Honiadau 1 a 3 Cymdeithas yr Iaith** | **25** |
| **9** | **Deall y gyfraith – y sylfeini** | **28** |
| **10** | **Achos TyG/WLT/16/8: [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg** | **31** |
| **11** | **Datblygiad o 'ystyriaethau' y Comisiynydd gan y Tribiwnlys** | **37** |
| **12** | **Casgliadau a barn ynglŷn â honiadau 1 a 3 Cymdeithas yr Iaith:** | **42** |
| **13** | **Honiad 2 Cymdeithas yr Iaith** | **45** |
| **14** | **Effeithiau posib achos 16/8 ar arferion y Comisiynydd** | **47** |
| **15** | **Amlinelliad o'r achosion yn y Tribiwnlys** | **52** |
| **16** | **Themâu yn deillio o ddadansoddiad o'r achosion yn y Tribiwnlys** | **62** |
| **17** | **Pwerau cosb sifil** | **83** |
| **18** | **Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan AC** | **83** |
| **19** | **Crynodeb o'r casgliadau a barn ynglŷn â honiadau Cymdeithas yr Iaith** | **83** |

# 2 Cylch gorchwyl

Yn dilyn cais gan Gymdeithas yr Iaith ("y Gymdeithas) am adolygiad annibynnol o'u cwyn at Gomisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd"), gofynnodd y Comisiynydd i mi "ystyried y ffeithiau a llunio asesiad gwrthrychol o seiliau'r gŵyn a'r graddau y mae'r Comisiynydd, yn eich barn chi, wedi arfer ei swyddogaethau yn briodol neu beidio".

Adolygiad yw hwn o gŵyn Cymdeithas yr Iaith fel y'i cyflwynwyd. Hynny yw, mae'n seiliedig ar yr ystadegau a gyflwynodd Cymdeithas yr Iaith yn eu cwyn.

# 3 Y gŵyn a'r ymateb

## Cefndir y gŵyn yn ôl Cymdeithas yr Iaith

Ar 4 Tachwedd 2019, gwnaeth Bethan Ruth, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith, gŵyn ar ran Grŵp Hawl Cymdeithas yr Iaith yn erbyn y Comisiynydd, yn unol â pholisi cwyno'r Comisiynydd fel y'i sefydlir yn adran 14, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Ms Ruth yn dweud bod aelodau o Gymdeithas yr Iaith a'u cefnogwyr, ar ryw adeg ar ôl 1 Ebrill 2019, wedi dechrau derbyn negeseuon tebyg i'r canlynol mewn ymateb i'w cwynion gan y Comisiynydd:

> "*Rwyf wedi penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad. Y rhesymau am hynny yw bod y sefydliad eisoes wedi cydnabod y methiant ac wedi cymryd camau o'i wirfodd i atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd, drwy gadarnhau i mi fod staff yn y tîm perthnasol wedi'u hatgoffa o ofynion Safonau'r Gymraeg er mwyn osgoi camgymeriad tebyg i'r dyfodol*."

Mae Ms Ruth yn dweud na dderbyniodd eu cefnogwyr ymatebion o'r fath i'w cwynion cyn Ebrill 2019.

Mae Ms Ruth yn dweud fod hyn yn "arfer newydd" neu "bolisi newydd", sydd yn golygu bod lleihad yn nifer yr ymchwiliadau sydd yn cael eu hagor gan y Comisiynydd, sydd wedi effeithio yn negyddol ar unigolion sydd wedi cael rheswm i gwyno, gan nad ydynt wedi cael cyfiawnder. Yn ogystal, mae Ms Ruth yn honni fod y "newid yn arferion" y Comisiynydd wedi, ac yn arwain at lai o ddefnydd o'r Gymraeg a statws is iddi nag y byddai'r sefyllfa pe bai'r Comisiynydd yn ymddwyn yn wahanol.

Ar 31 Gorffennaf 2019, cafwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd a rhai o'i swyddogion a dirprwyaeth o Gymdeithas yr Iaith. Mae Ms Ruth yn honni i'r Comisiynydd ddweud yn y cyfarfod hwn ei fod wedi "gwneud ymdrech i leihau'r nifer o ymchwiliadau y mae'n eu cynnal i gwynion" a bod "canllawiau newydd" wedi eu rhoi i staff swyddfa'r Comisiynydd yn gynharach yn y flwyddyn, ond bod y Comisiynydd a'i swyddogion yn gwadu nad yw hyn yn newid eu polisi gorfodi.

Ar 20 Mai 2019 gwnaeth Cymdeithas yr Iaith gais i'r Comisiynydd yn gofyn am

wybodaeth am: (i) nifer y cwynion a dderbyniodd y Comisiynydd oddi wrth aelodau'r cyhoedd ym mis Ebrill 2016, mis Ebrill 2017, mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2019; (ii) nifer yr ymchwiliadau a gychwynnwyd gan y Comisiynydd yn ymwneud â chwynion a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd yn ystod mis Ebrill 2016, mis Ebrill 2017, mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2019.

Deliodd y Comisiynydd gyda'r cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ac ar 23 Mai 2019, rhoddodd y Comisiynydd y wybodaeth y gofynnwyd amdani i Gymdeithas yr Iaith, gan ychwanegu ar adeg ymateb i'r cais, nad oedd penderfyniad wedi ei wneud i agor ymchwiliad ai peidio i saith o gwynion dilys a dderbyniwyd yn ystod Ebrill 2019 (Cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth, Rhif 096).

Yna ar 1 Gorffennaf 2019, gwnaeth y Gymdeithas gais arall i'r Comisiynydd yn gofyn am yr un wybodaeth a wnaethant ar 20 Mai 2019 ac a roddodd y Comisiynydd iddynt ar 23 Mail 2019, sef: (i) nifer y cwynion a dderbyniodd y Comisiynydd oddi wrth aelodau'r cyhoedd ym mis Ebrill 2016, mis Ebrill 2017, mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2019; (ii) nifer yr ymchwiliadau a gychwynnwyd gan y Comisiynydd yn ymwneud â chwynion a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd yn ystod mis Ebrill 2016, mis Ebrill 2017, mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2019.

Unwaith eto, deliodd y Comisiynydd gyda'r cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ac ar 4 Gorffennaf 2019, rhoddodd y Comisiynydd y wybodaeth y gofynnwyd amdani i'r Gymdeithas, gan ychwanegu ar adeg ymateb i'r cais y tro hwn, nad oedd penderfyniad wedi ei wneud i agor ymchwiliad ai peidio i dri o gwynion dilys a dderbyniwyd yn ystod Ebrill 2019 (Cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth, Rhif 104).

Ar 29 Gorffennaf 2019, gwnaeth Cymdeithas yr Iaith gais at y Comisiynydd yn gofyn am wybodaeth am nifer yr ymchwiliadau ar gyfer misoedd Ebrill a Mai 2016, 2017, 2018 a 2019.

Deliodd y Comisiynydd â'r cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac ar 20 Awst 2019, rhyddhaodd y Comisiynydd y wybodaeth y gofynnwyd amdani i Gymdeithas yr Iaith (Cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth, Rhif 106).

Ni ddaeth gwybodaeth i law ynglŷn â phryd y gofynnwyd am/datgelwyd ystadegau Mehefin 2016 – 2019, ac nid wyf wedi gofyn am y wybodaeth honno gan nad yw'n effeithio ar fy adolygiad.

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi cysoni'r ystadegau a gawsant gan y Comisiynydd ac maent yn eu defnyddio yn eu cwyn yn erbyn y Comisiynydd. Maent fel a ganlyn:

| **Blwyddyn** | **Ebrill - Mehefin 2016** | **Ebrill - Mehefin 2017** | **Ebrill - Mehefin 2018** | **Ebrill - Mehefin 2019** |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cwynion dilys** | 40 | 28 | 51 | 53 |
| **Nifer y cwynion annilys** | 25 | 1 | 1 | 6 |
| **Nifer yr ymchwiliadau a agorwyd** | 25 | 20 | 41 | 21 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Penderfynu peidio ag ymchwilio** | 17 | 8 | 11 | 32 |

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi dadansoddi'r ystadegau fel a ganlyn:

| **Blwyddyn** | **Ebrill - Mehefin 2016** | **Ebrill - Mehefin 2017** | **Ebrill - Mehefin 2018** | **Ebrill - Mehefin 2019** |
|---|---|---|---|---|
| **Canran ymchwilio** | **62.5%** | **71%** | **80.3%** | **39.6%** |

Mae Ms Ruth yn honni bod yr "arfer newydd" wedi arwain at leihau'r nifer o ymchwiliadau sydd yn cael eu hagor gan y Comisiynydd. Mae Ms Ruth yn honni ei bod hi yn ymddangos bod y "prosesau newydd" yn arwain neu'n annog corff sydd yn destun cwyn i dderbyn cyfrifoldeb am dor safon, datgan ei fod yn ddigwyddiad untro, a chynnig ymddiheuriad i'r Comisiynydd am eu hymddygiad anghyfreithlon. Mae hyn, yn ôl Ms Ruth, yn golygu nad oes modd cymryd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn corff sydd wedi torri Safonau'r Gymraeg mewn mwy o achosion.

Mae Ms Ruth yn honni ymhellach nad yw'r Comisiynydd yn gofyn am sylwadau neu ymateb yr achwynydd i sylwadau'r corff yn dilyn y "broses cyn ymchwiliad neu ddatrysiad buan newydd".

Mae Ms Ruth yn honni, o edrych ar y ffordd y mae'r Comisiynydd yn ymdrin â chwynion, y bu newid i Bolisi Gorfodi'r Comisiynydd mewn gwirionedd, er nad oes polisi ysgrifenedig newydd wedi ei gyhoeddi.

### Yr honiadau bod Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol wedi "pwyso" ar Gomisiynydd y Gymraeg i newid sut i ymdrin â chwynion

Ar 3 Gorffennaf 2019, gwnaeth Cymdeithas yr Iaith gais am wybodaeth i'r Comisiynydd yn gofyn am:

> *"… gael copïau o'r holl ohebiaeth rhwng Gweinidog y Gymraeg, Eluned Morgan, a'r Comisiynydd neu'r cyn-Gomisiynydd y Gymraeg, yn ymwneud â darpariaethau cwynion Mesur y Gymraeg 2011 a'r posibilrwydd o'u diwygio yn dilyn gollwng Papur Gwyn Bil y Gymraeg. Mae gen i ddiddordeb penodol mewn unrhyw ohebiaeth yn ymwneud a'r posibilrwydd neu beidio o weithredu trefn datrysiad buan ar gyfer cwynion."*

Deliodd y Comisiynydd gyda'r cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth, Rhif 103), ac ar 31 Gorffennaf 2019, atebodd y Comisiynydd Gymdeithas yr Iaith gan ddweud: "Mae'r wybodaeth mae'r Comisiynydd yn gallu datgelu i chi wedi ei hatodi gyda'r llythyr hwn". Yr atodiad oedd llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan AC, at y Comisiynydd (Meri Huws), dyddiedig 26 Tachwedd 2018, yn dilyn eu cyfarfod chwarterol ar 8 Hydref 2018.

Mae Ms Ruth, yn ei llythyr cwyn at y Comisiynydd (4 Tachwedd 2019), yn cyfeirio at y llythyr a ryddhaodd y Comisiynydd i'r Gymdeithas yng nghais Deddf Rhyddid Gwybodaeth, Rhif 103, sef llythyr oddi wrth y Gweinidog at Meri Huws, dyddiedig 16 Tachwedd 2018, a llythyr oddi wrth swyddfa'r Comisiynydd at y Gweinidog, dyddiedig 5 Chwefror 2019.

Ar sail yr ohebiaeth oddi wrth y Gweinidog at Meri Huws ar 16 Tachwedd 2018, a'r *erratum* yn llythyr y Comisiynydd at y Gweinidog ar 5 Chwefror 2019 (hynny yw, fe wnaeth y Comisiynydd, yn ei llythyr hi at y Gweinidog, gywiro pwynt oedd wedi ei wneud yn llythyr y Gweinidog at y Comisiynydd), mae Ms Ruth yn honni fod y Gweinidog wedi pwyso ar y Comisiynydd i newid y ffordd mae'r swyddfa yn ymdrin â chwynion. Dywed Ms Ruth ei bod hi'n ymddangos o'r ohebiaeth rhwng y Gweinidog a'r Comisiynydd fod y Gweinidog wedi llwyddo i ddwyn perswâd ar y Comisiynydd i gyflwyno system sydd yn gyfystyr â datrysiad buan heb gynnal ymchwiliad llawn, er nad oes darpariaeth yn y gyfraith na newid wedi bod i Bolisi Gorfodi'r Comisiynydd. Mae Ms Ruth yn honni fod newid yn arferion y Comisiynydd yn y ffordd yr ymdrinnir â chwynion a bod hynny wedi digwydd y tu ôl i'r llenni heb unrhyw graffu cyhoeddus ar y mater, na dilyn prosesau agored o ran diwygio polisïau cyhoeddus y corff.

## Cais am gopi o'r "canllawiau" honedig

Yn y gŵyn at y Comisiynydd ar 4 Tachwedd 2019, gofynnodd Ms Ruth am gopi o'r "canllawiau" mae hi'n honni y cyfeiriodd y Comisiynydd atynt yn y cyfarfod (Gorffennaf 2019).

## Yr honiadau Cyfreithiol

Mae Ms Ruth yn honni fod newid wedi bod i brosesau gorfodi a/neu ymchwilio'r Comisiynydd ym mis Ebrill 2019, a bod hyn gyfystyr â newid y polisi gorfodi, heb newid y Polisi Gorfodi ysgrifenedig.

Mae Ms Ruth yn honni fod hyn yn groes i lythyren ac ysbryd nifer o ddarpariaethau deddfwriaeth, polisi ac arferion gweinyddiaeth dda. Mae'r rhain yn cynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, deddfwriaeth diogelwch data, polisi gorfodi Comisiynydd y Gymraeg ac arferion ac egwyddorion da gweinyddiaeth cyrff cyhoeddus.

Mae Ms Ruth yn honni mai o ganlyniad i newid polisi, mae nifer o unigolion sydd wedi cael rheswm i gwyno i'r Comisiynydd, wedi cael eu heffeithio'n negyddol ac nad ydynt wedi cael cyfiawnder.

Mae Ms Ruth hefyd yn honni ar adegau, bod y newid yn arferion y Comisiynydd (yn Ebrill 2019) wedi, ac yn arwain at lai o ddefnydd o'r Gymraeg a statws is iddi nag y byddai'r sefyllfa pe bai'r Comisiynydd yn ymddwyn yn wahanol.

Ymhellach, mae Ms Ruth yn honni nad yw gwasanaethau Cymraeg yn bodoli neu'n gwella fel y gallent hwy oherwydd newidiadau yn y ffordd mae'r Comisiynydd wedi bod yn ymdrin â chwynion ers Ebrill 2019.

## Yr honiad o arfer cyn-ymchwilio newydd

Mae Ms Ruth yn honni fod y Comisiynydd, ym mis Ebrill 2019, wedi mabwysiadu “arfer newydd” o ymdrin â chwynion, yn benodol, cynnal math o broses sydd yn gyfystyr â chyn-ymchwiliad neu broses ‘datrysiad buan’. Ers hynny, mae lleihad yn nifer yr ymchwiliadau a agorwyd gan y Comisiynydd.

Mae Ms Ruth yn honni fod newidiadau yn arferion y Comisiynydd yn gyfystyr â newid y Polisi Gorfodi, er nad yw’r Comisiynydd wedi cyhoeddi polisi ysgrifenedig newydd. Mae Cymdeithas yr Iaith yn honni fod mabwysiadu arfer/ion newydd yn groes i Fesur y Gymraeg a’r Polisi Gorfodi.

Mae Ms Ruth yn cwyno yn erbyn hyn am y rhesymau canlynol:

### (i) Croes i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Ms Ruth yn credu fod yr “arfer newydd” honedig yn groes i lythyren ac ysbryd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sydd yn gosod allan gyfundrefn cwyno ac ymchwilio a’r meini prawf perthnasol (adran 108 ac Atodlen 10). Mae hi’n tynnu sylw at y ffaith nad yw'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at gyn-ymchwiliadau neu ymholiadau cyn-ymchwilio tu hwnt i’r rhestr a ragnodir yn adran 93. Mae Ms Ruth yn credu, er bod adran 93 yn datgan bod “*Rhaid i’r Comisiynydd ystyried ai i gynnal ymchwiliad o dan adran 71 ai peidio i’r cwestiwn a yw ymddygiad person (D) (“yr ymddygiad honedig”) yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon*”, pe bai bwriad gan y Cynulliad i greu proses cyn-ymchwilio neu ddatrysiad buan, byddent wedi ei chynnwys ar wyneb y Mesur.

Yn ogystal, mae Ms Ruth yn dweud mai un o fwriadau Mesur y Gymraeg oedd symud i ffwrdd o system Bwrdd yr Iaith o ymdrin â chwynion a lleihau'r disgresiwn oedd gan y Bwrdd i ymchwilio ai peidio i gwynion. Mae Ms Ruth yn dweud mai felly, bwriad y Mesur oedd rhagnodi pryd a sut i ymchwilio er mwyn osgoi’r diffyg pwyslais ar reoleiddio. O’r herwydd, mae Ms Ruth yn honni fod “arferion newydd” y Comisiynydd yn groes i fwriad Mesur y Gymraeg.

Mae Ms Ruth yn honni mai gwir fwriad yr “arferion newydd” yw cydweithredu â’r Llywodraeth i gyflawni ewyllys y Llywodraeth o gyflwyno system datrysiad buan heb ymchwiliad llawn, heb fynd drwy’r prosesau priodol o newid y ddeddfwriaeth er mwyn galluogi hynny i ddigwydd.

### (ii) Anrhyloywder

Mae Ms Ruth yn gweld y “newid i arferion” ymchwilio’r Comisiynydd heb newid y Polisi Gorfodi, fel ymdrech i osgoi craffu cyhoeddus ar y newidiadau. Yn hyn o beth, mae Ms Ruth yn honni fod y Comisiynydd wedi ymddwyn yn anrhyloyw ac yn syrthio’n brin o’r angen am benderfyniadau agored a thryloyw gan gorff cyhoeddus.

Mae Ms Ruth yn nodi y gwnaeth y Comisiynydd gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn mabwysiadu ei Bolisi Gorfodi presennol ac felly, y byddai, yn gyfreithiol, disgwyliad rhesymol y byddai’n rhaid i’r Comisiynydd gynnal ymgynghoriad cyn diwygio’r polisi neu fabwysiadu un newydd.

Mae Ms Ruth yn honni fod y “newidiadau” hyn wedi deillio o gyfarfodydd a gohebiaeth

breifat rhwng Gweinidog y Gymraeg a'r Comisiynydd, a ddarganfuwyd yn dilyn cais rhyddid gwybodaeth, ac nad yw'r Comisiynydd yn bod yn agored gyda'r cyhoedd gan nad yw'r Polisi Gorfodi ysgrifenedig wedi cael ei newid i adlewyrchu'r newidiadau polisi honedig.

Mae Ms Ruth hefyd yn honni fod y Comisiynydd yn gweithredu yn groes i farn y cyhoedd a'r consensws gwleidyddol drwy gyflwyno polisïau newydd sydd yn groes i gefnogaeth gyhoeddus gan fod polisi o 'ddatrysiad buan' yn un o'r cynigion ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth na dderbyniodd gefnogaeth i fynd ymlaen yn Fesur newydd.

### (iii) Croes i Bolisi Gorfodi'r Comisiynydd

Mae Ms Ruth yn honni fod yr "arfer newydd" yn groes i egwyddorion, ysbryd a llythyren Polisi Gorfodi presennol y Comisiynydd. Mae'r Polisi yn rhwymo'r Comisiynydd i weithredu yn unol â phum egwyddor rheoleiddio: Cymesur, Atebol, Cyson, Tryloyw, Targedu. Mae Ms Ruth yn cwyno nad yw'r "ffordd Newydd" mae'r Comisiynydd yn ymdrin â chwynion yn dryloyw, yn gyson nac yn atebol.

***Tryloyw***
O ran ymddwyn yn dryloyw, mae'r Polisi yn dweud: "*Bydd y Comisiynydd yn dryloyw wrth ymdrin â'i swyddogaethau rheoleiddiol gan sicrhau bod y cyhoedd a phersonau perthnasol yn deall sut yr arferir y swyddogaethau hynny*."

Mae Ms Ruth yn honni nad yw ymddygiad y Comisiynydd yn dryloyw gan iddynt gael ar ddeall mewn cyfarfod â'r Comisiynydd ym mis Gorffennaf 2019 fod canllawiau newydd wedi eu cylchredeg i staff y Comisiynydd ynglŷn â'r modd maent yn ymdrin â chwynion, heb i'r canllawiau gael eu cyhoeddi na'r Polisi Gorfodi ei newid.

***Atebol***
O ran bod yn atebol, mae Ms Ruth yn honni nad yw'r broses newydd yn adlewyrchu dymuniadau achwynwyr; yn hytrach, mae'n adlewyrchu dymuniadau'r Gweinidog. Mae Ms Ruth yn dweud y dylai'r broses fod yn rhoi'r achwynydd yn ganolog, yn ôl Atodlen 10 o'r Mesur, nid ar yr ymylon.

Mae Ms Ruth hefyd yn dweud fod y "polisi newydd", mewn gwirionedd, yn dweud nad yw rhai mathau o gwynion yn deilwng i dderbyn ymchwiliad. Maent yn honni nad yw hyn yn gyson â'r Polisi Gorfodi ysgrifenedig ac felly, yn gorfforaethol anonest.

***Cyson***
O ran bod yn gyson, mae Ms Ruth yn honni nad yw'r polisi neu arfer newydd yn gyson gyda phenderfyniadau'r Comisiynydd yn y gorffennol. Yn hyn o beth, mae Ms Ruth yn honni fod achosion wedi dod i'w sylw lle penderfynwyd cynnal ymchwiliad yn y gorffennol, ond sydd yn cael eu gwrthod erbyn hyn. Fel enghraifft, maent yn dweud fod y Comisiynydd wedi gwrthod cynnal ymchwiliad i gwynion am arwyddion dros dro ar ôl mis Ebrill 2019, er i'r un math o gŵyn dderbyn ymchwiliad cyn hynny.

### *(iv) Croes i eiriad y Polisi Gorfodi*

Mae Ms Ruth yn honni fod yr "arfer newydd" yn groes i eiriad y Polisi Gorfodi yn y ffyrdd canlynol:

Dywed Ms Ruth fod y "broses newydd" yn annog neu yn gofyn i'r corff am ymddiheuriad cyn ystyried ymchwilio ai peidio, ac nad yw hynny wedi anelu at gael 'datrysiad boddhaol i'r achwynydd', yn ôl adran 4.1 o'r Polisi Gorfodi, sydd yn datgan:

"*Un o swyddogaethau rheoleiddiol y Comisiynydd yw delio â chwynion o dan adran 93 Mesur y Gymraeg. Bydd ffocws y Comisiynydd wrth ddelio â chwynion ar geisio cael **datrysiad boddhaol i'r achwynydd**, boed hynny yn sgil cynnal ymchwiliad statudol neu drwy ddulliau eraill. Lle bydd yn canfod methiant i gydymffurfio, bydd hefyd yn ystyried a oes angen cymryd camau dilynol er mwyn atal y methiant hwnnw rhag parhau neu gael ei ailadrodd*."

Mae Ms Ruth yn honni, yn hytrach na chael "datrysiad boddhaol i'r achwynydd", fod y "broses newydd" wedi ei hanelu at leihau'r nifer o ymchwiliadau ac yn broses sydd yn llesol i'r corff. Yn hyn o beth, mae Ms Ruth yn nodi nad yw'r Comisiynydd yn holi'r achwynydd a yw'n fodlon derbyn ymddiheuriad y corff neu beidio, ac felly, nad yw'r broses newydd yn rhoi dymuniad yr achwynydd yn ei chanol.

Ymhellach, mae Ms Ruth yn honni nad yw'r "polisi newydd" yn unol â darpariaethau'r Mesur ynglŷn â methiant i gydymffurfio â safon. Mae Ms Ruth yn honni fod y polisi ynglŷn â methiant i gydymffurfio â safon yn gosod ystyriaeth o'r camau dilynol er mwyn atal methiant (y Polisi, 7.5), a gan nad yw'r holl gamau gorfodi a ddarparwyd i'r Comisiynydd yn gallu cael eu defnyddio heb ymchwiliad e.e. nid oes modd cael cynllun gweithredu gorfodadwy na gosod cosb sifil ar gorff, nid yw'r rhain ar gael o dan y "broses newydd". Mae Ms Ruth yn honni bod hynny'n golygu, yn achlysurol, bod methiant yn fwy tebygol o gael ei ailadrodd.

Mae Ms Ruth yn honni bod y "broses newydd" yn groes i eiriad y Polisi Gorfodi oherwydd bod gwybodaeth yn cael ei chasglu cyn ymchwiliad yn annog corff i ddatrys y gŵyn, yn hytrach na bod y wybodaeth yn cael ei chasglu cyn ymchwiliad i 'wirio dilysrwydd ffeithiol y gŵyn', yn unol â'r Polisi Gorfodi (4.15), sef:

> "***Penderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio***
>
> *4.15 Yn y mwyafrif o achosion bydd y Comisiynydd yn cysylltu â'r person perthnasol, gan roi cyfle iddo ddarparu gwybodaeth i'r Comisiynydd mewn cysylltiad â honiad achwynydd. Gwneir hynny am resymau ymarferol ac er mwyn cael digon o wybodaeth i'r Comisiynydd allu penderfynu ymchwilio ai peidio mewn cysylltiad â'r ymddygiad honedig. Bydd y cais am wybodaeth yn glir ac yn ymwneud â gwirio dilysrwydd ffeithiol y gŵyn… Bydd y wybodaeth a dderbynnir (neu unrhyw ddiffyg i ddarparu) yn cyfrannu at y ffactorau fyddai'n cynorthwyo'r Comisiynydd i ddod i benderfyniad os dylid cynnal ymchwiliad o dan adran 71*".

Mae Ms Ruth yn nodi nad oes cyfeiriad at geisio am ddatrysiad buan yn y Polisi Gorfodi, na **rhestr o ffactorau**, megis derbyn ymddiheuriad gan gorff, wrth ystyried i ymchwilio neu beidio.

Mae Ms Ruth yn cynnig pe bai'r Polisi i fod i ganiatáu i'r Comisiynydd ystyried ymddiheuriad y corff fel **ffactor**, byddai hynny wedi cael ei restru yn y Polisi Gorfodi, fel y gwneir yn adrannau eraill y ddogfen. Mae Ms Ruth yn honni, heb restr o **ffactorau** o'r fath (yn y ddogfen), na fyddai modd i'r Polisi sicrhau bod y penderfyniadau yn gyson â "*sicrhau tegwch, gwrthrychedd ac amhleidioldeb wrth ymdrin â gwahanol bartïon*" (Paragraff 3.9, Polisi Gorfodi).

Mae Ms Ruth yn honni fod yr "arfer newydd" gan y Comisiynydd o holi, cymell, annog cyrff i gynnig, ymysg pethau eraill, ymddiheuriad am dor safon, yn ffactor newydd sydd yn cael ei ystyried gan y Comisiynydd, er nad yw yn cael ei restru yn y Polisi Gorfodi. Yn hyn o beth, mae Ms Ruth yn honni fod y polisi yn anonest ac yn anhryloyw.

**(v) Croes i brif nod y Comisiynydd (adran 3 y Mesur)**

Mae Ms Ruth yn honni fod yr ystadegau yn dangos fod ymdrech benodol gan y Comisiynydd ers mis Ebrill 2019 i leihau nifer yr ymchwiliadau, a bod hynny yn groes i brif nod y Comisiynydd fel y'i sefydlwyd yn adran 3, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef:

"3. Prif nod y Comisiynydd

(1) Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

(2) Mae'r camau y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu cymryd wrth arfer swyddogaethau yn unol ag isadran (1) yn cynnwys gweithio tuag at gynyddu'r canlynol (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt)-

(a) defnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a

(b) cyfleoedd eraill i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg.

(3) Wrth arfer swyddogaethau'n unol ag isadran (1), rhaid i'r Comisiynydd roi sylw-

(a) i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru,

(b) i'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod (neu a all gael eu gosod) drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny,

(c) i'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, a

(d) i'r egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny".

Mae Ms Ruth yn honni fod y Comisiynydd, drwy leihau canran y cwynion sydd wedi bod yn destun ymchwiliad, yn caniatáu sefyllfaoedd lle mae rhwystrau i ddefnyddio'r Gymraeg, ac felly'n lleihau'r cyfleoedd i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, yn groes i adran 3(1) o'r Mesur.

Yn ogystal, mae Ms Ruth yn honni fod y Comisiynydd, drwy wrthod ystyried rhagor o gwynion, er enghraifft am arwyddion dros dro, yn anwybyddu ei ddyletswyddau o dan adran 3(3)(a) i (c) y Mesur, hynny yw, nad yw yn arfer ei swyddogaethau i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg drwy roi sylw i (a) statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru; (b) i'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod (neu a all gael eu gosod) drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny; nag

(c) i'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Ymhellach, mae Ms Ruth yn honni nad yw'r Comisiynydd, wrth wneud penderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth i statws swyddogol y Gymraeg (a.3(3)(a)), na'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (a.3(3)(c)).

Hefyd, mae Ms Ruth yn honni nad yw'r Comisiynydd yn rhoi sylw i'r dyletswyddau sydd wedi eu gosod ar gyrff yn unol ag adran 3(3)(b) y Mesur, hynny yw, y dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod (neu a all gael eu gosod) drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny.

### (vi) Croes i gyfiawnder naturiol

Mae Ms Ruth yn honni fod yr "arfer newydd" **o ystyried ymchwilio** yn ychwanegu proses sydd yn ffafrio cyrff dros hawliau achwynwyr.

Mae Ms Ruth yn honni fod y Comisiynydd yn holi cyrff am eu barn ac ymateb i'r gŵyn - gan gynnwys anogaeth neu gyfle i ymddiheuro, esbonio a dangos newid ers y gŵyn - heb roi'r cyfle i'r achwynydd ymateb i unrhyw wybodaeth neu honiadau a wnaed gan y corff. Yn hynny o beth, mae Ms Ruth yn honni nad yw'r "broses newydd cyn-ymchwilio" yn trin yr achwynydd a'r corff yn deg na'u sylwadau yn gytbwys.

### (vii) Croes i bolisi preifatrwydd y Comisiynydd a rheolau Diogelu Data

Mae Ms Ruth yn honni fod y Comisiynydd, ers 1 Ebrill 2019, yn defnyddio gwybodaeth a dderbynnir gan achwynwyr, yn groes i Bolisi Preifatrwydd y Comisiynydd, fel y disgrifir isod.

Mae Ms Ruth yn dweud fod achwynwyr yn derbyn neges safonol mewn ymateb i gŵyn oedd yn darllen fel a ganlyn:

"Er mwyn penderfynu a fydd ymchwilio ai peidio, bydd y Comisiynydd yn cysylltu â [enw'r corff] i gadarnhau a yw'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth dan sylw ai peidio.

Byddwn nawr yn ystyried eich cwyn ac yn cysylltu gyda [enw'r corff] i holi os mai nhw sy'n gyfrifol am y mater."

Mae Ms Ruth yn nodi fod y neges safonol hon yn unol â Pholisi Preifatrwydd y Comisiynydd, sydd yn datgan:

"*Y sail gyfreithiol y bydd y Comisiynydd yn prosesu eich gwybodaeth yn unol â hi yw er mwyn caniatáu'r Comisiynydd i ymarfer ei bwerau statudol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.*
*Gall eich cydsyniad hefyd fod yn rheswm cyfreithiol dros brosesu eich data personol. Mae hyn yn golygu eich cydsyniad penodol, gwybodus a diamwys a roddir yn rhydd ac y gellir ei gasglu gennych…"*

Fel bod y dyfyniad yn cael ei roi yn ei gyd-destun mwy cyflawn, dyma weddill y dyfyniad yn y Polisi Preifatrwydd:

*"… [Mae hyn yn golygu eich cydsyniad penodol, gwybodus a diamwys a roddir yn rhydd ac y gellir ei gasglu gennych] er enghraifft, pan fyddwch yn cytuno i dderbyn gohebiaeth farchnata gan y Comisiynydd neu pan gytunwch i gymryd rhan mewn arolygon neu ymchwil y farchnad (fel sy'n berthnasol)". Mae gennych hawl dan Gyfraith Diogelu Data i dynnu'n ôl eich cydsyniad lle'i rhoddwyd, ar unrhyw adeg*".

"*Bydd y Comisiynydd yn rhannu eich gwybodaeth a thrydydd parti pan fydd yn ofynnol i wneud hynny yn ôl y gyfraith neu os bydd gan y Comisiynydd sail gyfreithiol i wneud hynny.*

*Fel rheol bydd y Comisiynydd yn rhannu eich gwybodaeth a thrydydd parti er mwyn cynnal gwaith ymchwilio i gŵyn neu bryder neu i ymarfer ei bwerau statudol. Bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i chi pwy yw'r trydydd parti hwnnw a pham y mae angen rhannu'r wybodaeth o dan sylw".*

Unwaith eto, fel nad yw'r dyfyniad mae Cymdeithas yr Iaith wedi ei ddethol yn cael ei ddarllen allan o'i gyd-destun cyflawn, rwyf yn ychwanegu gweddill y paragraff ato isod:

*"[… Bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i chi pwy yw'r trydydd parti hwnnw a pham y mae angen rhannu'r wybodaeth o dan sylw]. Os nad ydych am i'r Comisiynydd rannu eich gwybodaeth gyda thrydydd parti wrth ymchwilio i gŵyn neu bryder neu i ymarfer ei bwerau statudol gallwch roi gwybod iddo er fe allai hynny effeithio ar ei allu i gyflawni'r swyddogaethau hynny*."

Mae Ms Ruth yn honni fod y negeseuon gan y Comisiynydd yn glir mai pwrpas y Comisiynydd wrth rannu gwybodaeth a dderbynnir gan yr achwynydd gyda chorff y cwynir amdano yw holi ai'r corff dan sylw sydd yn gyfrifol am yr ymddygiad h.y, nad oes caniatâd neu esboniad i'r achwynydd bod pwrpas tu hwnt i ddilysu'r gŵyn, sydd yn unol â'r Polisi Gorfodi.

Fodd bynnag mae Ms Ruth yn honni bod y wybodaeth a dderbynnir gan yr achwynydd, ers 1 Ebrill 2019, wedi bod yn cael ei ddefnyddio at bwrpas gwahanol ac ehangach, sef er mwyn ceisio am "ddatrysiad buan" neu "gyn-ymchwiliad" sydd yn rhoi cyfle i gorff ymddiheuro, darparu esboniad a dangos eu bod eisoes wedi ymateb i fynd i'r afael â'r tor safon.

Mae Ms Ruth yn honni gan nad oes grym statudol gan y Comisiynydd i gynnal "cyn-ymchwiliad" na "datrysiad buan", nad oes hawl gan y Comisiynydd i ddefnyddio'r data er mwyn cynnal unrhyw "broses ychwanegol".

Mae Ms Ruth yn bwriadu gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynglŷn â'r honiad hwn bod y Comisiynydd yn torri'r Polisi Preifatrwydd.

## Yr honiad o fethiant i ddefnyddio pwerau cosb sifil

Mae Ms Ruth yn gofyn i'r Comisiynydd:

i) ailystyried ei “agwedd” tuag at osod cosbau sifil ar gyrff; ac i
ii) ystyried gosod cosb sifil ar Gyngor Wrecsam yn achos CSG537.

Mae Ms Ruth yn honni, oherwydd nad yw’r Comisiynydd erioed wedi gosod cosb sifil ar unrhyw un fel cam yn dilyn ymchwiliad Adran 71, bod hyn yn arwain at lai o gydymffurfiaeth â’r Safonau.

Mae Ms Ruth yn tynnu sylw at un achos yn benodol, sef achos CSG537 yn ymwneud â honiad o fethiant Cyngor Wrecsam i ddarparu biliau treth yn y Gymraeg.

**<u>Yr honiad o sut mae’r penderfyniadau wedi cael effaith negyddol ar unigolion</u>**

Mae Ms Ruth yn honni:

- Bod penderfyniadau’r Comisiynydd a ddisgrifir yn y gŵyn hon (3.1 a 3.2 uchod) yn cael, ac wedi cael, effaith ar fynediad eu haelodau at wasanaethau Cymraeg; a
- Bod “prosesau/arfer newydd” y Comisiynydd yn golygu bod cydymffurfiaeth â’r Safonau yn llai tebygol gan fod cyrff yn gwybod bod y Comisiynydd wedi lleihau’r ganran o gwynion sy’n destun ymchwiliad ac felly nad oes camau gorfodi statudol ar gael yn y “mwyafrif” o achosion. Felly, honnir bod y “broses/arfer newydd”, yn ei dro, yn golygu bod llai o gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a statws is iddi.

**<u>Y canlyniad mae Ms Ruth yn ei ddymuno</u>**

Ar ran Grŵp Hawl Cymdeithas yr Iaith, mae Ms Ruth yn gofyn i’r Comisiynydd:

- “Ymddwyn yn agored” a thynnu yn ôl y “canllawiau newydd i staff” yn ymwneud ag ymdrin â chwynion;
- Ymddiheuro am y “newidiadau cudd” i’r ffordd mae’n ymdrin â chwynion;
- Sicrhau na fydd newidiadau eraill i’r ffordd mae’n ymdrin â chwynion;
- Ailystyried yr ymagwedd tuag at gosbau sifil;
- Ymddiheuro ac ailgynnal ymchwiliad CSG[redacted] i Gyngor Wrecsam er mwyn “gallu gosod cosb sifil ar y corff”.

Mae Ms Ruth yn gofyn i’r Comisiynydd ymdrin â’r gŵyn drwy symud ymlaen yn uniongyrchol at Gam 2 y polisi cwynion, sef cynnal adolygiad ffurfiol gan ymchwiliwr annibynnol, heb ddelio â’r gŵyn yn fewnol yn gyntaf oherwydd “difrifoldeb” yr honiadau a’r honiad na fedr unrhyw un o fewn y sefydliad ystyried y materion yn annibynnol.

# 4 Ymateb y Comisiynydd i honiadau Cymdeithas yr Iaith

Ar 6 Tachwedd 2019, rhoddodd Tîm Rheoli'r Comisiynydd ystyriaeth i gais Cymdeithas yr Iaith i'r gŵyn gael ei hystyried yn uniongyrchol o dan Gam 2 y polisi cwynion, a phenderfynwyd y dylid cynnal adolygiad Cam 1 yn y lle cyntaf.

Ar 18 Tachwedd 2019, atebodd aelod o Dîm Rheoli'r Comisiynydd, Ms Gwenith Price, Cyfarwyddwr Strategol y Comisiynydd, honiadau Ms Ruth ar ran Cymdeithas yr Iaith o dan Gam 1 y polisi cwynion (h.y ateb mewnol i'r gŵyn).

Fe ddeliodd Ms Price gyda'r gŵyn o dan dri phennawd fel a ganlyn:

(i) Yr honiad bod y Comisiynydd wedi newid arferion wrth ddelio â chwynion a gyflwynir o dan adran 93 Mesur y Gymraeg a bod y newidiadau hynny yn groes i Fesur y Gymraeg a'r Polisi Gorfodi ar sail fod yr arferion yn cyfateb i gyflwyno trefn o ddelio â chwynion drwy 'ddatrysiad buan';

(ii) Yr honiad nad yw'r Comisiynydd wedi bod yn dryloyw yn y modd y mae wedi newid ei arferion;

(iii) Yr honiad nad yw'r Comisiynydd yn gosod camau gorfodi sy'n ddigon llym i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.

Yn ychwanegol i'r tri phennawd uchod, mae Ms Price yn delio gyda'r honiad bod y Comisiynydd yn rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau y cwynir amdanynt.

Fe aeth Ms Price i'r afael â'r tri mater yn eu tro ac er lles bod yn gynhwysfawr ac yn gyflawn, fe'u hailadroddaf yma:

**(i) Yr honiad bod y Comisiynydd wedi newid arferion wrth ddelio â chwynion a gyflwynir o dan adran 93 Mesur y Gymraeg a bod y newidiadau hynny yn groes i Fesur y Gymraeg a'r Polisi Gorfodi ar sail fod yr arferion yn cyfateb i gyflwyno trefn o ddelio â chwynion drwy 'ddatrysiad buan'**

Yn ei hateb i'r honiad hwn, mae Ms Price yn dweud, ers 1 Ebrill 2019, mae'r Comisiynydd wedi cymryd camau i sicrhau ei fod yn ystyried popeth perthnasol, ac nad yw'n ystyried unrhyw beth amherthnasol, wrth iddo bwyso a mesur a ddylai agor ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg i gwynion a gyflwynir dan adran 93. Mae hi'n dweud fod hynny'n cynnwys gwahodd sefydliadau sy'n destun cwyn dan adran 93 Mesur y Gymraeg i gyflwyno sylwadau am:

- gywirdeb honiadau'r gŵyn
- amgylchiadau perthnasol ar yr adeg y digwyddodd y mater y cwynir amdano
- camau sydd wedi eu cymryd mewn perthynas â'r mater
- camau y bwriedir eu cymryd mewn perthynas â'r mater a'r ymrwymiadau a wneir i'w cyflawni

Mae Ms Price yn dweud, yn groes i honiadau Cymdeithas yr Iaith, nad yw'r Comisiynydd

yn annog sefydliadau sy’n destun cwyn i gyflwyno ymddiheuriad, nac yn eu hannog i gymryd camau mewn ymateb i’r gŵyn er mwyn ei datrys yn anffurfiol neu ddod i ddatrysiad buan. Mae Ms Price yn dweud nad diben gwahodd sefydliadau sy’n destun cwyn dan adran 93 y Mesur i gyflwyno sylwadau yw sefydlu a gydymffurfiwyd â safon ai peidio, ac ni wneir hynny, ac eithrio i’r graddau bod y dystiolaeth mor gyfan gwbl eglur nes ei fod yn golygu nad yw’r Comisiynydd yn rhesymol yn gallu amau fod methiant i gydymffurfio wedi digwydd.

Yn ogystal, mae Ms Price yn dweud, ers 1 Ebrill 2019, wrth gydnabod derbyn cwyn, estynnir gwahoddiad pellach i’r achwynydd gyflwyno unrhyw sylwadau pellach y mae’n dymuno i’r Comisiynydd eu hystyried.

Mae Ms Price ymhellach yn dweud fod y Comisiynydd hefyd wedi cymryd camau i gryfhau ei drefniadau ar gyfer gweithredu’n unol â Mesur y Gymraeg. Mae hi’n tynnu sylw at is-baragraff (1) adran 3 Atodlen 10 Mesur y Gymraeg sy’n creu dyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer rhoi cyfle i bersonau “*wneud sylwadau mewn perthynas ag”* ymchwiliadau ac yn dweud bod y gwahoddiad i’r achwynydd a’r sefydliad i gyflwyno sylwadau yn gyson â’r gofyniad hwn.

Yn ei hateb i honiad Cymdeithas yr Iaith: “[Nad] yw’r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at gyn-ymchwiliadau neu ymholiadau cyn-ymchwilio tu hwnt i’r rhestr a ragnodir yn adran 93”, dywed Ms Price mai barn y Comisiynydd oedd bod y camau hyn yn gamau rhesymol a chyfreithlon, ac yn unol â Mesur y Gymraeg ac â’r arweiniad a roddwyd gan Dribiwnlys y Gymraeg mewn achosion yn ymwneud ag arfer disgresiwn y Comisiynydd wrth ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad dan Adran 93.

Mae adran 93(1) y Mesur yn nodi:

> “Rhaid i’r Comisiynydd ystyried ai i gynnal ymchwiliad o dan adran 71 ai peidio i’r cwestiwn a yw ymddygiad person (D) (“yr ymddygiad honedig”) yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon-
>
> (a) os yw person (P) yn gwneud cwyn i’r Comisiynydd ynglŷn â’r ymddygiad honedig, a
>
> (b) os yw’r gŵyn yn un ddilys.

Mae Ms Price yn nodi fod y Mesur [yn yr un adran] yn mynd ymlaen i nodi’r meini prawf ar gyfer dilysrwydd cwynion, a’r amgylchiadau lle nad oes rhaid ystyried agor ymchwiliad i gŵyn, hyd yn oed os yw’n ddilys. Mae’n werth ailadrodd y darpariaethau hynny yma:

> (2) Mae cwyn gan P i’r Comisiynydd yn gŵyn ddilys os bodlonir yr amodau yn
> isadrannau (3) i (6).
>
> (3) Rhaid i P fod—
>
> (a) yn berson y mae'n ymddangos i’r Comisiynydd fod yr ymddygiad honedig wedi effeithio arno'n uniongyrchol, neu
>
> (b) yn berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
>
> (4) Rhaid gwneud y gŵyn yn ysgrifenedig, oni bai bod amgylchiadau personol P yn golygu na fyddai'n rhesymol i P wneud y gŵyn yn ysgrifenedig.
>
> (5) Rhaid i’r gŵyn roi cyfeiriad lle y caiff y Comisiynydd gysylltu â P (boed y cyfeiriad yn gyfeiriad post, electronig neu'n gyfeiriad o ddisgrifiad arall).

(6) Rhaid i'r gŵyn —

(a) ei gwneud yn hysbys pwy yw D, a

(b) ei gwneud yn hysbys beth yw'r ymddygiad honedig.

(7) Ond, os bodlonir yr amodau hynny, nid oes angen i'r Comisiynydd ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio-

(a) os gwneir y cwyn fwy na blwyddyn ar ôl i'r person yr effeithiwyd arno ddod yn ymwybodol o'r ymddygiad honedig,

(b) os yw'r Comisiynydd o'r farn bod y gŵyn yn wacsaw neu'n flinderus, neu'n un sydd eisoes wedi ei gwneud sawl gwaith, neu

(c) os tynnir y gŵyn yn ôl.

Mae Ms Price yn nodi nad yw adran 93 yn darparu unrhyw feini prawf sy'n rhoi arweiniad i'r Comisiynydd ar sut i weithredu ei ddisgresiwn wrth ystyried a ddylid agor ymchwiliad i gŵyn ddilys. Mae Ms Price yn mynd ymlaen i nodi geiriau'r Tribiwnlys yn achos 16/8 ynglŷn â disgresiwn y Comisiynydd wrth benderfynu pa ffactorau i'w hystyried o dan adran 71:

> *"Nid yw'r Mesur ei hun yn rhoi unrhyw arweiniad ynglŷn â pha ffactorau y byddai disgwyl i'r Comisiynydd eu hystyried wrth benderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio....Yn gyffredinol, mater i'r Comisiynydd yw penderfynu pa ffactorau sy'n berthnasol mewn achosion penodol (cyn belled nad yw'n anwybyddu rhai sy'n amlwg yn berthnasol) a phenderfynu faint o bwysau i roi ar y ffactorau hynny. Ar ôl gwneud hynny byddai wedyn yn rhydd i wneud asesiad o le saif y cydbwysedd rhwng y rhai sy'n cefnogi cynnal ymchwiliad a'r rhai nad ydynt".*

Mae Ms Price yn dod i'r casgliad felly, o'r hyn a nodwyd gan y Tribiwnlys yn achos 16/8, ei bod hi'n eglur bod disgresiwn eang gan y Comisiynydd o ran pa ffactorau i'w hystyried a faint o bwysau i'w rhoi arnynt wrth wneud ei asesiad o ble saif y cydbwysedd.

Mae Ms Price yn nodi mewn achos arall, achos 18/3, fod y Tribiwnlys wedi nodi ei bod hi'n rhesymol i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth y ffaith bod y sefydliad y cwynwyd amdano wedi newid yr arfer oedd yn destun y gŵyn:

> "*Diben y system safonau yw newid ymddygiad awdurdodau cyhoeddus ac, os yw'n digwydd, fel mae'r Comisiynydd yn nodi, bod newid o'r fath wedi bod, gellir deall rhesymeg ei chasgliad, yn seiliedig ar y ffaith honno ac ar yr amser a oedd wedi mynd heibio, y byddai ymchwiliad, hyn yn oed pe byddai wedi arwain at ganfyddiad o fethiant i gydymffurfio, yn ddefnydd adnoddau a fyddai'n anghymesur i unrhyw fudd a fyddai'n deillio i ddefnyddwyr y Gymraeg. Roedd hyn, felly, yn sail resymegol, ar wahân, dros benderfyniad i beidio ag ymchwilio, ac un na fydda gan y Tribiwnlys unrhyw sail ar gyfer ymyrryd ag ef*".

Achos arall y mae Ms Price yn cyfeirio ato yw achos 19/4, lle mae hi'n dweud i'r achwynydd gyflwyno'r ddadl ganlynol yn ei ddatganiad achos, fel un sail dros wneud cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn:

> "*Bod y Comisiynydd, drwy fethu â chynnal ymchwiliad yn y mater hwn a materion*

*eraill ar sail gwybodaeth a gasglwyd yn anffurfiol cyn ymchwiliad, yn afresymegol ac afresymol ac yn fethiant gan y Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaeth o dan y Mesur*" (para. 7).

O dan adran 103(4) o'r Mesur, y prawf y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys ei gymhwyso wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i gais i herio penderfyniad y Comisiynydd yw:

(a) bod disgwyliad rhesymol y byddai'r cais yn llwyddo, neu

(b) bod rhyw reswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed.

Gwrthododd y Tribiwnlys y cais, gan resymu, inter alia, nad ystyriwyd unrhyw ffactorau gwallus fel rhan o'r penderfyniad. O ganlyniad, ni fyddai disgwyliad rhesymol y byddai'r cais yn llwyddo ac nid oedd rheswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed.

Penderfynodd yr Achwynydd/Ceisydd ofyn am i'r cais gael ei ailystyried (o dan reol 16(8) o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015) gan banel y Tribiwnlys. Gwrthododd y Tribiwnlys y cais hwnnw gan gadarnhau penderfyniad blaenorol y Tribiwnlys yn y mater.

Mae Ms Price yn nodi, pe bai'r Tribiwnlys o'r farn bod y Comisiynydd wedi gweithredu'n anghyfreithlon wrth ystyried sylwadau a wnaed gan y sefydliad wrth wneud ei benderfyniad, yna ni fyddai'r Tribiwnlys wedi dod i'r casgliad hwn. Mae Ms Price yn rhesymu ei bod hi felly'n eglur bod modd i'r Comisiynydd ystyried tystiolaeth arall sydd ar gael iddo ar yr adeg y mae'n penderfynu ai i agor ymchwiliad ai peidio.

Mae Ms Price yn mynd ymlaen i nodi nad yw'n dilyn, o achos 18/3, y byddai'r ffaith bod y sefydliad wedi newid ei arfer bob tro yn golygu na fyddid yn cynnal ymchwiliad, ond ei fod yn un o'r ffactorau perthnasol y mae'n briodol i'r Comisiynydd eu hystyried - ac yn wir, y byddai anwybyddu gwybodaeth o'r fath yn creu risg o her gan y sefydliad sy'n destun y gŵyn.

Mae Ms Price yn nodi fod y Comisiynydd, felly, yn hyderus fod ei drefniadau ar gyfer galluogi sefydliadau ac achwynwyr i gyflwyno sylwadau cyn iddo benderfynu a fydd yn ymchwilio i gŵyn ai peidio yn gyson â gofynion y Mesur.

Mae Ms Price hefyd yn nodi mai canlyniad y drefn hon yw bod y Comisiynydd bellach yn gallu canolbwyntio adnoddau ar weithgareddau a fydd yn cyflawni'r budd mwyaf, sy'n gyson â'r hyn ddywedodd y Tribiwnlys yn achos 18/3, sef:

> "Er bod y Tribiwnlys yn cydnabod bod system gadarn ac effeithiol ar gyfer gorfodi safonau'r Gymraeg yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion y Mesur, mae'n rhaid i'r Comisiynydd, wrth weithredu'r system, gael elfen o ddisgresiwn i ganolbwyntio adnoddau ar weithgareddau a fydd yn cyflawni'r budd mwyaf".

O'r herwydd, mae Ms Price, ar ran y Comisiynydd, yn gwrthod y ddadl bod arfer y Comisiynydd yn y cyd-destun hwn yn groes i Fesur y Gymraeg.

**(ii) Yr honiad bod y Comisiynydd yn gweithredu'n groes i'r Polisi Gorfodi, yn benodol, yn groes i gymal 4.15.**

Mae cymal 4.15 o'r Polisi Gorfodi yn dweud y canlynol:

*“Penderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio*

*Yn y mwyafrif o achosion bydd y Comisiynydd yn cysylltu â’r person perthnasol, gan roi cyfle iddo ddarparu gwybodaeth i’r Comisiynydd mewn cysylltiad â honiad achwynydd. Gwneir hynny am resymau ymarferol ac er mwyn cael digon o wybodaeth i’r Comisiynydd allu penderfynu ymchwilio ai peidio mewn cysylltiad â’r ymddygiad honedig. Bydd y cais am wybodaeth yn glir ac yn ymwneud â gwirio dilysrwydd ffeithiol y gŵyn. Bydd y Comisiynydd yn disgwyl derbyn ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith. Fodd bynnag, bydd y Comisiynydd yn agored i dderbyn cais am estyniad rhesymol (o ddim mwy na 10 diwrnod gwaith pellach) gan berson perthnasol, os oes rhesymau dilys dros hynny. Bydd y wybodaeth a dderbynnir (neu unrhyw ddiffyg i ddarparu) yn cyfrannu at y ffactorau fyddai’n cynorthwyo’r Comisiynydd i ddod i benderfyniad os dylid cynnal ymchwiliad o dan adran 71”.*

Mae Ms Price yn nodi fod cymal 4.15 yn glir o’r frawddeg gyntaf fod y Comisiynydd yn “rhoi cyfle i’r sefydliad ddarparu gwybodaeth i’r Comisiynydd mewn cysylltiad â honiad achwynydd” drwy ei wahodd i gyflwyno sylwadau.

Mae Ms Price yn nodi ei bod hi hefyd yn glir, o’r ail frawddeg, y bydd y Comisiynydd yn gweithredu mewn ffordd fydd yn sicrhau bod ganddo “ddigon o wybodaeth i’r Comisiynydd allu penderfynu ymchwilio ai peidio mewn cysylltiad â’r ymddygiad honedig”.

Yn ychwanegol, mae Ms Price yn nodi fod y drydedd frawddeg yn dweud: “Bydd y cais am wybodaeth yn glir **ac** [pwyslais Ms Price] yn ymwneud â gwirio dilysrwydd ffeithiol y gŵyn”. Ymhellach, mae Ms Price yn nodi nad yw’r datganiad y bydd y cais yn “ymwneud â gwirio dilysrwydd ffeithiol y gŵyn” yn cyfyngu ar yr hyn y gall y Comisiynydd ei ofyn er mwyn cyflawni’r dibenion a nodir yn y ddwy frawddeg gyntaf.

Mae Ms Price yn crynhoi ei chasgliadau ynglŷn â’r honiad bod y Comisiynydd yn gweithredu’n groes i’r Polisi Gorfodi drwy ail-nodi ac adleisio’r Tribiwnlys yn achos 18/3 fod yn rhaid i’r Comisiynydd ystyried popeth perthnasol, a dim byd amherthnasol wrth benderfynu ai i gynnal ymchwiliad ai peidio. Yn ychwanegol, nodir bod y dyfarniad yn achos 18/3 yn ei gwneud yn glir y gall y Comisiynydd ystyried gwybodaeth arall sydd ar gael iddo ar yr adeg y mae’n penderfynu agor ymchwiliad ai peidio. Ymhellach, bod yn rhaid i’r Comisiynydd ystyried y sylwadau hynny os ydynt yn ei feddiant ac yn berthnasol wrth iddo wneud ei benderfyniad i ymchwilio ai peidio.

**(ii) Yr honiad nad yw’r Comisiynydd wedi bod yn dryloyw yn y modd y mae wedi newid ei arferion**

O ran yr honiad hwn, mae Ms Price yn nodi y bu’r Comisiynydd yn gwbl agored â Chymdeithas yr Iaith ynghylch yr arferion yr oedd wedi eu mabwysiadu wrth ddelio â chwynion yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2019.

Mae’n werth nodi yma fod Cymdeithas yr Iaith wedi honni yn eu cwyn (uchod) nad yw ymddygiad y Comisiynydd yn dryloyw gan iddynt gael ar ddeall yn y cyfarfod â’r Comisiynydd ym mis Gorffennaf 2019 fod “canllawiau newydd wedi eu cylchredeg i staff

y Comisiynydd ynglŷn â'r modd maent yn ymdrin â chwynion", heb i'r "canllawiau" gael eu cyhoeddi na'r Polisi Gorfodi ei newid.

Felly ymddengys fod yr honiad o ddiffyg tryloywder ar ran y Comisiynydd yn benodol am nad yw'r "canllawiau" wedi eu cyhoeddi na'r Polisi Gorfodi ei newid.

Mae Ms Price hefyd yn dweud y bu'r Comisiynydd yn gwbl agored yn ogystal, â Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am graffu ar waith y Comisiynydd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor ar 18 Medi 2019, ac yn dilyn cais gan y Pwyllgor i ddeall rhagor am arferion y Comisiynydd wrth ddelio â chwynion, darparodd a chyflwynodd y Comisiynydd nodyn esboniadol iddynt. Rhoddodd Ms Price ddolen i'r nodyn hwnnw yn ei hymateb at y Gymdeithas.

Yn ychwanegol, mae Ms Price yn dweud y rhoddir eglurhad llawn i bob achwynydd sy'n cyflwyno cwyn, o benderfyniad y Comisiynydd i ymchwilio i'w cwyn ai peidio; ymhellach, nad oes unrhyw gŵyn ddilys wedi ei heithrio rhag derbyn ystyriaeth lawn.

### (iii) Yr honiad nad yw'r Comisiynydd yn gosod camau gorfodi sy'n ddigon llym i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg

O ran yr honiad hwn, mae Ms Price yn dweud fod y Polisi Gorfodi yn nodi y gosodir cosb sifil ar gyfer y methiannau mwyaf difrifol, a hynny er mwyn atal methiannau rhag parhau neu gael eu hailadrodd, ac er mwyn sicrhau bod hawliau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu gwarchod. Ymhellach i hynny, mae Ms Price yn tynnu sylw at y ffaith fod y Cynllun Strategol ar gyfer 2018 - 2021 yn nodi:

> *"Mae dyletswydd ar y Comisiynydd i arfer pwerau ymchwilio a gorfodi. Y flaenoriaeth strategol wrth wneud hynny fydd adfer cydymffurfiaeth, atal methiannau rhag digwydd neu rhag cael eu hail adrodd, a chymell diwylliant o arloesi er mwyn gyrru newidiadau parhaol yn y modd y mae sefydliadau'n defnyddio'r Gymraeg, nid cosbi sefydliadau".*

Mae Ms Price yn mynd ymlaen i ddweud, ers cychwyn yn y swydd, mae'r Comisiynydd wedi cymryd camau er mwyn sicrhau bod y camau gorfodi sy'n cael eu gosod yn arwain at wella gwasanaethau i ddefnyddwyr y Gymraeg. Mae hi'n egluro fod y camau hynny yn cynnwys gofyn i sefydliadau adrodd ar eu cyflawniad a chyflwyno tystiolaeth o hynny, ac os yw'r Comisiynydd o'r farn fod methiant i gydymffurfio â'r camau hynny, fod gan y Comisiynydd bwerau o dan Fesur y Gymraeg i'w gorfodi. Mae Ms Price hefyd yn nodi fod y Comisiynydd wedi ymrwymo, drwy'r Cynllun Gweithredol, i adolygu'r modd y defnyddir camau gorfodi erbyn diwedd 2019, ac y bydd sylwadau Cymdeithas yr Iaith ar yr angen i roi cosbau sifil yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses honno.

### (iv) Yr honiad bod y Comisiynydd yn rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau y cwynir amdanynt

O ran yr honiad hwn, mae Ms Price yn nodi fod y Comisiynydd, yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth diogelu data newydd yn 2018 (Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016 (GDPR)), wedi adolygu holl arferion y Comisiynydd ar brosesu data, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r gofynion newydd. Mae Ms Price hefyd yn nodi fod y Comisiynydd wedi adolygu Hysbysiad Preifatrwydd y Comisiynydd

sydd ar ei wefan fel rhan o'r gwaith hwn (fe adolygwyd ddiwethaf ar 19 Ionawr 2019). Fe nodir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd:

***Rhannu eich gwybodaeth gyda thrydydd parti***

> *Bydd y Comisiynydd yn rhannu eich gwybodaeth â thrydydd parti pan fydd yn ofynnol i wneud hynny yn ôl y gyfraith neu os bydd gan y Comisiynydd sail gyfreithiol i wneud hynny. Fel rheol bydd y Comisiynydd yn rhannu eich gwybodaeth â thrydydd parti er mwyn cynnal gwaith ymchwilio i gŵyn neu bryder neu i ymarfer ei bwerau statudol. Bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i chi pwy yw'r trydydd parti hwnnw a pham y mae angen rhannu'r wybodaeth o dan sylw. Os nad ydych am i'r Comisiynydd rannu eich gwybodaeth gyda thrydydd parti wrth ymchwilio i gŵyn neu bryder neu i ymarfer ei bwerau statudol gallwch roi gwybod iddo er fe allai hynny effeithio ar ei allu i gyflawni'r swyddogaethau hynny.*

Mae Ms Price yn nodi fod y Comisiynydd, wrth gynnal gwaith ymchwilio a gorfodi, yn prosesu data ar sail Erthygl 6 (1)(e) o'r Rheoliadau Cyffredinol (GDPR), sef:

> *"Processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller"*

Mae Ms Price yn pwysleisio mai dim ond ar gyfer ei swyddogaeth o ymchwilio a gorfodi mae'r Comisiynydd yn prosesu data personol achwynwyr, a hynny ar y sail gyfreithiol a nodir uchod. Mae Ms Price yn ailbwysleisio nad yw'r Comisiynydd yn ceisio am "ddatrysiadau buan" neu "gyn-ymchwiliad" ac mae felly'n nodi fod yr honiad bod y Comisiynydd yn defnyddio gwybodaeth unigolion at bwrpas gwahanol yn anghywir ac yn ddi-sail.

**<u>Gwybodaeth bellach ynglŷn â'r ystadegau a gafodd y Gymdeithas o dan geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth.</u>**

Yn ei hymateb i gŵyn Cymdeithas yr Iaith, cynigiodd Ms Price fwy o oleuni i'r Gymdeithas ynglŷn â'r ystadegau a gyflwynwyd iddynt yn sgil eu ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae Ms Price yn nodi y dengys yr ystadegau fod y Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad i 21 o 53 cwyn ddilys a gyflwynwyd rhwng Ebrill a Mehefin 2019. Mae hi'n egluro nad oedd modd ymchwilio i 14 cwyn ddilys am nad oeddent yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safon neu gam gorfodi neu unrhyw ofyniad perthnasol arall (e.e. cafwyd cwynion yn erbyn sefydliadau nad oedd yn gyfrifol am y materion y cwynwyd amdanynt). Ymchwiliwyd felly i 53.8% o'r cwynion dilys lle roedd yn agored iddo wneud hynny [hynny yw, nid 39.6% fel y nodir yn yr ystadegau a roddodd y Comisiynydd i'r Gymdeithas].

Mae Ms Price yn nodi ymhellach i'r Comisiynydd, rhwng Gorffennaf a Medi 2019, agor ymchwiliad i 21 o 55 cwyn ddilys, ond nad oedd modd ymchwilio i 20 o'r cwynion dilys am nad oeddent yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Felly, mae hi'n nodi yr ymchwiliodd y Comisiynydd i 60% o'r cwynion dilys lle roedd yn agored iddo wneud hynny.

**<u>Sylwadau terfynol a chais Ms Price ar ran y Comisiynydd i'r Gymdeithas</u>**

Yn ei sylwadau terfynol at y Gymdeithas mae Ms Price yn nodi fod y Comisiynydd a'i swyddfa wedi gwerthfawrogi ysbryd adeiladol y berthynas sydd wedi bodoli hyd yma rhwng y Gymdeithas a swyddfa'r Comisiynydd, yn arbennig y trafodaethau agored a gafwyd ar drefniadau'r Comisiynydd i ddelio â chwynion ar 31 Gorffennaf 2019.

Yn y cyd-destun hwnnw, mae Ms Price yn gresynu fod y Gymdeithas, yn eu cwyn, wedi gwneud cyhuddiadau a honiadau difrifol iawn am y Comisiynydd a'i staff, gan gynnwys anonestrwydd, diffyg annibyniaeth a chynllwynio gyda'r Llywodraeth i weithredu'n groes i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hi'n diweddu ei hymateb drwy ddweud nad oes gwirionedd na sail i'r cyhuddiadau hyn, ac mae hi'n gofyn i'r Gymdeithas eu tynnu'n ôl.

# 5 Apêl Cymdeithas yr Iaith

Yn dilyn ymateb Ms Price ar ran y Comisiynydd at Gymdeithas yr Iaith, penderfynodd y Gymdeithas apelio ar 4 Rhagfyr 2019. Unwaith eto, er lles cyflwyno'r dadleuon yn gytbwys a theg, adroddaf ymateb Ms Ruth at Ms Price.

Mae Ms Ruth yn rhannu ei hateb/apêl yn bedair rhan: i) y rhan gyntaf (dideitl); ii) Dyfarniadau'r Tribiwnlys; iii) Y Polisi Gorfodi; a iv) Diffyg Tryloywder. Amlinellaf gynnwys y llythyr apêl yma.

Yn rhan gyntaf ei llythyr, mae Ms Ruth yn dweud y canlynol:

> "Mae'ch penderfyniad i wrthod penodi archwilwyr allanol yn destun pryder. Wrth reswm, mae uwch swyddogion y Comisiynydd yn mynd i fod yn awyddus i amddiffyn eu newidiadau polisi. Ymhellach, ymddengys erbyn hyn bod eich newidiadau i'ch trefn gorfodi ac ymchwilio yn seiliedig ar gymhellion cyllidebol ac o ran adnoddau y cynigiwyd gan y Llywodraeth i'r Comisiynydd ei hun. Nid oes modd i'r un aelod o dîm rheoli'r Comisiynydd fod yn wrthrychol ar y mater oherwydd yr hunanfuddiannau amlwg yn yr achos. Yn wir, nodwn mai chi - y Dirprwy Gomisiynydd - yw awdur gohebiaeth sy'n rhan o destun ein cwyn. Gofynnwn i chi eto felly penodi archwilwyr allanol er mwyn sicrhau bod y gŵyn yn cael ei hystyried yn wrthrychol ac yn annibynnol".

Yn ychwanegol, mae Ms Ruth yn nodi'r canlynol:

> "Cyn troi at fanylion ein hapêl, hoffem nodi'n glir nad ydym yn tynnu yn ôl dim un manylyn o'n cwyn wreiddiol fel rydych chi'n gofyn i ni wneud. Fodd bynnag, hoffem bwysleisio nad ydym yn beio'r rhan fwyaf o weithwyr diffuant ac ymroddedig swyddfa'r Comisiynydd, yn hytrach, rydym yn cyhuddo'r Comisiynydd ei hun a'i dim o uwch swyddogion o'r camymddygiad hwn".

Byddai'n ddoeth i mi hefyd ddyfynnu'r canlynol:

> "Yn groes i honiadau eich ymateb, mae bellach yn glir yn dilyn gwybodaeth a ryddhawyd drwy geisiadau rhyddid gwybodaeth bod y Comisiynydd newydd, yn

dilyn cais gan Weinidog y Llywodraeth, wedi gwneud ymdrech fwriadol i leihau nifer a chanran yr ymchwiliadau i gwynion y cynhelir ganddo, a hynny er mwyn sicrhau rhagor o gyllid a chyfrifoldebau o du Llywodraeth Cymru".

Mae Ms Ruth yn nodi fod Cymdeithas yr Iaith yn ailadrodd y cwynion yn eu cwyn wreiddiol.

Mae Ms Ruth hefyd yn tynnu sylw at ohebiaeth rhwng y Comisiynydd a'r Llywodraeth ynghyd â phapur mewnol y Llywodraeth sydd, mae'n honni, yn dangos bod y Comisiynydd wedi: "newid a gwanhau [eu] polisïau gorfodi ac ymchwilio yn dilyn cais gan Weinidog y Gymraeg, ac yn seiliedig ar addewid i gynyddu cyllideb a chyfrifoldebau'r Comisiynydd".

Nid yw Ms Ruth yn nodi at ba ohebiaeth rhwng y Comisiynydd a'r Llywodraeth mae hi'n cyfeirio ati, na pha bapur mewnol y Llywodraeth sydd ganddi mewn golwg. Mae hi, fodd bynnag, yn rhestru'r gohebiaeth maent wedi "dod o hyd iddo" drwy geisiadau rhyddid gwybodaeth ynghylch y trafodaethau rhwng y Comisiynydd a'r Llywodraeth, ac maent fel a ganlyn:

| **Gohebiaeth** | **Dyddiad** | **Dehongliad Cymdeithas yr Iaith o grynodeb y cynnwys** |
|---|---|---|
| Gweinidog y Gymraeg i'r Comisiynydd http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Atodiad%201.pdf | 26 Tachwedd 2018 | Cais clir gan y Gweinidog i'r Comisiynydd leihau'r ganran o ymchwiliadau i gwynion. |
| Comisiynydd i Weinidog y Gymraeg http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Atodiad%202.pdf | 5ed Chwefror 2019 | Comisiynydd yn cadarnhau ei fod yn fodlon ystyried cynnal llai o ymchwiliadau yn dilyn gohebiaeth ac anogaeth y Gweinidog. |
| Comisiynydd i Weinidog y Gymraeg http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Cais%20Deddf%20Rhyddid%20Gwybodaeth%20116%20Atodiad%201.pdf | 1af Awst 2019 | Y Comisiynydd yn brolio ei fod wedi torri lawr nifer a chanran yr ymchwiliadau yn dilyn cais gan y Gweinidog gan atodi ystadegau i bwysleisio hynny a chan ddiolch i'r Gweinidog: "Rwy'n ddiolchgar i chi am eich arweiniad ar y mater hwn." |
| Gweinidog y Gymraeg i'r Comisiynydd http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/ | 4ydd Medi 2019 | Y Gweinidog yn llongyfarch y Comisiynydd ar gynnal llai o ymchwiliadau i gwynion gan ddweud ei bod yn 'croesawu' yr ystadegau 'calonogol'. |

| | | |
|---|---|---|
| Rhestr %20Cyhoeddiadau/Cais %20Deddf%20Rhyddid %20%20Gwybodaeth %20116%20Atodiad %202.pdf | | |
| Papur polisi Gweinidog y Gymraeg https://llyw.cymru/atisn13502 | 9 Ebrill 2019 | Tystiolaeth bod y Llywodraeth yn benderfynol bod y Comisiynydd yn lleihau'r pwyslais ar reoleiddio ac yn cynnig cynyddu ei gyfrifoldebau (ac o ganlyniad cyllideb) os yw hynny'n digwydd. |

Mae Ms Ruth yn honni, "O edrych ar yr ohebiaeth hon, mae'n gwbl eglur nid buddiannau'r Gymraeg a'i ddefnyddwyr sydd wrth wraidd y newid polisi a'r penderfyniad i gynnal llawer llai o ymchwiliadau, ond ymgais i gynyddu cyllideb ac adnoddau'r Comisiynydd a'i swyddfa. Mae'n batrwm sy'n amlygu'r ffaith nad yw'r Comisiynydd wedi ymdrin â'r pwerau a pholisïau gorfodi'n annibynnol o Lywodraeth Cymru".

Mae rhai o'r honiadau a chyhuddiadau a wneir gan Ms Ruth yn y gŵyn a'r apêl yn rhai difrifol iawn; oherwydd hynny, rwyf o'r farn ei bod hi'n bwysig i mi, mewn rhai mannau, ddyfynnu gair am air. Yn yr apêl, dywed Ms Ruth:

> "Nid oes angen i ni ailadrodd holl fanylion ein cwyn wreiddiol, ond hoffem ymateb i rai o'r honiadau yn eich ymateb. Nodwn nad ydy eich ymateb yn gwadu'r ffeithiau canlynol, sef bod:
>
> - y Comisiynydd wedi gwneud newidiadau o bwys i'w drefn ymchwilio a gorfodi ar, neu o gwmpas, y 1af Ebrill 2019;
> - y Comisiynydd wedi gwneud newidiadau o bwys i'w drefn ymchwilio a gorfodi heb i swyddfa'r Comisiynydd wneud datganiad cyhoeddus am y mater heb sôn am gynnal ymgynghoriad ar y newidiadau;
> - y Comisiynydd wedi gwneud penderfyniad bwriadol i leihau'n sylweddol y canran o gwynion sy'n destun ymchwiliad statudol;
> - penderfyniad y Comisiynydd i leihau'n sylweddol y canran o gwynion sy'n destun ymchwiliad statudol yn dilyn gofyniad ac anogaeth gan y Gweinidog i wneud hynny;
> - y Comisiynydd, a/neu ei uwch-swyddogion, yn ymwybodol, wrth wneud y penderfyniadau i newid y drefn ymchwilio a gorfodi newydd, byddai'r Llywodraeth yn fwy tebygol o gynyddu cyfrifoldebau ac felly cyllideb y Comisiynydd pe byddech yn ildio i'w gofynion;
> - bod y penderfyniad i leihau'n sylweddol y canran o gwynion sy'n

destun ymchwiliad statudol yn lleihau'n sylweddol y tebygolrwydd y wynebiff corff gamau gorfodi am dorri safonau;

- mai diben adran 16 Mesur y Gymraeg 2011 yw sicrhau bod pwerau gorfodi'r Comisiynydd yn cael eu defnyddio'n annibynnol o'r Llywodraeth;

- mai diben adran 108 Mesur y Gymraeg 2011 yw sicrhau bod y broses a pholisi ymchwilio a gorfodi yn glir i'r cyhoedd a bod newidiadau i'r polisi yn cael eu gwneud yn agored ac yn dryloyw;

- annibyniaeth pwerau a threfniadau ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd yn hanfodol gan fod y Llywodraeth yn atebol yn gyfreithiol am ei gydymffurfiaeth i'r Safonau i'r Comisiynydd;

- dyfarniadau'r Tribiwnlys yn caniatáu i'r Comisiynydd presennol barhau i gynnal yr un canran o ymchwiliadau statudol i gwynion â'i ragflaenydd".

**Dyfarniadau'r Tribiwnlys**

Ynglŷn â dyfarniadau'r Tribiwnlys, mae Ms Ruth yn dweud:

> "Nodwn eich bod yn rhoi cryn bwyslais ar ddyfarniadau'r Tribiwnlys yn eich ymateb i'n cwynion gwreiddiol.
>
> Fodd bynnag, nodwn ymhellach nad ydych chi'n honni y buodd rhaid i'r Comisiynydd leihau'n sylweddol y canran o gwynion sy'n destun ymchwiliad yn dilyn y dyfarniadau hyn. Yn hytrach, o'r dystiolaeth sydd gennym, mae'n glir bod y newidiadau wedi dod yn sgil gofyniad, anogaeth a chymhellion o ran cyllideb ac adnoddau gan y Comisiynydd.
>
> Nodwn eich bod yn cyfeirio at ddyfarniad y Tribiwnlys yn achos 16/8 a wnaed ar 28ain Mehefin 2017 er mwyn cyfiawnhau'r newidiadau i'r drefn ymchwilio a gorfodi cael ei wneud ar 1af Ebrill 2019. Nid yw'n gredadwy o gwbl i chi honni bod y newidiadau hyn wedi cael eu hysgogi gan ddyfarniad gan y Tribiwnlys a wnaed dwy flynedd yn gynt.
>
> Mae'n gwbl glir o'r dystiolaeth a gyfeirir ati uchod mai gofyniad, anogaeth a llwgrwobrwyo gan y Gweinidog sydd wedi ysgogi'r newidiadau. Yn bellach, mae'n amlwg bod ymddygiad y Comisiynydd a'r Gweinidog yn groes i lythyren ac ysbryd Mesur y Gymraeg 2011, yn enwedig adrannau 3, 16 ac 108.
>
> Nodwn nad ydych chi'n dadlau bod y newidiadau i'r drefn ymchwilio wedi eu hysgogi na'u harwain gan benderfyniadau'r Tribiwnlys. Hoffem ofyn beth sydd wedi ysgogi'r newidiadau a'r cwymp sylweddol yn y canran o ymchwiliadau statudol felly".
>
> Mae Ms Ruth yn nodi ymhellach bod TyG/WLT/16/8 yn datgan:

*“25. Mae penderfyniad i beidio ag ymchwilio i gŵyn sydd yn weithdrefnol ddilys ac sy’n ymddangos yn deg, o leiaf ar yr olwg gyntaf, yn un pwysig, rhywbeth sy’n cael ei danlinellu gan y ffaith bod adran 93(1) o’r Mesur yn gosod dyletswydd glir ar y Comisiynydd (“rhaid ystyried”) i ystyried yn ofalus a ddylid ymchwilio i gŵyn o’r fath. Mae penderfyniad i beidio â gwneud hynny yn debygol o achosi siom a rhwystredigaeth i’r unigolyn sydd wedi mynd i’r drafferth o dynnu sylw’r Comisiynydd at achos o dorri rhwymedigaeth gyfreithiol a osodwyd ar gyngor lleol neu awdurdod arall.*

*Mae’r unigolyn hwnnw yn debygol o deimlo bod yr achos o dordyletswydd yn sarhad ar ei hawliau fel aelod o’r gymuned Gymraeg. Mae potensial i benderfyniad i beidio ag ymchwilio i gŵyn o’r fath danseilio hyder y cyhoedd yn effeithiolrwydd y Mesur fel modd o amddiffyn y cyfryw hawliau. Mae iddo hefyd ganlyniadau ymarferol pellgyrhaeddol. Nid oes dim un o bwerau gorfodi’r Comisiynydd ar gael oni bai ei bod wedi cynnal ymchwiliad statudol a phenderfynu bod methiant i gydymffurfio ag un o’r safonau wedi cael ei sefydlu.*

*26. Mae’n wir y byddai gan y Comisiynydd o hyd y gallu i geisio perswadio person i gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol y person hwnnw drwy ddulliau eraill. Yn yr achos hwn dywedodd y Comisiynydd wrth yr Ceisydd y byddai’n defnyddio’r cyfleoedd a gododd i weithredu ei “fframwaith rheoleiddio” er mwyn dwyn y mater, a’r angen i gydymffurfio â gofynion y safonau, at sylw’r cyngor. Ond ni fyddai hyn yn cynnwys dim elfen o orfodaeth. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol, drwy’r Mesur, wedi darparu i’r Comisiynydd ystod eang o bwerau sy’n cynnwys rhyw raddau o orfodaeth. Mae’n rhaid mai ei fwriad oedd y dylai’r pwerau hyn gael eu defnyddio pan fo angen. Byddai angen i benderfyniad, mewn achos penodol, i ddibynnu ar ddulliau perswadiol yn unig o sicrhau cydymffurfiaeth â’r safonau roi ystyriaeth i’r gwahaniaeth pwysig o ran pwerau sydd ar gael i’r Comisiynydd o safbwynt cwynion yr ymchwilir yn ffurfiol iddynt a’r rhai nas ymchwilir iddynt. Dylai ei gwneud yn glir ba ffactorau a oedd wedi cyfiawnhau hepgor y cyfle i ddefnyddio peiriannau gorfodi’r Mesur.*

*“32. Mae’r Tribiwnlys yn ei chael yn amhosibl dilyn rhesymeg dadl Mr [[redacted]] [redacted] bod rhywbeth yn annymunol am ymchwiliad sy’n parhau ar ôl i ffynhonnell y gŵyn gael ei dileu. Pam ddylai hynny fod yn wir? O ystyried bod llawer o gwynion am fethu â chydymffurfio â safonau yn debygol o ymwneud â digwyddiadau (e.e. methiant i ateb galwad ffôn yn Gymraeg) yn hytrach na sefyllfaoedd parhaus (megis arddangos arwydd), bydd ymchwiliadau yn aml ddim hyd yn oed yn dechrau, heb sôn am orffen, cyn i ffynhonnell y gŵyn ddod i ben.*

*Canfyddiad:*

*42. Gweithredodd y Comisiynydd felly y tu hwnt i’w phwerau o ran y ffordd y gwnaeth y penderfyniad dan sylw.”*

Mae Ms Ruth yn dyfynnu'r darnau uchod o’r dyfarniad, ond ddim yn manylu sut mae’r dyfyniadau yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw honiad(au) penodol.

### Y Polisi Gorfodi

Ynglŷn â'r Polisi Gorfodi, mae Ms Ruth yn dweud y canlynol:

> "Nid ydym yn cytuno ar eich ymgais i ail-ddehongli eich polisi gorfodi. Yn benodol, cyfeiriwn at y ddadl hon yn eich gohebiaeth:
>
> > *"Mae'r drydedd frawddeg yn nodi 'Bydd y cais am wybodaeth yn glir **ac** (pwyslais yr awdur) yn ymwneud â gwirio dilysrwydd ffeithiol y gŵyn.'* Nid yw'r datganiad y bydd y cais yn *'ymwneud â gwirio dilysrwydd ffeithiol y gŵyn'* yn cyfyngu ar yr hyn y gall y Comisiynydd ei ofyn er mwyn cyflawni'r dibenion a nodir yn y ddwy frawddeg gyntaf"".

Mae Ms Ruth yn dweud nad yw "dehongliad [y Comisiynydd] o'r frawddeg hon yn rhesymegol. Mae'r erthygl 'ac' mewn brawddeg yn golygu bod rhaid i ymddygiad y Comisiynydd glynu wrth ddau gymal y frawddeg, sef bod y cais wybodaeth yn glir ac yn ymwneud a gwirio dilysrwydd ffeithiol y gŵyn".

### Diffyg tryloywder

Ynglŷn â thryloywder, mae Ms Ruth yn gwrthod ymateb Ms Price ac yn honni ymhellach y "cyflwynwyd dull newydd o ymdrin â chwynion tu ôl i ddrysau caeedig ar 1af Ebrill 2019 heb wneud cyhoeddiad am y newid". Â Ms Ruth ymlaen i ddweud: "Yn ogystal, gwnaethpwyd y newid mewn ffordd sy'n dangos ymdrech benodol i osgoi defnyddio prosesau newid polisi sydd angen bod yn agored i'r cyhoedd yn eu cylch, yn benodol darpariaethau adran 16 y Mesur a chynsail y Comisiynydd blaenorol o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei bolisi gorfodi".

> Mae Ms Ruth yn dweud mai dim ond o ganlyniad i geisiadau rhyddid gwybodaeth, cwynion gan eu haelodau, a chwestiynu mewn cyfarfodydd fod y "newid polisi" wedi dod i'r amlwg, ac o'r herwydd, ei bod hi'n "hollol sarhaus [i'r Comisiynydd] geisio dadlau [ei fod] wedi bod yn agored am y mater".

Mae Ms Ruth yn cloi drwy ddweud y bydd cynrychiolaeth o Gymdeithas yr Iaith yn fwy na bodlon cwrdd â'r Comisiynydd a'r archwiliwr/wyr allanol er mwyn ceisio datrys y cwynion hyn er lles y Gymraeg a'i defnyddwyr.

# 6 Crynodeb o gŵyn Cymdeithas yr Iaith

Mae Cymdeithas yr Iaith yn credu ac yn honni fod y Comisiynydd presennol yn arfer ei ddisgresiwn statudol yn wahanol i'r cyn-Gomisiynydd a bod hynny yn cyflwyno arferion cyn-ymchwilio newydd, sydd yn golygu ei fod yn agor llai o ymchwiliadau. Mae Cymdeithas yr Iaith yn honni fod hyn yn:

i) Groes i Fesur y Gymraeg 2011
ii) Anrhyloyw
iii) Groes i Bolisi Gorfodi'r Comisiynydd

Mae Cymdeithas yr Iaith hefyd yn honni nad yw'r Comisiynydd yn defnyddio pwerau cosb sifil.

Yn ogystal, mae Cymdeithas yr Iaith yn honni fod Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan AC, yn dylanwadu ar weithrediadau'r Comisiynydd

# 7 Materion rhagarweiniol

### Cymdeithas yr Iaith yn cysylltu â'r wasg yn ystod yr adolygiad annibynnol

Ddydd Gwener 21 Chwefror 2020, deallaf fod Cymdeithas yr Iaith wedi cysylltu â'r *Western Mail* ynglŷn â'u cwyn. Ddydd Llun 24 Chwefror 2020, rhedodd y *Western Mail* stori ynglŷn â'r gŵyn a chafodd Ms Ruth ei chyfweld ar BBC Radio Cymru.

Roedd cwestiwn gennyf i swyddfa'r Comisiynydd yn ystod fy adolygiad - ynglŷn â chywirdeb ystadegau'r cwynion a gyflwynodd Cymdeithas yr Iaith, ar ôl eu derbyn gan swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r ddau set o ffigurau wedi eu cyflwyno yn amlwg yn yr adolygiad. Oherwydd i mi siarad ag aelod o staff y Comisiynydd yn ystod y cyfnod hwn, gofynnais i Ms Price anfon neges at Ms Ruth yn cynnig y cyfle i gyfathrebu efo mi, er nad oedd gennyf gwestiynau iddi. Derbyniodd [redacted] y gwahoddiad. Crynhoaf ei neges yn dair rhan: 1. Roedd [redacted] yn awyddus i bwysleisio difrifoldeb dealltwriaeth Cymdeithas yr Iaith o'r camweddau honedig yn erbyn y Comisiynydd. 2. Roedd yn awyddus i mi ystyried ei ddealltwriaeth bod y Comisiynydd wedi/yn defnyddio'r cwestiwn a oedd yr achwynydd wedi cwyno at y corff cyhoeddus yr honnir ei fod yn gyfrifol am dor-safon, fel un o'i ystyriaethau cyn penderfynu agor ymchwiliad ai peidio. 3. Roedd yn awyddus i gadw'r ddeialog yn agored gyda'r Comisiynydd a thrafod ymhellach, wyneb yn wyneb.

# 8 Honiadau 1 a 3 Cymdeithas yr Iaith: Bod y Comisiynydd wedi cyflwyno arferion cyn-ymchwilio newydd a bod hynny yn groes i Fesur y Gymraeg 2011 a Pholisi Gorfodi'r Comisiynydd

### Ffeithiau'r honiad

Yn ei honiad bod y Comisiynydd wedi cyflwyno arferion cyn-ymchwilio newydd a bod hynny yn groes i Fesur y Gymraeg 2011, mae Ms Ruth yn nodi nad oes cyfeiriad yn y Polisi Gorfodi at unrhyw **ffactorau**[1], megis derbyn ymddiheuriad gan D wrth ystyried



[1] Fy mhwyslais i

cynnal ymchwiliad ai peidio. Mae hi'n honni pe byddai'r Polisi i fod i ganiatáu i'r Comisiynydd ystyried **ffactorau** megis ymddiheuriad, byddai hynny wedi cael ei restru yn y Polisi Gorfodi, fel y gwneir yn adrannau eraill y ddogfen. Mae Ms Ruth yn honni, heb restr o **ffactorau** o'r fath yn y ddogfen, na fyddai modd i'r Polisi sicrhau bod y penderfyniadau yn gyson â "*sicrhau tegwch, gwrthrychedd ac amhleidioldeb wrth ymdrin â gwahanol bartïon*" (Paragraff 3.9, Polisi Gorfodi).

**Sylfeini'r Asesiad**

Man cychwyn yr asesiad yw:

1. Y gyfraith, a
2. Y ddogfen Polisi Gorfodi.

Y gyfraith berthnasol yw:

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac
- Achosion perthnasol Tribiwnlys y Gymraeg.

Oherwydd y nexus cyfreithiol sydd rhwng y Mesur a'r Polisi Gorfodi, mae'n briodol ymdrin â'r honiadau ynglŷn â'r Mesur a'r Polisi Gorfodi, gyfochr â'i gilydd.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Mae adran 71 o'r Mesur yn dweud y caiff y Comisiynydd ymchwilio i a yw person (D) wedi methu â chydymffurfio â safon, os yw'n **amau** bod D wedi methu â chydymffurfio â Safon.

Mae adran 93 o'r Mesur yn dweud fod yn rhaid i'r Comisiynydd ystyried ai i gynnal ymchwiliad o dan adran 71 ai peidio i'r cwestiwn a yw ymddygiad person (D) yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon os yw person (P) yn gwneud cwyn i'r Comisiynydd ynglŷn â'r ymddygiad, ac os yw'r gŵyn yn un ddilys fel y'i diffinnir yn yr adran.

Mae adran 93 hefyd yn nodi os yw'r diffiniad o ddilysrwydd wedi cael ei fodloni, nad oes angen i'r Comisiynydd ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio os yw rhai amodau wedi eu bodloni, gan gynnwys, er enghraifft, os yw'r Comisiynydd o'r farn bod y gŵyn yn wacsaw neu'n flinderus, neu'n un sydd eisoes wedi ei gwneud sawl gwaith (a.93(7)).

Yn ychwanegol, mae Atodlen 10 o'r Mesur yn rhagnodol ynglŷn â rheolaeth ymchwiliadau, megis bod yn rhaid i'r Comisiynydd baratoi cylch gorchwyl yr ymchwiliad a beth fydd yn rhaid i'r cylch gorchwyl hwnnw ei gynnwys (Rhan 1). Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â dyletswyddau'r Comisiynydd ac yn gwarchod sefyllfa D ac unrhyw berson arall a chanddo fuddiant - felly yn cynnwys P. Yn ei hanfod, mae'r ddarpariaeth yn anelu at gydbwysedd rhwng buddiannau D a P.

Mae adran 94 yn rhagnodi beth y dylai'r Comisiynydd ei wneud mewn achosion gan gynnwys achosion lle mae'n penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid iddo hysbysu P o'r penderfyniad ac o'r rheswm dros y penderfyniad (yn

ogystal â'r hawl i gael adolygiad o dan adran 103 o'r Mesur).

Felly, mae'r Mesur yn rhagnodol ynglŷn â dyletswyddau'r Comisiynydd yn y sefyllfaoedd canlynol: pryd y dylai ystyried cynnal ymchwiliad o dan adran 71 ai peidio, ac, unwaith ei fod wedi penderfynu cynnal ymchwiliad, am reolaeth yr ymchwiliadau (Atodlen 10), ac os yw wedi penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad, beth i'w gyfathrebu i P. Fodd bynnag, mae'r Mesur yn fud ynglŷn â sut y dylai'r Comisiynydd ddod i'r casgliad i gynnal ymchwiliad (ai peidio) yn y lle cyntaf. Dyma hanfod cyfreithiol y gŵyn.

Mae'r absenoldeb yma yn awgrymu fod y gyfraith yn rhoi disgresiwn i'r Comisiynydd, hynny yw, disgresiwn ymhlyg (yn hytrach na disgresiwn datganedig), ynglŷn â sut i ddod i'r casgliad i gynnal ymchwiliad ai peidio. Mae'r dehongliad yma yn gyson â dehongliad statudol cyffredin. Mae'r math cyffredin hwn o ddrafftio statudol, yn fy marn i, yn bwysig i Ms Ruth a'r Grŵp Hawl (ymysg eraill) ei ddeall ac yn fater, yn fy marn i, all gynorthwyo dealltwriaeth o eirio statudol cyffredinol.

## Darpariaeth y Mesur ar gyfer Polisi Gorfodi

Mae adran 108 o'r Mesur yn nodi fod yn rhaid i'r Comisiynydd lunio dogfen Polisi Gorfodi, sef dogfen sy'n "rhoi cyngor a gwybodaeth ar y ffordd y mae'r Comisiynydd yn bwriadu mynd ati i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd", ac ni chaniateir i'r Comisiynydd lunio neu ddiwygio'r ddogfen Polisi Gorfodi heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Yma, mae'n amserol nodi dau beth: fod dogfennau fel y Polisi Gorfodi yn ymgais i adlewyrchu'r gyfraith - yma, y Mesur - mewn modd mwy hygyrch i'w ddarllen. Mae'r ddogfen Polisi Gorfodi yn adlewyrchu agweddau allweddol y Mesur, ynghyd â rhoi peth manylion ymarferol ynglŷn â sut mae'r Comisiynydd yn bwriadu mynd ati i arfer ei swyddogaethau. Yn ail, mae'n werth nodi'r gwahaniaeth rhwng y gyfraith ei hun a'r ddogfen Polisi Gorfodi, hynny yw, er bod darpariaeth ar gyfer y ddogfen yn y Mesur, nid yw'r ddogfen Polisi Gorfodi ynddo'i hun yn gyfraith: yr unig beth mae'n ei wneud yw "rhoi cyngor a gwybodaeth a y ffordd y mae'r Comisiynydd yn bwriadu mynd ati i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd" (a.108(3)). Mae'r gwahaniaeth, efallai, yn wahaniaeth cynnil, ond serch hynny, mae'n wahaniaeth technegol wrth ddelio â materion cyfreithiol.

## Y Polisi Gorfodi

Gan fod honiad Cymdeithas yr Iaith yn cynnwys bod y Comisiynydd wedi cyflwyno arferion cyn-ymchwilio newydd yn groes i'r Polisi Gorfodi, mae'n werth dyfynnu'r paragraff perthnasol yma o'r Polisi Gorfodi, sef:

> "Penderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio
> 4.15 Yn y mwyafrif o achosion bydd y Comisiynydd yn cysylltu â'r person perthnasol, gan roi cyfle iddo ddarparu gwybodaeth i'r Comisiynydd mewn cysylltiad â honiad achwynydd. Gwneir hynny am resymau ymarferol ac er mwyn cael digon o wybodaeth i'r Comisiynydd allu penderfynu ymchwilio ai peidio mewn cysylltiad â'r ymddygiad honedig. Bydd y cais am wybodaeth yn glir ac yn ymwneud a gwirio dilysrwydd ffeithiol y gŵyn… Bydd y wybodaeth a dderbynnir (neu unrhyw ddiffyg i ddarparu) yn cyfrannu at y ffactorau fyddai'n cynorthwyo'r Comisiynydd i ddod i benderfyniad os dylid cynnal ymchwiliad o dan adran 71".

# 9 Deall y gyfraith – y sylfeini

Cyn deall yr ateb i honiad Ms Ruth, rhaid deall y gyfraith, sef y Mesur a'r achosion - yn cynnwys adran 71, adran 93 ac yn arbennig, adran 103 o'r Mesur.

### Adran 103/adolygiad barnwrol

Mae adran 103 yn darparu y caiff achwynydd wneud cais i'r Tribiwnlys, yn gofyn am ganiatâd i wneud cais am adolygiad o "benderfyniad y Comisiynydd" pan mae'r Comisiynydd wedi ystyried cynnal ymchwiliad, ond yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad. Mae adran 103 yn datgan fod yn rhaid i'r Tribiwnlys ymdrin â chais am adolygiad o fethiant y Comisiynydd i ymchwilio i gŵyn fel pe bai'n gais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

Mae ystyr adolygiad barnwrol wedi ei drafod yn yr achos arweiniol *Council of Civil Service Unions v Minister for the Civil Service* [1983] UKHL 6, ac yn benodol gan yr Arglwydd Diplock yn yr achos.[2] Yn ei ddyfarniad mae'r Arglwydd Diplock yn rhannu'r seiliau cyfreithiol ar gyfer adolygiad barnwrol i dri dosbarth, a'r rheiny yw:

i) anghyfreithlondeb;
ii) afresymegoldeb; ac
iii) amhriodoldeb gweithdrefnol.

Felly mae'r tri dosbarth hwn, mewn egwyddor, yn berthnasol i benderfyniadau'r Comisiynydd.

Ystyr "anghyfreithlondeb", fel sail i adolygiad barnwrol, yn ôl yr Arglwydd Diplock, yw bod yn rhaid i'r person sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniad, ddeall yn gywir y gyfraith sydd yn rheoleiddio ei benderfyniadau, a'i gweithredu. Mewn anghydfod, mater i'r barnwyr yw dyfarnu ar yr anghydfod o dan bwerau adolygiad barnwrol.

Caiff "afresymegoldeb" ei adnabod hefyd fel 'afresymoldeb/afresymolrwydd Wednesbury' (yn dilyn achos *Associated Provincial Picture Houses Ltd v Wednesbury Corporation* [1948] 1KB 223). Yn yr achos hwnnw, datganodd yr Arglwydd Green MR y dylid ystyried penderfyniad gan awdurdod cyhoeddus i fod yn 'afresymol' os oedd y penderfyniad hwnnw wedi bod mor afresymol fel na allai unrhyw awdurdod rhesymol fod wedi dod iddo. Ymhellach, i ddyfynnu'r Arglwydd Diplock yn yr un achos, ac a ddyfynnwyd gan y Tribiwnlys yn achos 16/8: "Whether a decision falls within this category is a question that judges by their training and experience should be well equipped to answer, or else there would be something badly wrong with our judicial system". Felly eto, mewn anghydfod, mater i'r barnwyr yw dyfarnu beth sydd yn 'afresymegol' neu yn 'afresymol', a hynny gan ystyried geiriau'r Arglwydd Green MR yn achos *Wednesbury*.

Felly, os yw Ceisydd yn gofyn i'r Tribiwnlys am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd o dan adran 103, y tri ffactor mae'r Tribiwnlys yn ei ystyried yw:



[2] Mae'r Tribiwnlys yn dyfynnu o'r achos yn achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*

i) a yw penderfyniad y Comisiynydd yn “anghyfreithlon”;
ii) a yw penderfyniad y Comisiynydd yn “afresymegol”; ac
iii) a oes amhriodoldeb gweithdrefnol yng ngweithdrefnau’r Comisiynydd.

**Terfynau’r Tribiwnlys mewn adolygiad barnwrol**

i ddeall swyddogaethau’r Comisiynydd yn llawn, rhaid deall egwyddor adolygiad barnwrol ac yn benodol, beth yw hyd a lled pwerau’r Tribiwnlys mewn adolygiad barnwrol. Mae’r Tribiwnlys yn achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, yn ymdrin â’r egwyddor o adolygiad barnwrol yn helaeth.

Yn adolygiad barnwrol y Tribiwnlys yn achos 16/8, gwnaeth y Tribiwnlys y sylw nad swyddogaeth y Tribiwnlys yw ystyried ymddygiad y cyngor ond yn hytrach ystyried swyddogaeth y Comisiynydd (para. 6). Hynny yw, nid swyddogaeth y Tribiwnlys yw dyfarnu os yw awdurdod lleol yn cydymffurfio ai peidio â safon berthnasol - swyddogaeth y Comisiynydd yw hynny. Yn hytrach, swyddogaeth y Tribiwnlys yw ystyried a yw’r Comisiynydd wedi dod i benderfyniad sydd yn gyfreithlon. Mae hyn yn golygu nad oes gan y Tribiwnlys awdurdod i adolygu rhinwedd penderfyniad y Comisiynydd; yn hytrach, awdurdodaeth y Tribiwnlys mewn adolygiad barnwrol yw adolygu gweithdrefn y Comisiynydd yn cyrraedd y penderfyniad hwnnw. Mae’r gwahaniaeth yn un cynnil ond yn un hollbwysig.

**Rhwymedi**

Mewn adolygiad barnwrol/cais o dan adran 103, mae dau opsiwn ar gael i’r Tribiwnlys, sef:

1. Cadarnhau dyfarniad y Comisiynydd, neu
2. Diddymu dyfarniad y Comisiynydd.

Beth sydd yn hollbwysig yw, os yw'r Tribiwnlys yn diddymu dyfarniad y Comisiynydd, rhaid i’r Tribiwnlys anfon yr achos yn ôl at y Comisiynydd gyda chyfarwyddyd ar gyfer ei ailystyried.

Y peth sydd yn hollbwysig yma yw bod hawl gan y Comisiynydd i gyrraedd yr un penderfyniad â’r penderfyniad gwreiddiol, ond y tro hwn, o fewn y canllawiau cyfreithiol cywir gan y Tribiwnlys ynglŷn â’i weithdrefn o wneud y penderfyniad.

**Sylfaen athrawiaeth adolygiadau barnwrol**

Sylfaen athrawiaeth adolygiadau barnwrol yw gwahaniad pwerau, a goruchafiaeth seneddol, yn benodol na fydd y farnwriaeth yn ymyrryd â rhinwedd materion deddfwriaethol na rhinwedd penderfyniadau cyrff cyhoeddus.

**Gweithdrefnau'r Tribiwnlys mewn adolygiadau barnwrol**

Unwaith mae'r egwyddor o adolygiad barnwrol wedi ei deall, y cam nesaf yw deall gweithrediadau'r Tribiwnlys ynghylch ceisiadau am adolygiadau barnwrol.

## Ceisiadau o dan adran 103 (cais am ganiatâd i wneud cais i'r Tribiwnlys i "adolygu penderfyniad y Comisiynydd")

Y pwynt cyntaf yw nad oes gan Geisydd hawl awtomatig o dan adran 103 i gael adolygiad gan y Tribiwnlys i adolygu "penderfyniadau'r Comisiynydd". Rhaid i'r Ceisydd yn gyntaf wneud cais i'r Tribiwnlys am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol.

Pan mae'r Tribiwnlys o'r farn:

(a) bod disgwyliad rhesymol y byddai'r cais yn llwyddo, neu

(b) bod rhyw reswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed,

rhaid i'r Tribiwnlys roi caniatâd i wneud cais a chael gwrandawiad (adran 103(4)).

Fel arall, ni fydd hawl gan y Ceisydd i gael caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol.

Nid oes awdurdodaeth gan y Tribiwnlys i adolygu rhinwedd penderfyniad y Comisiynydd; yn hytrach, awdurdodaeth i adolygu gweithdrefn y Comisiynydd yn cyrraedd y penderfyniad hwnnw sydd gan y Tribiwnlys.

**Hawl y Ceisydd i hawlio ailystyriaeth o benderfyniad y Tribiwnlys (Rheol 16(8))**

Os yw cais y Ceisydd am ganiatâd yn methu, ac nad yw'n cael caniatâd i gael gwrandawiad, yna mae gan y Ceisydd hawl i hawlio ailystyriaeth o benderfyniad y Tribiwnlys (i beidio â rhoi caniatâd i wneud y cais) o dan Reol 16(8) o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015.

Y rheswm pam mae'r gyfraith yn caniatáu hyn yw er mwyn gwneud y Tribiwnlys yn atebol. Mae hyn yn nodwedd o gyfundrefn gyfreithiol gwledydd democrataidd aeddfed, megis Cymru a Lloegr. Ond fel y dyfynnodd y Tribiwnlys yn achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* eiriau'r Arglwydd Diplock yn achos *Associated Provincial Picture Houses Ltd v Wednesbury Corporation:*

> "Whether a decision falls within this category [afresymoldeb fel y'i diffiniwyd yn achos Wednesbury] is a question that judges by their training and experience should be well equipped to answer, or else there would be something badly wrong with our judicial system".

Yn gyffredinol, os oes angen arfer yr hawl hwn, ys dywed yr Arglwydd Diplock a'r Tribiwnlys yn achos 16/8, 'bydd rhywbeth o'i le gydag ein gweithdrefn cyfiawnder'.

**Cais am adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys**

Pan mae ailystyriaeth o benderfyniad y Tribiwnlys (o dan Reol 16(8) o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015) yn cael ei gwrthod, mae gan y Ceisydd hawl i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw (o dan Reol 48 o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015) ar y seiliau canlynol:

(a) bod y penderfyniad wedi ei wneud yn anghywir oherwydd gwall pwysig ar ran gweinyddiaeth y Tribiwnlys,

(b) bod gan barti a oedd â hawl i gael ei glywed yn y gwrandawiad, ond a fethodd ag

ymddangos neu gael ei gynrychioli, reswm da a digonol dros beidio ag ymddangos, neu

(c) bod gwall amlwg a phwysig yn y penderfyniad.

Mae sawl cais o dan adran 103 wedi dod gerbron y Tribiwnlys, lle mae'r achwynydd wedi gofyn am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad. Y pennaf o'r achosion hyn yw achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg,* ble mae'r Tribiwnlys yn delio yn helaeth â'r mater o "**ffactorau**" yng nghyd-destun y Comisiynydd yn ystyried penderfynu agor ymchwiliad ai peidio. Oherwydd arwyddocâd yr achos hwn i gŵyn Cymdeithas yr Iaith, byddaf yn dyfynnu yn helaeth isod o ddyfarniad y Tribiwnlys yn yr achos hwnnw.

# 10 Achos TyG/WLT/16/8: [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg

Yn yr achos hwn, daeth y Ceisydd ([redacted]) â chais yn erbyn y Comisiynydd o dan adran 103 o'r Mesur yn gofyn i'r Tribiwnlys adolygu penderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn [redacted] am fethiant awdurdod lleol i gydymffurfio ag un o Safonau'r Iaith Gymraeg.

Yn debyg i gŵyn Cymdeithas yr Iaith, roedd [redacted] yn honni fod y Comisiynydd, yn y modd roedd hi'n arfer ei disgresiwn, yn ymddwyn yn groes i lythyren ac ysbryd y Mesur.

Roedd y gŵyn yn ymwneud ag arwyddion dros dro - neu arwyddion "tymhorol" fel y'u disgrifiwyd gan y Comisiynydd. Penderfynodd y Comisiynydd beidio â chynnal ymchwiliad i'r gŵyn oherwydd natur dymhorol yr arwyddion ac oherwydd eu "natur dymhorol", y byddai cynnal ymchwiliad yn anghymesur â'r methiant.

**Rhesymau'r Tribiwnlys wrth gyrraedd ei gasgliadau yn ei adolygiad**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, gwnaeth y Tribiwnlys sylw ar benderfyniad Tŷ'r Arglwyddi yn achos *Padfield v Minister of Agriculture* [1968] UKHL 1, fel achos sy'n gosod yr egwyddorion perthnasol mewn achos o'r fath. Fel y mae'r Tribiwnlys yn achos

16/8 yn nodi, mae'r Arglwydd Reid yn *Padfield* yn datgan:

> "Parliament must have conferred the discretion with the intention that it should be used to promote the policy and objects of the Act… In a matter of this kind it is not possible to draw a hard and fast line, but if the Minister, by reason of his having misconstrued the Act or for any other reason, so uses his discretion as to thwart or run counter to the policy and object of the Act, then our law would be very defective if persons aggrieved were not entitled to the protection of the court."

Mae'r Tribiwnlys yn achos 16/8 hefyd yn dyfynnu'r Arglwydd Upjohn yn achos *Padfield*:

> "Unlawful behaviour by the Minister may be stated with sufficient accuracy…
> (a) by an outright refusal to consider the relevant matter, or
> (b) by misdirecting himself in point of law, or
> (c) by taking into account some wholly irrelevant or extraneous considerations, or
> (d) by wholly omitting to take into account a relevant consideration.
>
> In practice (these propositions) merge into one another and ultimately it becomes a question whether for one reason or another the Minister has acted unlawfully in the sense of misdirecting himself in law, that is, not merely in respect of some point of law but by failing to observe the other headings I have mentioned".

Felly, mae'n dilyn bod y Tribiwnlys yn ymdrin â'r her i benderfyniad y Comisiynydd o dan ei disgresiwn, ar y sail bod yn rhaid i'r disgresiwn hwnnw gael ei arfer mewn ffordd sy'n gydnaws â pholisi ac amcanion y Mesur yn gyffredinol. Ymhellach - ac mae budd o ddyfynnu gair am air yma - dywedodd y Tribiwnlys yn achos 16/8 (para. 14):

> "iv) Wrth benderfynu sut i arfer ei disgresiwn rhaid i'r Comisiynydd roi ystyriaeth i faterion perthnasol a pheidio â rhoi ystyriaeth i rai amherthnasol; bernir yr hyn sy'n berthnasol a'r hyn sy'n amherthnasol drwy gyfeirio at bolisïau ac amcanion y Mesur;
>
> v) Er mai mater i'r Comisiynydd yw pwyso a mesur yr ystyriaethau perthnasol er mwyn penderfynu a yw'r cydbwysedd yn ffafrio ymchwiliad ai peidio, rhaid iddi weithredu'n rhesymegol wrth wneud hynny".
>
> vi) Rhaid iddi hefyd weithredu â thegwch gweithdrefnol tuag at y sawl y mae'n rhoi ystyriaeth i'w gŵyn".

Mae'n bwysig deall rhai o ddatganiadau'r Tribiwnlys yn achos 16/8 yn eu cyd-destun gwrthrychol cywir, ac nid mewn cyd-destun o ddewis a dethol elfennau o ddatganiadau er mwyn hybu un ochr neu'r llall o'r ddadl. Un o ddyfyniadau'r Tribiwnlys yn achos 16/8 mae Ms Ruth yn ei nodi yw'r canlynol:

> "25. Mae penderfyniad i beidio ag ymchwilio i gŵyn sydd yn weithdrefnol ddilys ac sy'n ymddangos yn deg, o leiaf ar yr olwg gyntaf, yn un pwysig, rhywbeth sy'n cael ei danlinellu gan y ffaith bod adran 93(1) o'r Mesur yn gosod dyletswydd glir ar y Comisiynydd ("rhaid ystyried") i ystyried yn ofalus a ddylid ymchwilio i gŵyn o'r fath. Mae penderfyniad i beidio â gwneud hynny yn debygol o achosi siom a rhwystredigaeth i'r unigolyn sydd wedi mynd i'r drafferth o dynnu sylw'r

Comisiynydd at achos o dorri rhwymedigaeth gyfreithiol a osodwyd ar gyngor lleol neu awdurdod arall. Mae'r unigolyn hwnnw yn debygol o deimlo bod yr achos o dor-ddyletswydd yn sarhad ar ei hawliau fel aelod o'r gymuned Gymraeg. Mae potensial i benderfyniad i beidio ag ymchwilio i gŵyn o'r fath danseilio hyder y cyhoedd yn effeithiolrwydd y Mesur fel modd o amddiffyn y cyfryw hawliau. Mae iddo hefyd ganlyniadau ymarferol pellgyrhaeddol. Nid oes dim un o bwerau gorfodi'r Comisiynydd ar gael oni bai ei bod wedi cynnal ymchwiliad statudol a phenderfynu bod methiant i gydymffurfio ag un o'r safonau wedi cael ei sefydlu.

> 26. Mae'n wir y byddai gan y Comisiynydd o hyd y gallu i geisio perswadio person i gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol y person hwnnw drwy ddulliau eraill. Yn yr achos hwn dywedodd y Comisiynydd wrth yr Ceisydd y byddai'n defnyddio'r cyfleoedd a gododd i weithredu ei "fframwaith rheoleiddio" er mwyn dwyn y mater, a'r angen i gydymffurfio â gofynion y safonau, at sylw'r cyngor. Ond ni fyddai hyn yn cynnwys dim elfen o orfodaeth. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, drwy'r Mesur, wedi darparu i'r Comisiynydd ystod eang o bwerau sy'n cynnwys rhyw raddau o orfodaeth. Mae'n rhaid mai ei fwriad oedd y dylai'r pwerau hyn gael eu defnyddio pan fo angen. Byddai angen i benderfyniad, mewn achos penodol, i ddibynnu ar ddulliau perswadiol yn unig o sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau roi ystyriaeth i'r gwahaniaeth pwysig o ran pwerau sydd ar gael i'r Comisiynydd o safbwynt cwynion yr ymchwilir yn ffurfiol iddynt a'r rhai nas ymchwilir iddynt. Dylai ei gwneud yn glir ba ffactorau a oedd wedi cyfiawnhau hepgor y cyfle i ddefnyddio peiriannau gorfodi'r Mesur".

Mae Ms Ruth wedyn yn symud yn syth at ganfyddiad y Tribiwnlys ym mharagraff 42 ac yn nodi i'r Tribiwnlys ddweud: "*Gweithredodd y Comisiynydd felly y tu hwnt i'w phwerau o ran y ffordd y gwnaeth y penderfyniad dan sylw."* Mae Ms Ruth yn gywir yn ei dyfyniadau o baragraffau 25, 26 a 42 o'r dyfarniad. Fodd bynnag, beth sydd wedi cael eu hepgor ganddi yw paragraffau 27, 28 a rhan o 29, sydd yn berthnasol i'r gŵyn, ac yn berthnasol, ymysg paragraffau eraill, i egluro'n gynhwysfawr sut y cyrhaeddodd y Tribiwnlys ei ganfyddiad. O dan amgylchiadau'r honiadau, rwyf o'r farn fod budd i'w gael yma o ddyfynnu'r Tribiwnlys air am air:

> "27**. Nid yw'r Mesur ei hun yn rhoi unrhyw arweiniad ynglŷn â pha ffactorau y byddai disgwyl i'r Comisiynydd eu hystyried wrth benderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio. Ni fyddai'n iawn i'r Tribiwnlys honni darparu rhestr gynhwysfawr. Mae'r amgylchiadau'n amrywio o achos i achos. Yn gyffredinol, mater i'r Comisiynydd yw penderfynu pa ffactorau sy'n berthnasol mewn achosion penodol (cyn belled nad yw'n anwybyddu rhai sy'n amlwg yn berthnasol) a phenderfynu faint o bwysau i'w roi ar y ffactorau hynny. Ar ôl gwneud hynny byddai wedyn yn rhydd i wneud asesiad o le saif y cydbwysedd rhwng y rhai sy'n cefnogi cynnal ymchwiliad a'r rhai nad ydynt. Mae gan y Comisiynydd hawl i fynegi ei chasgliadau, fel y gwnaeth yn yr achos hwn, o ran "anghymesuredd". Ond ni all ddod i gasgliad cyfreithlon y byddai'n anghymesur cynnal ymchwiliad oni bai ei bod wedi ystyried y materion perthnasol (ac anwybyddu'r rhai amherthnasol) a dod i'w chasgliad yn rhesymegol** [fy mhwyslais i, i amlygu rhan o'r dyfarniad sydd yn berthnasol i'r gŵyn dan sylw].
>
> 28. Yn yr achos hwn, yr unig ffactor y seiliwyd y penderfyniad arno oedd natur

dymhorol yr arwyddion o dan sylw.

29. Er na fyddai'r Tribiwnlys yn mynd mor bell ag awgrymu na allai natur dros dro arwydd byth fod yn berthnasol i benderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad…"

34. Mae'r Tribiwnlys felly yn canfod bod y Comisiynydd, wrth arfer ei disgresiwn i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn y Ceisydd, yn gwneud hynny mewn ffordd a fethodd, yn y ffyrdd canlynol, â chydymffurfio â'r terfynau ymhlyg a roddwyd ar ei phwerau gan bolisi ac amcanion y Mesur:

- Seiliodd ei phenderfyniad ar un ystyriaeth, sef natur dymhorol yr arwyddion, gan ddiystyru'r holl ffactorau perthnasol eraill. **Er mai mater i'r Comisiynydd oedd [barnu] pa rai yw'r ffactorau hynny, mae materion megis difrifoldeb cymharol y methiant honedig, ansawdd y dystiolaeth o fethiant ac unrhyw hanes blaenorol o ddiffyg cydymffurfio â safonau yn ymddangos bron yn sicr o fod yn berthnasol**. Mae Polisi Gorfodaeth y Comisiynydd, er nad yw'n darparu rhestr lawn o'r cyfryw ffactorau, yn nodi rhai y gallent fod yn berthnasol ym mharagraff 4.16, ac eto mae'n ymddangos na chafodd yr un ohonynt ystyriaeth briodol;

- Fe wnaeth drin yr unig ystyriaeth yr oedd ei phenderfyniad yn seiliedig arni, sef natur dros dro neu dymhorol yr arwyddion, fel ystyriaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad hwnnw pan oedd y ffactor hwnnw (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol nad oeddentyn codi yn yr achos hwn) yn amherthnasol i'r penderfyniad dan sylw…

35. [paragraff ynglŷn ag amhriodoldeb gweithdrefnol]. Mae'r Ceisydd… yn dadlau body ffordd yr ymdriniwyd â'i gŵyn yn annheg, cymaint fel ei fod yn cyfateb i amhriodoldeb gweithdrefnol. Gwnaeth ei gŵyn wreiddiol ar 15 Tachwedd 2016, gan grybwyll y ffaith bod ganddo luniau o'r arwyddion y gallai eu rhannu gyda'r Comisiynydd. Ni wnaeth staff y Comisiynydd, bryd hynny, ofyn i'r Ceisydd anfon y lluniau dan sylw atynt. Ni chynigwyd dim eglurhad ynglŷn â pham na wnaethant hynny. **Os, fel y cred y Tribiwnlys, fod asesiad o ddifrifoldeb y methiant honedig yn <u>rhan</u>** hanfodol **o ystyriaeth y Comisiynydd ynglŷn ag a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio,** byddai'r ffotograffau wedi bod yn berthnasol iawn i'r ystyriaeth honno. **Mater i'r Comisiynydd, wrth gwrs, fyddai penderfynu faint o bwysau i'w roi arnynt**. Ond mae'r penderfyniad i beidio â gofyn am eu gweld yn pwysleisio i ba raddau yr oedd y Comisiynydd yn credu mai natur dymhorol neu dros dro'r arwyddion oedd **yr <u>unig ffactor</u> o bwys wrth wneud y penderfyniad i beidio ag ymchwilio i'r gŵyn"** [fy mhwyslais fy hun].

Felly mae cyrraedd y canfyddiad ym mhara 42 drwy ddyfynnu paragraffau 25 a 26 yn unig o'r dyfarniad, a hepgor rhai o'r paragraffau dilynol (27, rhan o 28, rhan o 29, 34 a 35), fel nad yw paragraffau 25 a 26 yn cael eu hystyried yn eu cyd-destun cywir, yn anghyflawn ac yn gamarweiniol.

**Penderfyniad y Tribiwnlys**

Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad (para. 41) bod penderfyniad y Comisiynydd i beidio â

chynnal ymchwiliad i gŵyn y Ceisydd (adran 71 o'r Mesur), yn:

i) anghyfreithlon oherwydd iddi fethu â rhoi ystyriaeth i ystyriaethau perthnasol a dibynnu ar ystyriaeth amherthnasol;

ii) afresymegol oherwydd iddi ddefnyddio natur dymhorol yr arwyddion dan sylw a hynny fel yr unig gyfiawnhad dros y penderfyniad i beidio ag ymchwilio i'r gŵyn; ac yn

iii) weithdrefnol amhriodol oherwydd ei bod hi wedi methu â bodloni disgwyliad dilys y Ceisydd **y byddai'r ffotograffau y gofynnwyd iddo eu darparu yn cael eu hystyried yn briodol wrth wneud y penderfyniad.** Amlygaf reswm y Tribiwnlys dros gyrraedd y trydydd casgliad. Fel arall, mae hepgor dweud pam y bu i'r Comisiynydd fethu â bodloni disgwyliadau dilys y Ceisydd yn anghyflawn ac yn gallu bod yn gamarweiniol heb ddarllen a deall y dyfarniad yn ei chyfanrwydd.

Ymhellach, i wneud disgresiwn y Comisiynydd yn fwy eglur, ychwanegodd y Tribiwnlys yn ei ddyfarniad (para. 45): "i osgoi amheuaeth, mae'r Tribiwnlys yn datgan yn glir y bydd gan y Comisiynydd, wrth ailystyried ei phenderfyniad, yr hawl, ac o dan ddyletswydd, i roi ystyriaeth i'r holl faterion perthnasol fel y maent ar yr adeg y gwna hynny. Caiff roi ystyriaeth i ddigwyddiadau ers y penderfyniad gwreiddiol ac ni chaiff ei chyfyngu i ystyried materion fel yr oeddent [ar 1 Rhagfyr 2016]. Fel oedd y Tribiwnlys yn awyddus iawn i'w bwysleisio wrth y partïon [yn ystod y dyfarniad] mae ei benderfyniad [sef penderfyniad y Tribiwnlys] wedi'i gyfyngu i gyfreithlondeb penderfyniad y Comisiynydd <u>ac nid i'w rinweddau</u>. Nid oes gan y Tribiwnlys ddim pŵer i bennu canlyniad proses newydd o wneud penderfyniad a fydd yn seiliedig ar egwyddorion priodol".

## Crynodeb o egwyddorion a chanllaw dyfarniad 16/8

Y peth cyntaf i'w nodi yw datganiadau allweddol y dyfarniad yng nghyd-destun yr ystyriaeth rhaid i'r Comisiynydd ei gwneud i gynnal ymchwiliad ai peidio o dan adran 93 a hynny yw:

> [Para. 27]
> "Nid yw'r Mesur ei hun yn rhoi unrhyw arweiniad ynglŷn â pha ffactorau y byddai disgwyl i'r Comisiynydd eu hystyried wrth benderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio. Ni fyddai'n iawn i'r Tribiwnlys honni darparu rhestr gynhwysfawr. <u>**Mae'r amgylchiadau'n amrywio o achos i achos.**</u> Yn gyffredinol, mater i'r Comisiynydd yw penderfynu pa ffactorau sy'n berthnasol <u>**mewn achosion penodol**</u> (cyn belled nad yw'n anwybyddu rhai sy'n amlwg yn berthnasol) <u>**a phenderfynu faint o bwysau i'w roi ar y ffactorau hynny**</u>. Ar ôl gwneud hynny byddai wedyn yn rhydd i wneud <u>**asesiad o le saif y cydbwysedd rhwng y rhai sy'n cefnogi cynnal ymchwiliad a'r rhai nad ydynt**</u>. <u>**Mae gan y Comisiynydd hawl i fynegi ei chasgliadau, fel y gwnaeth yn yr achos hwn, o ran "anghymesuredd".**</u> <u>**Ond ni all ddod i gasgliad cyfreithlon y byddai'n anghymesur cynnal ymchwiliad oni bai ei bod wedi ystyried y materion perthnasol**</u> (ac anwybyddu'r rhai amherthnasol) a dod i'w chasgliad yn rhesymegol.

A:

[Para. 34]
"[Er mai] mater i'r Comisiynydd oedd [barnu] pa rai yw'r ffactorau [perthnasol] hynny, **mae materion megis difrifoldeb cymharol y methiant honedig, ansawdd y dystiolaeth o fethiant ac unrhyw hanes blaenorol o ddiffyg cydymffurfio â safonau yn ymddangos bron yn sicr o fod yn berthnasol**. **Mae Polisi Gorfodaeth y Comisiynydd, er nad yw'n darparu rhestr lawn o'r cyfryw ffactorau, yn nodi rhai y gallent fod yn berthnasol ym mharagraff 4.16"**.

Hefyd:

[Para. 35]
"Os**, fel y cred y Tribiwnlys, fod asesiad o ddifrifoldeb y methiant honedig** yn rhan hanfodol o ystyriaeth y Comisiynydd ynglŷn ag a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio, [byddai'r ffotograffau wedi bod yn berthnasol iawn i'r ystyriaeth honno]. **Mater i'r Comisiynydd, wrth gwrs, fyddai penderfynu faint o bwysau i'w roi arnynt"**.

Felly'r egwyddorion a'r canllaw sydd yn deillio o'r dyfarniad yw hyn:

1. Nid lle'r Tribiwnlys yw darparu rhestr o ffactorau i'r Comisiynydd eu hystyried wrth benderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio;
2. Ni fyddai'n iawn i'r Tribiwnlys ddarparu rhestr gynhwysfawr o ffactorau i'r Comisiynydd eu hystyried - mae'r amgylchiadau'n amrywio o achos i achos.
3. Yn gyffredinol, mater i'r Comisiynydd yw penderfynu pa ffactorau sy'n berthnasol mewn achosion penodol (h.y. nid y Tribiwnlys). (Rwyf yn dehongli 'penodol' i olygu y bydd gwahanol ffactorau yn berthnasol mewn gwahanol achosion. Rwyf yn dehongli hyn yn y modd yma oherwydd geiriad y frawddeg a'r frawddeg ddilynol (gweler isod)).
4. Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu faint o bwysau i'w rhoi ar y ffactorau hynny mae'n penderfynu sy'n berthnasol mewn achosion penodol.
5. Ar ôl i'r Comisiynydd benderfynu pa ffactorau sy'n berthnasol mewn achosion penodol, a faint o bwysau i'w rhoi ar y ffactorau hynny, byddai wedyn yn rhydd i wneud asesiad o ble saif y cydbwysedd rhwng y rhai sy'n cefnogi cynnal ymchwiliad a'r rhai nad ydynt.
6. Mae gan y Comisiynydd hawl i fynegi ei gasgliadau o ran "anghymesuredd" - ond ni all ddod i gasgliad cyfreithlon y byddai'n anghymesur cynnal ymchwiliad oni bai ei fod yn ystyried y materion perthnasol (ac anwybyddu'r rhai amherthnasol) a dod i'w gasgliad yn rhesymegol.

Er bod y Tribiwnlys yn glir nad eu lle nhw yw ymyrryd ym mhenderfyniadau'r Comisiynydd ynglŷn â pha ffactorau sydd yn berthnasol i'w hystyried wrth benderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio, mae'r Tribiwnlys yn dweud fod materion megis y canlynol, "bron yn sicr o fod yn berthnasol" (para. 34) a'r rheiny yw:

i) difrifoldeb cymharol y methiant honedig
ii) ansawdd y dystiolaeth o fethiant ac
iii) unrhyw hanes blaenorol o ddiffyg cydymffurfio â safonau

O ddarllen egwyddorion a chanllawiau'r Tribiwnlys yn yr achos hwn, mae'n ymddangos fod y Tribiwnlys yn ymhlyg awgrymu nad yw'n bosib i'r Comisiynydd lunio rhestr o ffactorau i'w hystyried ym mhob achos wrth wneud penderfyniad i agor ymchwiliad ai peidio, oherwydd bydd yr ystyriaethau hynny yn amrywio o achos i achos.

I lawn ddeall disgresiwn/pwerau'r Comisiynydd, mae'n hollbwysig deall dyfarniad achos 16/8.

# 11 Datblygiad o 'ystyriaethau' y Comisiynydd gan y Tribiwnlys

Yn dilyn achos 16/8, cafodd y Tribiwnlys gyfleoedd eraill i drafod rhai mathau o ystyriaethau a all fod yn berthnasol i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio. Mae'r adran hon yn eu trafod fel maen nhw'n berthnasol i gŵyn Cymdeithas yr Iaith.

**Achos 17/2 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg**

Yn achos 17/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* gwnaeth y Ceisydd gais i'r Tribiwnlys yn gofyn am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i'w gŵyn. Roedd y Ceisydd wedi cwyno i'r Comisiynydd am fod ei gyngor lleol wedi methu, mewn sawl cyswllt, i gydymffurfio â'i rwymedigaethau i gydymffurfio â'r safonau. Yr unig gŵyn sy'n berthnasol i'r cais hwn oedd bod y dudalen Facebook sy'n cael ei chynnal gan y cyngor at bwrpas darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am (ymhlith pethau eraill) ddigwyddiadau i ddod yn yr ardal yn cyhoeddi gwybodaeth ddwyieithog gyda'r fersiwn Saesneg uwchben y fersiwn Cymraeg. Cwynodd y Ceisydd fod hyn yn trin yr iaith Gymraeg "yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg", ac felly yn groes i safon 58 (sydd yn benodol berthnasol i ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol). Penderfynodd y Comisiynydd beidio ag agor ymchwiliad ar y sail nad oedd Panel Ymchwilio a Gorfodi'r Comisiynydd o'r farn bod y safonau perthnasol yn "gosod dyletswydd ar gyrff i osod testun Cymraeg cyn testun Saesneg ar gyfryngau cymdeithasol". Ym marn y Panel (a'r Comisiynydd), nid oedd y gŵyn yn datgelu unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r safon berthnasol. Seiliodd y Panel (gan gynnwys y Comisiynydd) y penderfyniad ar y ffaith nad yw'r safon berthnasol yn datgan yn benodol ei bod yn ofynnol i'r ieithoedd ymddangos mewn trefn benodol (fel mae safon 62 mewn perthynas ag arwyddion a safonau eraill).

Yn ei llythyr at yr achwynydd/Ceisydd, cyfeiriodd y Comisiynydd hefyd at y ffaith bod y cyngor, erbyn hynny, wedi newid ei arfer mewn perthynas â'r dudalen Facebook gan osod y Gymraeg uwchben y Saesneg. Ond ni wnaeth y llythyr gyflwyno'r ffaith hon fel rheswm dros benderfyniad y Comisiynydd.

Gwnaeth y Ceisydd gais i'r Tribiwnlys yn gofyn i'r Tribiwnlys am ganiatâd i wneud cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd. Roedd y cais hwnnw yn llwyddiannus a chafodd y Ceisydd ganiatâd y Tribiwnlys i gael adolygiad barnwrol (adran 103).

**Rhesymau'r Tribiwnlys wrth gyrraedd ei gasgliadau yn ei adolygiad**

Yn dilyn datganiadau eglur y Tribiwnlys yn achos 16/8, rhoddodd y Tribiwnlys y datganiad cryf canlynol yn achos 17/2 wrth gyrraedd ei benderfyniad (para. 14):

> "Mae'r Mesur yn rhoi i'r Comisiynydd nifer o ddisgresiynau eang mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Mae hi'n gallu, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon benodol o dan rai amgylchiadau ond nid o dan amgylchiadau eraill, neu mewn rhai meysydd ond nid eraill. Mae hi'n gallu penderfynu o ba ddyddiad mae'n ofynnol i berson gydymffurfio â safon benodol. Mae hi'n gallu penderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad i gŵyn benodol ai peidio. Ar yr amod ei bod yn ymarfer y disgresiynau hyn yn gyfreithlon, oddi mewn i'r terfynau sydd wedi'u pennu gan y Mesur, ni ellir gwrthdroi ei phenderfyniadau dim ond oherwydd y byddai rhywun arall wedi eu harfer yn wahanol. Felly wrth weithredu'r drefn safonau, mae gan y Comisiynydd lefel uchel o ryddid i ddefnyddio'r wybodaeth a'r arbenigedd sy'n gysylltiedig â'i swydd. Ond wrth ddehongli'r safonau nid oes lle i'r Comisiynydd ymarfer disgresiwn".

**Penderfyniad y Tribiwnlys**

Yn yr adolygiad, daeth y Tribiwnlys i'r casgliad nad yw ystyr naturiol y geiriau "ni ddylid trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg" yn eithrio lleoliad y ddwy iaith yn gymharol â'i gilydd rhag cael ei ystyried (para. 35). Ac yn groes i'w dehongliad o safon 58, roedd gan y Comisiynydd hawl i ystyried lleoliad cymharol y ddwy iaith yn y negeseuon a oedd yn ymddangos ar y dudalen Facebook (para. 41). Cyhoeddodd y Tribiwnlys ei benderfyniad i ddiddymu gwrthodiad y Comisiynydd i gynnal ymchwiliad i gŵyn y Ceisydd a'i gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ailystyried y mater, yn unol â chanllaw'r Tribiwnlys ar y dehongliad cywir o safon 58.

**Ailystyriaeth o'r gŵyn gan y Comisiynydd**

Wedi ailystyried y mater, y tro hwn yn unol â chanllaw'r Tribiwnlys ar y dehongliad cywir o safon 58, daeth y Comisiynydd i'r un penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn yr achwynydd/Ceisydd.

**Achos 18/3 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg**

Yn dilyn penderfyniad ailystyriaeth y Comisiynydd, gwnaeth yr achwynydd/Ceisydd gais arall i'r Tribiwnlys yn achos 18/3 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, yn gofyn am ganiatâd i wneud cais i gael adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.

Rhesymau'r Tribiwnlys wrth gyrraedd ei gasgliadau (o dan Reol 16(8))

Yn yr achos hwnnw, dyma ddywedodd y Tribiwnlys (para. 21) wrth gyrraedd ei benderfyniad:

> "Diben y system safonau yw newid ymddygiad awdurdodau cyhoeddus ac, os yw'n digwydd, fel mae'r Comisiynydd yn nodi, bod newid o'r fath wedi bod, gellir deall

rhesymeg ei chasgliad, yn seiliedig ar y ffaith honno ac ar yr amser a oedd wedi mynd heibio, y byddai ymchwiliad, hyd yn oed pe byddai wedi arwain at ganfyddiad o fethiant i gydymffurfio, yn ddefnydd adnoddau a fyddai'n anghymesur i unrhyw fudd a fyddai'n deilio i ddefnyddwyr y Gymraeg. Roedd hyn, felly, yn sail resymegol, ar wahân, dros benderfyniad i beidio ag ymchwilio, ac un na fyddai gan y Tribiwnlys unrhyw sail ar gyfer ymyrryd ag ef".

**Goblygiadau adolygiad y Tribiwnlys**

Felly, yn dilyn achos 18/3, mae'n amlwg ei bod hi'n rhesymol i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth y ffaith bod y sefydliad y cwynwyd amdano wedi newid yr arfer oedd yn destun y gŵyn.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn dilyn y byddai'n amhriodol cynnal ymchwiliad bob tro mae'r sefydliad y cwynwyd amdano wedi newid yr arfer oedd yn destun y gŵyn. Yn hytrach, mae'n un o'r ffactorau perthnasol y mae'n briodol i'r Comisiynydd eu hystyried[3].

Yn hyn o beth, mae'r dyfarniad hon yn adleisio'r dyfarniad yn achos 16/8 (para. 45) lle dywedodd y Tribiwnlys: "i osgoi amheuaeth, mae'r Tribiwnlys yn datgan yn glir y bydd gan y Comisiynydd… yr hawl, ac o dan ddyletswydd, i roi ystyriaeth i'r holl faterion perthnasol fel y maent ar yr adeg y gwna [ei phenderfyniad]… ni chaiff ei chyfyngu i ystyried materion fel yr oeddent [pan wnaed y gŵyn].

**Achos 19/4 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg**

Yn achos 19/4, roedd y Ceisydd wedi gwneud cais i'r Tribiwnlys am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gwynion gan y Ceisydd. Cafodd y cais ei wrthod gan y Tribiwnlys. Yna gwnaeth y Ceisydd gais am ailystyriaeth o benderfyniad y Tribiwnlys (o dan Reol 16(8) o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015).

**Sail cais y Ceisydd am ailystyriaeth (Rheol 16(8))**

Yn ei gais am ailystyriaeth, cyflwynodd y Ceisydd y ddadl (para. 7 c)) (ymysg eraill) bod y Comisiynydd wedi peidio â chynnal ymchwiliad i'w gŵyn ar sail gwybodaeth a gasglodd y Comisiynydd "yn anffurfiol" cyn ymchwiliad, a bod hynny yn afresymegol ac afresymol ac yn fethiant gan y Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaeth o dan y Mesur.

**Rheswm a phenderfyniad y Tribiwnlys**

O ystyried y seiliau sydd ar gael i'r Tribiwnlys wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i'r Ceisydd herio penderfyniad y Comisiynydd (adran 103(4)), sef,

(a) bod disgwyliad rhesymol y byddai'r cais yn llwyddo, neu
(b) bod rhyw reswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed,

gwrthododd y Tribiwnlys y cais.



[3] Mae Ms Price yn dweud hyn yn ei hateb i'r gŵyn o dan Gam 1

Y rheswm a roddodd y Tribiwnlys dros wrthod y cais oedd na wnaeth y Comisiynydd ystyried unrhyw ffactorau gwallus fel rhan o'r penderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad (ymysg rhesymau eraill).

**Goblygiadau'r achos**

Mae penderfyniad y Tribiwnlys yn achos 19/4 yn ymhlyg dderbyn bod modd i'r Comisiynydd ystyried tystiolaeth a gasglwyd ganddo cyn yr ymchwiliad, wrth gyrraedd ei benderfyniad i agor ymchwiliad ai peidio (cyhyd â'i fod yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol ac yn anwybyddu ffactorau amherthnasol, achos 16/8, para. 27).[4]

I ychwanegu'r egwyddor hon o achos 19/4 at eiriau'r Tribiwnlys yn achos 16/8, mae'n ymddangos:

- bod gan y Comisiynydd yr hawl/disgresiwn i ystyried tystiolaeth a gasglwyd ganddo cyn yr ymchwiliad wrth gyrraedd ei benderfyniad i agor ymchwiliad ai peidio, cyhyd â'i fod yn ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol ac yn anwybyddu ffactorau amherthnasol (achos 19/4); a
- Bod gan y Comisiynydd yr hawl/disgresiwn, ar ôl ystyried y ffactorau perthnasol (a all, yn dilyn achos 19/4, gynnwys tystiolaeth a gasglwyd ganddo cyn penderfynu unai i agor ymchwiliad ai peidio), "i geisio perswadio person i gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol y person hwnnw drwy ddulliau eraill" [h.y ar wahân i ymchwiliad] (achos 16/8, para 26).

**Achos 2020/01 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg**

Y naratif

Mae'r achos hwn yn debyg i achos 19/4 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, ond nid yn union yr un fath. Yn achos 19/4, roedd y Ceisydd wedi honni fod y Comisiynydd wedi peidio â chynnal ymchwiliad i'w gŵyn ar sail gwybodaeth a gasglodd yn "anffurfiol" cyn ymchwiliad, a bod hynny yn groes i'w swyddogaeth o dan y Mesur. Yn achos 2020/01 roedd y Ceisydd wedi gofyn i'r Tribiwnlys am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i gysylltu â Chyngor [redacted] cyn dod i benderfyniad a fyddai'n cynnal ymchwiliad statudol i gŵyn y Ceisydd. Felly mae pryd caffaelwyd y wybodaeth i'w weld yr un fath yn yr achos hwn ag yr oedd yn achos 19/4; y gwahaniaeth yw bod y Comisiynydd yn achos 19/4 wedi penderfynu peidio ag agor ymchwiliad, tra yn achos 2020/01, nid oedd y Comisiynydd eto wedi penderfynu agor ymchwiliad ai peidio.

**Honiad y Ceisydd**

Roedd y Ceisydd yn honni fod y ffaith bod y Comisiynydd wedi cysylltu â'r Cyngor cyn dod i benderfyniad yn fethiant gan y Comisiynydd i gynnal ymchwiliad i'w gŵyn, a bod hyn yn rhoi hawl iddo ofyn am adolygiad o dan adran 103 o'r Mesur.

**Penderfyniad y Tribiwnlys**



[4] Fel y dywedodd Ms Price yn ei hateb i'r gŵyn o dan Gam 1 o weithdrefn gwynion y Comisiynydd

Mae adran 103 yn rhoi hawl i adolygiad os yw'r Comisiynydd wedi penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig, neu os yw'n penderfynu peidio ag ystyried cynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, nid oedd y Comisiynydd wedi peidio ag ystyried pa un ai i gynnal ymchwiliad ai peidio. Roedd llythyr y Comisiynydd yn glir bod hyn heb gael ei benderfynu eto. Nid oedd felly hawl yn bodoli i'r Ceisydd gael adolygiad.

**Goblygiadau penderfyniad y Tribiwnlys**

Mae penderfyniad y Tribiwnlys yn ei gwneud yn ymhlyg glir y gall y Comisiynydd gysylltu gyda chorff cyhoeddus cyn ystyried cynnal ymchwiliad ai peidio.

Tra bod y Tribiwnlys yn achos 2020/21 yn ei gwneud yn ymhlyg glir bod hawl gan y Comisiynydd i gysylltu gyda chorff cyhoeddus cyn ystyried ymchwilio ai peidio, mae'r Tribiwnlys yn achos 19/4 yn ymhlyg dderbyn bod modd i'r Comisiynydd ystyried tystiolaeth a gasglwyd ganddo cyn penderfynu agor ymchwiliad ai peidio (cyhyd â'i fod yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol ac yn anwybyddu ffactorau amherthnasol, achos 16/8, para. 27).[5]

Felly i ychwanegu'r egwyddor o'r achos hwn at yr egwyddorion sydd i'w gweld yn amlygu eu hunain yn achos 19/4 a 16/8, mae'n ymddangos mai dyma'r sefyllfa:

- bod yr hawl gan y Comisiynydd i gysylltu â chorff cyhoeddus cyn ystyried cynnal ymchwiliad ai peidio (achos 2020/01)
- bod yr hawl gan y Comisiynydd i ystyried tystiolaeth a gasglwyd ganddo cyn yr ymchwiliad wrth gyrraedd ei benderfyniad i agor ymchwiliad ai peidio, cyhyd â'i fod yn ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol ac yn anwybyddu ffactorau amherthnasol (achos 19/4); a
- bod gan y Comisiynydd yr hawl/disgresiwn, ar ôl ystyried y ffactorau perthnasol (a all, yn dilyn achos 19/4, gynnwys tystiolaeth a gasglwyd ganddo cyn penderfynu agor ymchwiliad ai peidio), "i geisio perswadio person i gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol y person hwnnw drwy ddulliau eraill" [h.y ar wahân i ymchwiliad] (achos 16/8, para 26).

Gosodaf yr hawliau/penderfyniadau ymhlyg y Tribiwnlys mewn tabl isod.

| | Hawl y Comisiynydd | Achos |
|---|---|---|
| 1. | **Cyn ystyried agor ymchwiliad ai peidio** Cysylltu â chorff cyhoeddus cyn ystyried cynnal ymchwiliad ai peidio | 2020/01 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* |
| 2. | **Wedi penderfynu peidio ag agor ymchwiliad** Ystyried tystiolaeth a gasglwyd ganddo cyn dod i benderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad | 19/4 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* |
| 3. | **Wedi penderfynu peidio ag agor ymchwiliad** Ceisio "perswadio person i gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol y person hwnnw drwy ddulliau eraill" (hynny yw ar wahân i ymchwiliad) | 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* |

Mae achos 2020/01 wedi bod yn gyfle arall i'r Tribiwnlys egluro rhan o bwerau'r



5 Fel y dywedodd Ms Price yn ei hateb i'r gŵyn o dan Gam 1 o weithdrefn gwynion y Comisiynydd

Comisiynydd o dan y Mesur. Fodd bynnag, yn fy marn i, mae pwerau'r Comisiynydd yn ddigon clir yn y Mesur, yn enwedig ar ôl cael canllawiau'r Tribiwnlys dros y blynyddoedd.

# 12 Casgliadau a barn ynglŷn â honiadau 1 a 3 Cymdeithas yr Iaith: Bod y Comisiynydd wedi cyflwyno arferion cyn-ymchwilio newydd a bod hynny yn groes i Fesur y Gymraeg 2011 a Pholisi Gorfodi'r Comisiynydd

Yn dilyn dadansoddiad o'r gyfraith hyd yn hyn, sef adran 71, 93 a 103 o'r Mesur, ac achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, achos 17/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, achos 18/3 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, achos 19/4 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* ac achos 2020/01 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, mae'r gyfraith yn ymddangos yn glir, sef:

1. Mae dyletswydd ar y Comisiynydd i ystyried cynnal ymchwiliad ai peidio i gŵyn ddilys.
2. Bod hawl gan y Comisiynydd i gysylltu â chorff cyhoeddus cyn ystyried cynnal ymchwiliad ai peidio (achos 2020/01).
3. Wrth ystyried cynnal ymchwiliad ai peidio, mae'n rhaid i'r Comisiynydd ystyried materion perthnasol ac anwybyddu materion amherthnasol (achos 16/8).
4. Nid yw'n bosibl i'r Comisiynydd ddarparu rhestr gynhwysfawr o ffactorau y gall eu hystyried wrth benderfynu agor ymchwiliad ai peidio oherwydd bod yr amgylchiadau yn newid o achos i achos (achos 16/8).
5. Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu pa ffactorau sy'n berthnasol mewn achosion unigol (noder nad yw hyn yn eithrio ymddiheuriad gan gyrff) (achos 16/8).
6. Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu faint o bwysau i'w rhoi ar y ffactorau hynny mae'n penderfynu sy'n berthnasol mewn achosion penodol (achos 16/8).
7. Ar ôl i'r Comisiynydd benderfynu pa ffactorau sy'n berthnasol mewn achosion penodol, a faint o bwysau i'w rhoi ar y ffactorau hynny, byddai wedyn yn rhydd i wneud asesiad o ble saif y cydbwysedd rhwng y rhai sy'n cefnogi cynnal ymchwiliad a'r rhai nad ydynt (achos 16/8).
8. Mae gan y Comisiynydd hawl i fynegi ei gasgliadau o ran "anghymesuredd" (cyhyd

â bod y Comisiynydd wedi ystyried materion perthnasol ac anwybyddu materion amherthnasol) (achos 16/8).

9. Rhai o'r ffactorau a fydd "bron yn sicr o fod yn berthnasol" (achos 16/8, para. 34) yw:
   i) difrifoldeb cymharol y methiant honedig
   ii) ansawdd y dystiolaeth o fethiant ac
   iii) unrhyw hanes blaenorol o ddiffyg cydymffurfio â safonau.

10. Ymddengys fod achos 19/4 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* yn awgrymu bod gan y Comisiynydd yr hawl i ystyried tystiolaeth a gasglwyd ganddo cyn yr ymchwiliad wrth gyrraedd ei benderfyniad i agor ymchwiliad ai peidio (cyhyd â'i fod yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol ac yn anwybyddu ffactorau amherthnasol, yn ôl achos 16/8 para. 14 a 27).

11. Ffactor a all fod yn berthnasol yw'r ffaith bod y sefydliad y cwynwyd amdano wedi newid yr arfer oedd yn destun y gŵyn (achos 18/3).

12. Mewn perthynas â safon 58 (sydd yn benodol berthnasol i ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol), mae gan y Comisiynydd hawl i ystyried lleoliad cymharol y ddwy iaith ar gyfryngau cymdeithasol (achos 17/2)

13. Os yw'r Comisiynydd yn ailystyried penderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad, mae gan y Comisiynydd yr hawl, ac yn wir ddyletswydd, i roi ystyriaeth i'r holl faterion perthnasol fel y maent ar yr adeg y gwna hynny - nid oes dyletswydd i'r ystyriaethau fod yn gyfyngedig i'r amser pan gododd y gŵyn (achos 16/8, para. 45).

14. Bod gan y Comisiynydd yr hawl/disgresiwn, ar ôl ystyried y ffactorau perthnasol (a all, yn dilyn achos 19/4, gynnwys tystiolaeth a gasglwyd ganddo cyn penderfynu agor ymchwiliad ai peidio), "i geisio perswadio person i gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol y person hwnnw drwy ddulliau eraill" [h.y ar wahân i ymchwiliad] (achos 16/8, para 26).

Y Tribiwnlys yw'r unig awdurdod cyfreithiol ar y modd y mae'r Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau. Fodd bynnag, yn fy marn i mae'n dilyn:

- Bod y Comisiynydd wedi arfer ei swyddogaethau yn briodol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn unol ag arweiniad y Tribiwnlys;
- Mae hynny yn golygu nad yw'r Comisiynydd wedi cyflwyno arferion cyn-ymchwilio newydd
- Mae hynny yn golygu nad yw'r Comisiynydd yn anrhyloyw
- Nad yw'r Comisiynydd wedi newid y Polisi Gorfodi; yn hytrach, mae'n arfer ei ddisgresiwn yn ôl yr hawl a'r dyletswyddau mae'r Mesur wedi eu gosod arno, ac yn unol ag arweiniad y Tribiwnlys, yn arbennig yn achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, yn ogystal ag achosion eraill.
- Nad yw'n bosib i'r Comisiynydd ddarparu rhestr o ffactorau/canllawiau cynhwysfawr i'w defnyddio ym mhob achos oherwydd bydd y ffactorau yn amrywio o achos i achos. Felly nid yw'n bosib i'r Comisiynydd gyhoeddi'r fath

restr/ganllaw. Mae rhai mathau o ffactorau eisoes wedi eu rhestru yn y Polisi Gorfodi (para. 4.16). Yn ogystal, mae'r Tribiwnlys wedi rhoi canllaw i'r Comisiynydd ynglŷn â pha ffactorau a allai fod yn berthnasol i'w hystyried wrth benderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio. Beth sydd yn bosib i'r Comisiynydd ei wneud yw casglu canllawiau'r Tribiwnlys ynghyd a'u cyhoeddi ar ei wefan.

- Nid yw yn fuddiol, o dan y gyfraith bresennol, i roi ffocws ar derm megis 'datrysiad buan'; yn hytrach, y pŵer sydd gan y Comisiynydd yw arfer ei ddisgresiwn a'i swyddogaethau o fewn y Mesur, sydd wedi cael ei ddehongli gan y Tribiwnlys yn achosion y Tribiwnlys.

## Cwyno i'r corff cyhoeddus cyn cwyno i'r Comisiynydd fel 'ystyriaeth'

Roedd [redacted] o Gymdeithas yr Iaith[6] yn awyddus i mi ystyried ei ddealltwriaeth bod y Comisiynydd wedi/yn defnyddio'r cwestiwn ynghylch a oedd yr achwynydd wedi cwyno i'r corff cyhoeddus mae'n honni sydd yn gyfrifol am dor-safon, fel un o'i ystyriaethau cyn penderfynu agor ymchwiliad ai peidio.

Y Tribiwnlys yw'r unig gorff sydd â'r awdurdod i ddyfarnu ar gyfreithlonrwydd y modd mae'r Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau. Fodd bynnag yn dilyn y dadansoddiad sydd wedi'i amlinellu uchod, rwyf o'r farn ei bod yn bosib y gall y ddarpariaeth gyfreithiol ymestyn i ganiatáu i'r Comisiynydd ystyried a yw achwynydd wedi cwyno i'r corff cyhoeddus mae'n honni sydd yn gyfrifol am dor-safon, fel un o'i ystyriaethau cyn penderfynu agor ymchwiliad ai peidio.

Mae'r Tribiwnlys yn achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, wedi ei gwneud yn glir mai'r hyn sydd yn bwysig yw bod yr holl ffactorau perthnasol yn cael eu hystyried a'r ffactorau amherthnasol yn cael eu hanwybyddu (para. 14 a 27). Mae'r Tribiwnlys hefyd (yn achos 16/8, para. 27) wedi ei gwneud yn glir nad mater i'r Tribiwnlys yw darparu rhestr o ffactorau perthnasol a ffactorau amherthnasol - mai mater i'r Comisiynydd yw penderfynu hynny - ac y bydd yn amrywio o achos i achos. Felly mae'n dilyn y gallai'r cwestiwn ynghylch a yw'r achwynydd wedi cwyno i'r corff cyhoeddus mae'n honni sydd yn gyfrifol am dor-safon, fod yn ystyriaeth berthnasol i'r Comisiynydd, cyn penderfynu agor ymchwiliad ai peidio. Mae'n wir hefyd y gellir dadlau i'r gwrthwyneb - hynny yw bod ystyried a yw'r achwynydd wedi cwyno i'r corff cyhoeddus mae'n honni sydd yn gyfrifol am dor-safon, yn ystyriaeth amherthnasol i'r Comisiynydd. Fodd bynnag, un peth sydd yn glir o ddyfarniadau'r Tribiwnlys yw mai penderfyniad i'r Comisiynydd yw'r hyn sydd yn ystyriaethau perthnasol a'r hyn sydd yn ystyriaethau amherthnasol.

Yn ychwanegol, mae'r Polisi Gorfodi, para. 4.16, yn datgan nad yw'r rhestr o enghreifftiau o ystyriaethau yn y paragraff hwn yn gyflawn - mai enghreifftiau yn unig ydynt. Felly mae'r ddarpariaeth yn y paragraff yn ymddangos yn ddigon eang i gwmpasu'r ystyriaeth ynghylch a oedd yr achwynydd wedi cwyno i'r corff cyhoeddus mae'n honni sydd yn gyfrifol am dor-safon, cyn cwyno i'r Comisiynydd.

Hyd y gwelaf i, nid yw'r Comisiynydd yn ymddwyn yn groes i lythyren nac ysbryd y Mesur, na'r Polisi Gorfodi, wrth ystyried a yw achwynydd wedi cwyno i'r corff cyhoeddus mae'n honni sydd yn gyfrifol am dor-safon, fel ystyriaeth berthnasol cyn penderfynu agor ymchwiliad ai peidio.



[6] Yn dilyn sgwrs ffôn

Fodd bynnag, yn ôl adran 108 o'r Mesur, mae'n ymddangos os yw'r Comisiynydd yn cyflwyno'r gofyniad bod yn rhaid i achwynwyr gwyno i'r corff cyhoeddus cyn yr ystyrir ymchwiliad, y gallai hynny fod yn newid polisi, y bydd angen ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Ni ddaeth tystiolaeth i law bod y Comisiynydd wedi newid ei arferion i wneud cwyno i'r corff cyhoeddus sy'n honedig gyfrifol am dor-safon, yn amod ar gyfer ystyried ymchwiliad. Fodd bynnag, os dyna ddymuniad y Comisiynydd, mae adran 108 yn caniatáu iddo wneud hynny, cyhyd â bod y polisi yn cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Felly i grynhoi, rwyf o'r farn ei bod yn bosib y gall y ddarpariaeth gyfreithiol ymestyn i ganiatáu i'r Comisiynydd ystyried a yw achwynydd wedi cwyno i'r corff cyhoeddus mae'n honni sydd yn gyfrifol am dor-safon, fel un o'i ystyriaethau cyn penderfynu agor ymchwiliad ai peidio. Wrth wneud hynny, rhaid cofio geiriau'r Tribiwnlys yn achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, bod yn rhaid ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol, a bod y ffactorau perthnasol hynny yn amrywio o achos i achos. Fodd bynnag, yr hyn nad yw'r Mesur yn ymddangos ei fod yn ei ganiatáu, heb newid y Polisi Gorfodi, yw i'r Comisiynydd gyflwyno'r amod o orfod cwyno i'r corff cyhoeddus sy'n honedig gyfrifol am dor-safon, cyn iddo ystyried agor ymchwiliad ai peidio.

# 13 Honiad 2 Cymdeithas yr Iaith: bod y Comisiynydd wedi cyflwyno arferion cyn-ymchwilio newydd a bod hynny yn anrhyloyw; a chais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Rwyf yn ymdrin â honiad Cymdeithas yr Iaith o anrhyloywder yn erbyn y Comisiynydd, ynghyd â'r cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel un.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn honni bod y Comisiynydd wedi cyflwyno arferion cyn-ymchwilio newydd a bod hynny yn anrhyloyw. Mae Cymdeithas yr Iaith hefyd yn gofyn am gopi o "ganllawiau" gweithredu'r Comisiynydd dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

O'r dadansoddiad o'r gyfraith hyd yma, mae'n glir nad oes cyfyngiadau ar ystyriaethau'r Comisiynydd wrth benderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio, hynny yw, mae gan y Comisiynydd ddisgresiwn yn hyn o beth. Fel y dywedodd y Tribiwnlys yn achos 16/8 (para. 27), "nid yw'r Mesur ei hun yn rhoi unrhyw arweiniad ynglŷn â pha ffactorau y byddai disgwyl i'r Comisiynydd eu hystyried wrth benderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio. Ni fyddai'n iawn i'r Tribiwnlys honni darparu rhestr gynhwysfawr. Mae'r amgylchiadau'n amrywio o achos i achos".

Felly mae'n dilyn ei bod yn amhosib i ganllawiau 'safonol' neu ragnodol fodoli, oherwydd, fel yr eglurodd y Tribiwnlys (yn achos 16/8, para. 27), "mae'r amgylchiadau'n amrywio o achos i achos" ac fel y mae'r Tribiwnlys yn awgrymu (hefyd ym mhara. 27), nid yw'n bosib darparu rhestr gynhwysfawr o'r ffactorau y byddai disgwyl i'r Comisiynydd eu hystyried wrth benderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio.

Mae'r Tribiwnlys hefyd yn glir bod yn rhaid i'r Comisiynydd ystyried materion perthnasol ac anwybyddu materion amherthnasol (achos 16/8, para. 27). Felly byddai creu rhestr ragnodol yn gallu arwain at sefyllfa lle mae ystyriaethau sydd yn berthnasol mewn rhai achosion, ond nid mewn eraill, hefyd yn cael eu hystyried yn berthnasol mewn achosion lle nad ydynt yn berthnasol.

Yn ogystal, i'r gwrthwyneb, gall creu rhestr ragnodol arwain at sefyllfa lle mae materion sydd yn amherthnasol mewn rhai achosion, hefyd yn cael eu hystyried yn amherthnasol mewn achosion eraill, lle nad ydynt yn amherthnasol yn yr achosion eraill hynny. Byddai sefyllfa o'r fath yn gallu arwain at rai penderfyniadau anghyfreithlon (yn dilyn dyfarniad 16/8) a/neu niwed neu annhegwch i'r partïon (y Polisi Gorfodi).

**Canllawiau yn y pau cyhoeddus**

Er bod y Tribiwnlys yn glir mai mater i'r Comisiynydd yw barnu pa ffactorau sydd yn berthnasol i'w hystyried ym mhob achos (achos 16/8, para. 27), fe wnaeth y Tribiwnlys (ym mhara. 34) roi enghreifftiau o ffactorau perthnasol. Mae'r Tribiwnlys wedi ychwanegu, un ai yn uniongyrchol neu'n ymhlyg, at y ffactorau hyn mewn achosion eraill dilynol (achos 17/2, achos 18/3 ac achos 19/4). Mae'r canllawiau hyn yn barod yn y pau cyhoeddus.

## Casgliad ynglŷn â'r cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r honiad o anrhyloywder

Er bod canllawiau'r Tribiwnlys yn y pau cyhoeddus, mae'r wybodaeth ar wasgar ac nid yw'n hawdd dod o hyd iddi, nac efallai ei dehongli. Beth sydd yn bosib i'r Comisiynydd ei wneud yw casglu canllawiau'r Tribiwnlys ynghyd a'u cyhoeddi ar ei wefan.

Os yw'r Comisiynydd yn dewis ychwanegu at ganllawiau'r Tribiwnlys trwy lunio ei ganllawiau posib ei hun (gan gofio na allent fod yn gyflawn, yn dilyn dyfarniad y Tribiwnlys yn achos 16/8), oherwydd y rhesymau a nodwyd uchod, a rhesymau yn ymwneud â gwaith gorfodi'r Comisiynydd, rwyf o'r farn y gall y wybodaeth honno gael ei heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 31(1)(g) ac adran 31(2)(c) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Y rheswm dros hyn yw bod y Ddeddf yn rhoi'r hawl i reoleiddwyr atal datgelu gwybodaeth os yw datgelu'r wybodaeth honno yn debygol o beryglu gallu'r rheoleiddiwr - y Comisiynydd yn y cyd-destun hwn - i weithredu'i ddyletswyddau rheoleiddiol.

Er hwylustod, dyma restr o'r canllawiau yn y pau cyhoeddus:

1. Rhai o'r ffactorau bydd "bron yn sicr o fod yn berthnasol" (achos 16/8, para. 34) yw:

i) difrifoldeb cymharol y methiant honedig
ii) ansawdd y dystiolaeth o fethiant; ac
iii) unrhyw hanes blaenorol o ddiffyg cydymffurfio â safonau.

2. Ffactor arall a all fod yn berthnasol yw'r ffaith bod y sefydliad y cwynwyd amdano wedi newid yr arfer oedd yn destun y gŵyn (achos 18/3, para. 21).

3. Mewn perthynas â safon 58 (sydd yn benodol berthnasol i ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol), mae gan y Comisiynydd hawl i ystyried lleoliad cymharol y ddwy iaith ar gyfryngau cymdeithasol (achos 17/2).

4. Ymddengys fod achos 19/4 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* yn awgrymu bod modd i'r Comisiynydd ystyried tystiolaeth a gasglwyd ganddo'r adeg y mae'n penderfynu agor ymchwiliad ai peidio (cyhyd â'i fod yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol ac yn anwybyddu ffactorau amherthnasol (yn ôl achos 16/8 para. 14 a 27).

5. Yn ychwanegol, mae'r Polisi Gorfodi (para. 4.16) yn nodi'r amgylchiadau canlynol fel ystyriaethau perthnasol:
   i) Cwyn yn codi amheuaeth o fethiant difrifol i gydymffurfio
   ii) Cwyn yn gofyn am weithredu brys; a
   iii) Lle mae tystiolaeth ddiamheuol eisoes wedi ei darparu gan yr achwynydd fel rhan o'r gŵyn.

6. Mae'n ymddangos o achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, "mae'n wir y byddai gan y Comisiynydd o hyd y gallu i geisio perswadio person i gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol y person hwnnw drwy ddulliau eraill" [hynny yw ar wahân i ymchwiliad] (para. 26).

# 14 Effeithiau posib achos 16/8 ar arferion y Comisiynydd

**Cofnodi rhesymau penderfyniad y Comisiynydd yn fwy manwl**

Mae achos 16/8, yn anuniongyrchol, wedi gorfodi'r Comisiynydd (a'i swyddfa) i ddogfennu'r ffactorau gafodd eu hystyried wrth benderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio mewn modd mwy cynhwysfawr. Rwyf o'r farn ei bod hi'n natur ddynol i roi ystyriaeth i ffactorau yn reddfol, ond nid o anghenraid i ddogfennu'r holl ffactorau hynny'n ysgrifenedig. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn nyfarniad achos 16/8. Yn yr achos hwn, penderfynodd y Comisiynydd beidio ag agor ymchwiliad. Yn ei rhesymau i'r Ceisydd dros beidio â gwneud hynny, dogfennodd y Comisiynydd un ystyriaeth yn unig. Yn y Tribiwnlys, fodd bynnag, clywyd tystiolaeth ar ran y Comisiynydd, fod materion heblaw'r un rheswm hwnnw wedi cael eu trafod gan y Panel Ymchwilio a Gorfodi, wrth gyrraedd yr argymhelliad a'r penderfyniad hwnnw, ond bod y cofnod ohonynt yn "llai llawn nag y gallai fod" (para. 22). Yn dilyn yr achos hwn, tybiaf y gwnaeth penderfyniad y Tribiwnlys wthio'r Comisiynydd i ddogfennu rhediad ei meddwl a'i gweithredoedd yn fwy ffurfiol. Yn

ei dro, byddai hyn wedi cynyddu’r baich gweinyddol ar y Comisiynydd.

## Y cysyniad o adolygiad barnwrol yn newydd i rai partïon?

Mae’n glir bod: i) gan y cyn-gomisiynydd a’r Comisiynydd presennol yr un disgresiwn; a ii) bod y Tribiwnlys yn achos 16/8 wedi rhoi canllaw i’r cyn-Gomisiynydd ynglŷn â sut i arfer ei phŵer. Mae’r canllaw hwnnw yn gyfan gwbl gyson â disgresiwn y Comisiynydd ***cyn*** yr achos. Hynny yw, ni wnaeth y dyfarniad ymestyn na chyfyngu ar bwerau’r Comisiynydd, ond rhoi canllawiau i’r Comisiynydd ynglŷn â sut i arfer ei disgresiwn. Mae hyn hefyd, wrth gwrs, yn ganllaw i achwynwyr ynglŷn â’r egwyddorion cyfreithiol sydd yn berthnasol i ddisgresiwn y Comisiynydd.

Yn y cyd-destun, efallai fod gwerth ailadrodd ychydig ynglŷn â natur adolygiadau barnwrol yn y Tribiwnlys, fel ag yr oedd achos 16/8. Mae adolygiadau barnwrol yn wahanol i fathau eraill o achosion cyfreithiol: maent yn adolygu'r modd mae’r Comisiynydd wedi dod at benderfyniad, nid y penderfyniad ei hun. Os na fydd y Comisiynydd yn dod at benderfyniad mewn modd sydd yn gyfreithiol dderbyniol, y pŵer sydd gan y Tribiwnlys yw anfon yr achos yna yn ôl at y Comisiynydd i’w ailystyried. Nid yw hynny yn golygu bod yn rhaid i’r Comisiynydd ddod i wahanol benderfyniad yr eildro - gall ddod at yr un penderfyniad, cyhyd â’i fod wedi “ystyried y materion perthnasol (ac anwybyddu’r rhai amherthnasol)” (para. 27 o achos 16/8). Mae’r cysyniad cyfreithiol hwn, o bosib, yn rhywbeth a allai fod yn bosib ei gamddeall, yn enwedig os yw'r cysyniad yn un newydd i rai partïon.

Pan fo’r Tribiwnlys yn diddymu penderfyniad y Comisiynydd ac yn anfon yr achos yn ôl at y Comisiynydd, mae’n bosib i rai partion ddehongli hyn fel bod y Ceisydd wedi “ennill” a’r Comisiynydd wedi “colli”. Ond nid yw dehongliad o’r fath, ynddo’i hun, yn gyfan oherwydd yr hyn y mae llwyddiant cais yn ei olygu yw bod yn rhaid i’r Comisiynydd ailystyried y penderfyniad o dan y terfynau cywir; nid yw’n golygu na all y Comisiynydd ddod i’r un penderfyniad yr ail dro. Felly, yr egwyddor a’r canllaw cyfreithiol sydd bwysicaf, yn aml iawn, mewn adolygiadau barnwrol, nid penderfyniad y Tribiwnlys ynddo’i hun.

Felly, er y gall Ceisydd lwyddo mewn cais o dan adran 103,[7] sef “llwyddiant” i’r Ceisydd, mae, mewn ffordd, yn “llwyddiant” yn hytrach nag yn “fethiant” i’r Comisiynydd hefyd, oherwydd y canllaw y bydd y Comisiynydd yn ei dderbyn ynglŷn â sut i arfer y disgresiwn.

## Yr un disgresiwn; dau arddull? Dadansoddiad o ystadegau’r cwynion i graffu a yw’r Comisiynydd presennol yn agor llai o ymchwiliadau na’r cyn-Gomisiynydd

Mae gan y Comisiynydd presennol yr un disgresiwn â’r cyn-Gomisiynydd. Fodd bynnag, mae Cymdeithas yr Iaith yn honni fod y Comisiynydd presennol yn agor llai o ymchwiliadau na’r cyn-Gomisiynydd. Rhaid felly ddadansoddi’r ystadegau a gyflwynwyd gan Gymdeithas yr Iaith i ddilysu’r honiad.

Mae’r ystadegau yn cynnwys ciplun o ystadegau cwynion o dan ddeiliadaeth y cyn-Gomisiynydd, a deiliadaeth gynnar y Comisiynydd presennol. Dyma’r ystadegau mae Cymdeithas yr Iaith yn eu cyflwyno:



[7] Sydd wedyn yn golygu y bydd yn rhaid i’r Comisiynydd ailystyried y penderfyniad i agor ymchwiliad neu beidio, hynny yw, nid y bydd yn rhaid i’r Comisiynydd ddod i benderfyniad i agor ymchwiliad.

**Cwynion at y Comisiynydd - Ebrill-Mehefin ym mlynyddoedd 2016, 2017, 2018 a 2019**

| Blwyddyn | Ebrill - Mehefin 2016 | Ebrill - Mehefin 2017 | Ebrill - Mehefin 2018 | Ebrill - Mehefin 2019 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cwynion dilys** | 40 (42)* | 28 | 51 (52)* | 53 |
| **Nifer y cwynion annilys** | 25 | 1 | 1 | 6 |
| **Nifer yr ymchwiliadau a agorwyd** | 25 | 20 | 41 | 21 |
| **Penderfynu peidio ag ymchwilio** | 17 | 8 | 11 | 32 |

*Y ffigur mewn cromfachau yw fy nghyfrif i o'r ystadegau. Ychydig o wahaniaeth sydd rhyngddynt.

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi dadansoddi'r ystadegau fel a ganlyn:

**Canran ymchwilio'r Comisiynydd Ebrill-Mehefin ar gyfer 2016, 2017, 2018 a 2019**

| Mis/Blwyddyn | Ebrill - Mehefin 2016 | Ebrill - Mehefin 2017 | Ebrill - Mehefin 2018 | Ebrill - Mehefin 2019 |
|---|---|---|---|---|
| **Canran ymchwilio** | 62.5% 59.5%* | 71% | 80.3% 78.8%* | 39.6% 53.8%* |

*Mae'r ffigurau mewn coch yn dynodi ffigurau wedi eu cyflwyno gan Ms Price yn ei hymateb i gŵyn Cymdeithas yr Iaith. Mae'r ffigurau hyn yn ymhelaethu ar yr ystadegau ac yn nodi y dengys yr ystadegau fod y Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad i 21 o 53 cwyn ddilys a gyflwynwyd rhwng Ebrill a Mehefin 2019. Mae hi'n egluro nad oedd modd ymchwilio i 14 cwyn ddilys am nad oeddent yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safon neu gam gorfodi neu unrhyw ofyniad perthnasol arall (e.e. cafwyd cwynion yn erbyn sefydliadau nad oedd yn gyfrifol am y mater y cwynwyd amdanynt). Ymchwiliwyd felly i 53.8% o'r cwynion dilys lle roedd yn agored iddo wneud hynny [hynny yw, nid 39.6% fel y nodir yn yr ystadegau a roddodd y Comisiynydd i'r Gymdeithas].

Mae'r ystadegau uchod yn nodi dim ond un chwarter o ddeiliadaeth y Comisiynydd presennol, tra mae'n dogfennu'r cyfnod Ebrill-Mehefin dros dair blynedd o ddeiliadaeth y cyn-Gomisiynydd. Yn ei hymateb i gŵyn Cymdeithas yr Iaith, mae Ms Price yn cynnig yr ystadegau ychwanegol sef:

**Ystadegau cwynion/ymchwiliadau Gorffennaf – Medi 2019**

| Mis/Blwyddyn | Gorffennaf – Medi 2019 |
|---|---|
| **Nifer y cwynion dilys** | 55 |
| **O'r cwynion dilys, nifer y cwynion nad oedd modd ymchwilio iddynt gan nad oeddent yn creu amheuaeth o fethiant** | 20 |
| **Nifer y cwynion oedd yn bosibl ymchwilio iddynt** | 35 |
| **Ymchwilio** | 21 |
| **Canran ymchwilio** | 60% |

O edrych ar sampl o ystadegau o 2016-2019 a gyflwynwyd uchod (gan Gymdeithas yr Iaith), rwyf o'r farn eu bod yn codi cwestiwn sydd yn rhagflaenu'r cwestiwn a yw'r Comisiynydd presennol yn agor llai o ymchwiliadau na'r cyn-Gomisiynydd, a hynny yw, **pam mae'r canrannau ymchwilio wedi cynyddu rhwng 2016 a 2018**. Rwyf felly yn troi fy sylw i edrych am esboniad am gynnydd yn yr ymchwiliadau yn y tair blynedd rhwng 2016 a 2018.

**Pam mae'r canrannau ymchwilio wedi cynyddu rhwng 2016 a 2018?**

Y cam cyntaf yw nodi pryd ddaeth y Safonau i rym. Maent fel a ganlyn:

## Y Safonau yn dod i rym

| Dod i rym | Rheoliadau/Safonau |
|---|---|
| 30 Mawrth 2016 | 1 |
| 25 Ionawr 2017 | 2 |
| 30 Mawrth 2017 | 4 a 5 |
| 1 Ebrill 2018 | 6 |
| Mai 2019 | 7 |

Yr ail gam yw edrych a oedd llwyth gwaith y Comisiynydd yn cynyddu yn sgil y Safonau yn dod i rym. Cefais y ffigurau isod gan swyddfa'r Comisiynydd. Maent hefyd wedi eu cyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd, sydd ar wefan y Comisiynydd. Mae'r ffigurau fel a ganlyn:

**Nifer y cwynion i'r Comisiynydd 2016-2019**

| Safonau yn dod i rym | Dyddiad Cwynion | Cwynion dilys | Cwynion annilys | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 30 Mawrth 2016 (1) | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 25 Ionawr 2017 (2) | | | | |
| | **Ebrill 2016- Mawrth 2017**[8] | 124 | 27 | 151 |
| 30 Mawrth 2017 (4 &5) | | | | |
| | **Ebrill 2017- Mawrth 2018**[9] | 110 | 4 | 114 |
| 1 Ebrill 2018 (6) | | | | |
| | **Ebrill 2018 - Mawrth 2019**[10] | 174 | 9 | 183 |
| Mai 2019 (7) | | | | |

O'r ystadegau uchod, y ffaith fwyaf amlwg yw'r cynnydd yn nifer y cwynion dilys erbyn Mawrth 2019. Er enghraifft, cynnydd o 40.3% rhwng 2017 a 2019 a chynnydd o 58.2% rhwng 2018 a 2019.

Y cam nesaf yw edrych os/sut mae'r cynnydd yn nifer y cwynion at y Comisiynydd yn trosglwyddo i'r Tribiwnlys oherwydd gyda chynnydd yn y cwynion at y Comisiynydd, ni fyddai yn annisgwyl gweld cynnydd cymesur yn y Tribiwnlys. Dyma restr o achosion sydd â dyfarniadau wedi eu cyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys:

### Cysoni'r dyddiadau y daeth y safonau i rym gyda'r achosion yn y Tribiwnlys (sydd â dyfarniad ar wefan y Tribiwnlys)

| **Safonau yn dod i rym** | **Achos** |
|---|---|
| 30 Mawrth 2016 (1) | |
| | TyG/WLT/16/5 Cyngor Sir Penfro v Comisynydd y Gymraeg |
| | TyG/WLT/16/8 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg |
| 25 Ionawr 2017 (2) | |
| 30 Mawrth 2017 | |

8 Cyfnod 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017
9 Cyfnod 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018
10 Cyfnod 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019

| | |
|---|---|
| (4a5) | |
| | TyG/WLT/17/2 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg |
| | TyG/WLT/18/5 Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth v CyG |
| | TyG/WLT/18/2 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg |
| 1 Ebrill 2018 (6) | |
| | TyG/WLT/18/3 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg |
| | TyG/WLT/18/3 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg |
| | TyG/WLT/19/1 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg |
| | TyG/WLT/19/4 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg |
| Mai 2019 (7) | |

Dyma ddarlun arall sydd yn codi mwy o gwestiynau nag y mae’n eu hateb. O’r naw dyfarniad, mae chwech ohonynt gan yr un Ceisydd ([redacted]), sef dwy ran o dair o’r holl ddyfarniadau. [redacted]

Mae hyn yn fy arwain i edrych yn fwy manwl isod ar achosion y Tribiwnlys, gan gynnwys sail yr achosion a phenderfyniad y Tribiwnlys yn yr achosion [11].

# 15 Amlinelliad o’r achosion yn y Tribiwnlys

Af ati yn awr i ddehongli amlinelliad o’r achosion yn y Tribiwnlys.



[11] Mae rhestr lawn y Tribiwnlys yn Atodiad 2

## Rhestr o achosion yn ôl y blynyddoedd yr agorwyd yr achosion

| Safonau yn dod i rym | 30/3/2016 (1) | 25/1/2017 (2) 30/3/17 (4 a 5) | 1/4/2018 (6) | Mai 2019 (7) |
|---|---|---|---|---|
| | Achos 2016/1 | 2017/1 | 2018/1 | 2019/1 |
| | Achos 2016/2 | 2017/2 | 2018/2 | 2019/2 |
| | Achos 2016/3 | | 2018/3 | 2019/3 |
| | Achos 2016/4 | | 2018/4 | 2019/4 |
| | Achos 2016/5 | | 2018/5 | 2019/5 |
| | Achos 2016/6 | | | 2019/6 |
| | Achos 2016/7 | | | 2019/7 |
| | Achos 2016/8 | | | 2019/8 |
| | Achos 2016/9 | | | 2019/9 |
| | | | | 2019/10 |
| | | | | 2019/11 |
| | | | | 2019/12 |

Yr hyn sydd i'w sylwi o'r tabl hwn yw, o gymharu blwyddyn 2016 â blwyddyn 2019, nid oes cynnydd cymesur yn nifer yr achosion sydd yn mynd i'r Tribiwnlys, o ystyried mai dim ond Safonau Rhif 1 ddaeth i rym yn 2016 (30 Mawrth 2016), tra erbyn 2019, mae Safonau 1, 2, 4, 5, 6 a 7 mewn grym. **Mae'r ystadegau yma yn awgrymu, ar yr wyneb, nad o anghenraid y cynnydd yn y Safonau yn dod i rym sydd yn gyfrifol am y cynnydd yn yr achosion yn y Tribiwnlys yn 2019**, a bod rheswm arall.

Rhaid felly, ymchwilio i edrych beth all y rheswm hwnnw fod. Dechreuaf yn y tabl nesaf drwy gyflwyno rhestr o'r achosion a ddechreuwyd yn 2016, cyn cyflwyno rhestr o achosion a ddechreuwyd yn 2019.

Rhestr o achosion Tribiwnlys wedi eu cychwyn yn 2016[12]

| |
|---|
| 16/1 AB v CyG |
| 16/2 CD v CyG |
| 16/3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog v CyG |
| 16/4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili v CyG |
| 16/5 Cyngor Sir Penfro v CyG |
| 16/6 EF v CyG |
| 16/7 GH v CyG |
| 16/8 JK v CyG - [redacted] v CyG |
| 16/9 LM v CyG |

Mae'r tabl uchod yn dangos y canlynol:

- Bod 6 (chwech) allan o 9 (naw) o'r achosion wedi cael eu dwyn i'r Tribiwnlys gan unigolyn - ac mai un o'r achosion hynny yw 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg,* sydd wedi ei drafod yn fanwl uwchlaw.



12 Mae enwau'r Ceiswyr unigol yn anhysbys yng nghofrestr y Tribiwnlys, tra bod enwau'r Ceiswyr sydd yn gyrff cyhoeddus yn hysbys

- Mae’r achosion sydd wedi eu dwyn gan unigolion yn 2/3 (dwy ran o dair) o’r achosion.

- Felly 1/3 (un rhan o dair) o’r achosion sydd wedi eu dwyn gan gyrff cyhoeddus.

Y cam nesaf yw dadansoddi’r rhesymau pam y daeth y Ceiswyr â’r achosion i’r Tribiwnlys a beth oedd penderfyniad y Tribiwnlys. Dechreuaf drwy ddadansoddi amlinelliad o’r achosion gan y cyrff cyhoeddus.

## Sail achosion cyrff cyhoeddus a phenderfyniad y Tribiwnlys - 2016

| **ACHOS GAN GYRFF CYHOEDDUS** | **SAIL** | **PENDERFYNIAD Y TRIBIWNLYS** |
|---|---|---|
| 16/3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog v CyG | Apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd nad oedd gosod ar y Ceisydd ddyletswydd i gydymffurfio â Safon 145 ac â Safon 146 yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd i’r Ceisydd ar 30.09.2015 yn afresymol nac yn anghymesur. | Tynnodd y Ceisydd y cais yn ôl. |
| 16/4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili v CyG | Apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd nad yw gosod ar y Ceisydd ddyletswydd i gydymffurfio â Safonau 21, 41(b), 46 a 64 yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd i’r Ceisydd ar 30.09.2015 yn afresymol nac yn anghymesur. | Bu cais gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg i gael ei chysylltu fel parti (o dan reol 35). Penderfynodd y Tribiwnlys na ddylid cysylltu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fel parti i’r achos ond y dylai dadleuon ysgrifenedig y Gymdeithas gael eu hystyried gan banel y Tribiwnlys a fydd yn penderfynu’r achos. Gwrthodwyd yr apêl [h.y apêl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili]. |

| | | |
|---|---|---|
| 16/5 Cyngor Sir Penfro v CyG | Apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd nad yw gosod ar y Ceisydd ddyletswydd i gydymffurfio â Safonau 26, 26A, 29 a 29A yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd i'r Ceisydd ar 30.09.2015 yn afresymol nac yn anghymesur. | Bu cais gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg i gael ei chysylltu fel parti (o dan reol 35). Penderfynodd y Tribiwnlys na ddylid cysylltu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fel parti i'r achos ond y dylai dadleuon ysgrifenedig y Gymdeithas gael eu hystyried gan banel y Tribiwnlys a fydd yn penderfynu'r achos. Gwrthodwyd yr apêl [h.y apêl Cyngor Sir Penfro]. |

Dau bwynt o ddiddordeb sydd i'w gweld o edrych ar y rheswm pam y cafodd yr achosion hyn eu dwyn i'r Tribiwnlys a hynny yw:

1. Na lwyddodd yr un o'r cyrff cyhoeddus yn eu hapêl yn erbyn y Comisiynydd; a

2. Bod Cymdeithas yr Iaith wedi gwneud cais i gael eu cysylltu fel parti, a gafodd ei wrthod gan y Tribiwnlys.

Sail achosion gan Geiswyr unigol a phenderfyniad y Tribiwnlys - 2016[13]

| ACHOS GAN UNIGOLYN(ION) | SAIL | PENDERFYNIAD Y TRIBIWNLYS |
|---|---|---|
| 16/1 AB v CyG | Y Ceisydd yn gofyn i'r Tribiwnlys adolygu penderfyniad y Comisiynydd wedi iddi ddweud nad oedd dyletswydd arni i ystyried cynnal ymchwiliad ar ôl cael ei hysbysu o gŵyn drwy Twitter | Y ceisydd yn tynnu'r cais yn ôl ar ôl i'r Comisiynydd dderbyn bod cyfeiriad Twitter yn cwrdd â gofynion adran 93(5) o'r Mesur |
| 16/2 CD v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn o fethiant honedig i | Penderfyniad gan y Tribiwnlys i wrthod caniatâd i wneud cais "am nad oes disgwyliad rhesymol y byddai'r cais |



[13] Mae un o'r achosion yn hysbys oherwydd bod dyfarniad gan y Tribiwnlys ar wefan y Tribiwnlys, sef achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*); fel arall mae enw'r Ceisydd(wyr) yn anhysbys.

| | | |
|---|---|---|
| | gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg | yn llwyddo ac nad oes rheswm cryf arall pam y dylai’r cais gael ei glywed”. |
| 16/6 EF v CyG | Apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd mewn perthynas â chŵyn gan y Ceisydd, nad oedd Cyngor Dinas Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â Safon 60, a osodwyd ar y Cyngor gan Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd 30.9.2015 | Tynnwyd y cais yn ôl yn sgil penderfyniad y Comisiynydd, ar ôl adolygu ei phenderfyniad gwreiddiol, i ddyfarnu bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safon 60 ac i osod camau gorfodi ar y Cyngor. |
| 16/7 GH v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (5.10.2016) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | Gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais. |
| 16/8 JK v CyG h.y [redacted] [redacted] v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (9.12.2016) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | Y Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i wneud y cais. Cyhoeddwyd penderfyniad y Tribiwnlys: 1. Caniatawyd y cais; 2. Diddymwyd penderfyniad y Comisiynydd; 3.Anfonwyd y penderfyniad yn ôl at y Comisiynydd. Noder: mae’r achos hwn wedi ei drafod yn fanwl uchod. |
| 16/9 LM v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (17.11.2016) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | Gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais. |

Mae’r ystadegau uchod yn dangos y canlynol:

1. Yn achos 16/1, bod y Ceisydd wedi honni bod cwyno trwy Twitter yn ffordd dderbyniol (o dan adran 93(5) o’r Mesur), o wneud cwyn. Ar ôl i’r Comisiynydd wrthod hynny, gofynnodd y Ceisydd i’r Tribiwnlys adolygu penderfyniad y Comisiynydd (nad oedd gan y Comisiynydd ddyletswydd i ystyried cynnal ymchwiliad ar ôl cael ei hysbysu o gŵyn drwy Twitter). Yn dilyn y cais hwn gan y

Ceisydd, tynnodd y Comisiynydd y cais yn ôl a derbyn bod cyfeiriad Twitter yn cwrdd â gofynion adran 93(5) ac felly bod cyfeiriad Twitter yn dderbyniol at ddiben gwneud cwyn i'r Comisiynydd. Felly, nid yw'r Tribiwnlys wedi cael y cyfle i roi barn ar y pwynt hwn.

2. Yn achos 16/6, bod y Comisiynydd wedi newid ei meddwl ar ôl yn gyntaf ddyfarnu nad oedd Cyngor Dinas Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â Safon a osodwyd ar y Cyngor gan Hysbysiad Cydymffurfio, a dyfarnu bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio. Gwnaeth y Comisiynydd hynny ar ôl i'r Ceisydd wneud apêl ynglŷn â'r dyfarniad. Wedi i'r Comisiynydd newid ei meddwl, fe dynnodd y Ceisydd yr apêl yn ôl.

3. Bod tri chais wedi cael eu gwrthod gan y Tribiwnlys.

4. Bod un cais wedi llwyddo (achos 16/8).

Nid yw'r dadansoddiad hwn, ynddo'i hun, yn profi dim byd perthnasol. Felly af ymlaen i ddadansoddi amlinelliad o'r achosion a ddechreuwyd yn 2019.

Rhestr o achosion Tribiwnlys wedi eu cychwyn yn 2019[14]

| |
|---|
| 2019/1 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg |
| 2019/2 FG v Comisiynydd y Gymraeg |
| 2019/3 HI v Comisiynydd y Gymraeg |
| 2019/4 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg |
| 2019/5 LM v Comisiynydd y Gymraeg |
| 2019/6 Anhysbys v Comisiynydd y Gymraeg[15] |
| 2019/7 Anhysbys v Comisiynydd y Gymraeg[16] |
| 2019/8 ST v Comisynydd y Gymraeg |
| 2019/9 UW v Comisiynydd y Gymraeg |
| 2019/10 YA v Comisiynydd y Gymraeg |
| 2019/11 BC v Comisynydd y Gymraeg |
| 2019/12 DE v Comisiynydd y Gymraeg |

Nid yw'r tabl uchod, ynddo'i hun yn profi dim byd perthnasol. Yr unig ddau bwynt o ddiddordeb mae'n eu dangos yw:

1. Na wnaeth unrhyw gorff cyhoeddus ddod ag achos i'r Tribiwnlys yn 2019; a
2. Bod yr un Ceisydd wedi gwneud cais yn 2016 ac yn 2019. Mae'n bosib bod Ceisydd arall yn 2019 hefyd wedi gwneud cais yn 2016, ond nid oes tystiolaeth gyhoeddus ynglŷn â hynny.

Felly y cam nesaf yw edrych ar amlinelliad o fanylion yr achosion yn y Tribiwnlys i weld a oes themâu yn amlygu eu hunain.

**Craffu am themâu yn y cwynion aeth i'r Tribiwnlys**

14 Mae enwau'r Ceiswyr unigol yn anhysbys yng nghofrestr y Tribiwnlys, ar wahân i'r achosion lle mae dyfarniad ar wefan y Tribiwnlys

15 Nid yw'r achos hwn eto ar gofrestr y Tribiwnlys ar y we.

16 Nid yw'r achos hwn eto ar gofrestr y Tribiwnlys ar y we.

I edrych am thema(themâu) yn y cwynion aeth i'r Tribiwnlys, rhaid edrych ar sail yr achos a phenderfyniad y Tribiwnlys. Dyma gofrestr y Tribiwnlys ar gyfer achosion yn dechrau 2019:

| ACHOS GAN UNIGOLYN(ION) | SAIL | PENDERFYNIAD Y TRIBIWNLYS |
|---|---|---|
| 2019/1 [redacted] v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (19.3.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 12.4.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais.<br><br>26.4.19: cais gan y Ceisydd am ailystyriaeth o'r penderfyniad i wrthod caniatâd i wneud y cais<br><br>1.5.19: cais gan y Ceisydd am orchymyn i'r Comisiynydd ddatgelu cynllun gweithredu y cyfeiriwyd ato gan y Comisiynydd yn ei rhesymau dros wrthod ymchwilio i gŵyn y Ceisydd.<br><br>24.7.19: cais gan y Comisiynydd i ddileu'r Cais ar y sail bod y Comisiynydd wedi penderfynu gwrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol ac nad oes gan y Tribiwnlys awdurdodaeth, bellach i adolygu'r penderfyniad hwnnw.<br><br>29.7.19: ceisydd yn gwrthod cais y Comisiynydd i ddileu'r cais.<br><br>6.12.19: nid oedd gan y Tribiwnlys bŵer, o dan adran 103 a 104 i adolygu penderfyniad a oedd eisoes wedi cael ei wrthdroi gan y Comisiynydd. O ganlyniad, nid oedd gan y Tribiwnlys ddewis arall ond dileu'r cais. |
| 2019/2 FG v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (24.5.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | Gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais. |
| 2019/3 HI v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (27.3.19) i beidio ag ymchwilio i | 5.6.19: y Tribiwnlys yn gwrthod estyn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais (28 diwrnod). Ni chaiff y Tribiwnlys felly ystyried |

| | | |
|---|---|---|
| | gwynion gan y Ceisydd | y cais. |
| 2019/4 [redacted] v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (19.6.19) i beidio ag ymchwilio i gwynion gan y Ceisydd | 12.7.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais.<br><br>12.7.19: cais gan y Ceisydd am ailystyriaeth o'r penderfyniad i wrthod caniatâd i wneud y cais.<br><br>4.11.19: panel y Tribiwnlys yn cytuno gyda phenderfyniad cyn-Lywydd y Tribiwnlys (12.7.19) i wrthod caniatâd i wneud y cais. |
| 2019/5 LM v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (7.6.19) i beidio ag ymchwilio i gwynion gan y Ceisydd. | 12.7.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais |
| 2019/6 Anhysbys v CyG[17] | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gwynion gan y Ceisydd. | Gwrthodwyd y cais |
| 2019/7 Anhysbys v CyG[18] | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gwynion gan y Ceisydd. | Y Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i wneud y cais.<br><br>Cais gan y Comisiynydd i ddileu'r Cais o dan Reol 23 o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015. |
| 2019/8 ST v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (8.10.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd | 20.12.19: y Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i wneud y cais. |
| 2019/9 UW v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (10.10.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 20.12.19: y Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i wneud y cais. |
| 2019/10 YA v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (3.12.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 23.12.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais. |
| 2019/11 BC v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (3.12.19) | 23.12.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais. |



17 Nid yw'r achos hwn ar y wefan eto
18 Nid yw'r achos hwn ar y wefan eto

| | | |
|---|---|---|
| | i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | |
| 2019/12 DE v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (3.12.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 23.12.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais. |

O'r 12 (deuddeg) o achosion a gafodd eu dwyn i'r Tribiwnlys gan unigolion, mae'r dystiolaeth yn dangos y canlynol:

1. Bod 7 allan o 12 cais wedi cael eu gwrthod gan y Tribiwnlys (8 allan o 12 wrth gynnwys y cais cyntaf yn achos 19/1 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg)*.
2. Bod 1 achos 'allan o amser' i wneud cais
3. Felly mae'n bosib dweud bod 8 allan o 12 cais wedi methu, sef 67%.
4. Bod y Tribiwnlys wedi rhoi caniatâd i 4 achos wneud cais h.y bod 4 cais wedi llwyddo.
5. Bod achos 19/1 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg,* ar un llaw, yn sefyll ar ei ben ei hun gan fod ei gais yn gyntaf wedi cael ei wrthod gan y Tribiwnlys, cyn iddo newid ei gais, pan wnaeth y Comisiynydd wedyn newid ei benderfyniad.

Mae'r dystiolaeth uchod yn dangos canran uchel o geisiadau am ganiatâd i adolygu penderfyniad y Comisiynydd yn 2019 yn cael eu gwrthod gan y Tribiwnlys.

**Ar yr wyneb, rwyf yn amau bod hyn yn awgrymu efallai nad yw rhai Ceiswyr yn deall (neu'n derbyn) disgresiwn y Comisiynydd yn y Mesur (ac fel yr ymhelaethir arno yn achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*).**

Felly, rhaid dadansoddi'r ceisiadau hyn yn y Tribiwnlys yn 2019 yn fwy manwl i weld a oes patrwm i'r ganran uchel o geisiadau sydd yn aflwyddiannus yn y Tribiwnlys, ac os oes, beth ydyw.

**<u>Yn gryno</u>**

O edrych ar sampl o ystadegau o 2016-2019 a gyflwynwyd gan Gymdeithas yr Iaith, rwyf o'r farn eu bod yn codi cwestiwn sydd yn rhagflaenu'r cwestiwn a yw'r Comisiynydd presennol yn agor llai o ymchwiliadau na'r cyn-Gomisiynydd, a hynny yw, **pam mae'r canrannau ymchwilio wedi cynyddu rhwng 2016 a 2018**.

Mae'r ystadegau yn awgrymu, ar yr wyneb, nad cynnydd yn y Safonau yn dod i rym sydd yn gyfrifol, o anghenraid, am gynnydd yr achosion yn y Tribiwnlys yn 2019, a bod rheswm arall.

**Ar yr wyneb, rwyf yn amau nad yw rhai Ceiswyr yn deall (neu'n derbyn) disgresiwn y Comisiynydd yn y Mesur (ac fel yr ymhelaethir arno yn achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*), a bod hynny wedi ac yn cyfrannu at lwyth gwaith y Comisiynydd.**

# 16 Themâu yn deillio o ddadansoddiad o'r achosion yn y Tribiwnlys

**THEMA 1 – canran uchel o geisiadau i gael herio penderfyniad y Comisiynydd yn aflwyddiannus yn y Tribiwnlys**

Sail y dadansoddiad hwn yw cofrestr y Tribiwnlys sydd ar gael o: https://tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru/sites/welshlanguage/files/2019-12/TYG-06%20-%20Cofrestr_0.pdf , sydd hefyd wedi ei atgynhyrchu yn Atodiad 2.

Rwyf yn dechrau gyda'r achos diweddaraf ble mae dyfarniad ar gael, a hynny yw achos 19/4 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg.*

**Achos 19/4 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg**

Dyma'r trywydd yr achos yn y Tribiwnlys:

| | | |
|---|---|---|
| 2019/4<br>[redacted] v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (19.6.19) i beidio ag ymchwilio i gwynion gan y Ceisydd | 12.7.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais.<br><br>12.7.19: cais gan y Ceisydd am ailystyriaeth o'r penderfyniad i wrthod caniatâd i wneud y cais.<br><br>4.11.19: panel y Tribiwnlys yn cytuno gyda phenderfyniad cyn-Lywydd y Tribiwnlys (12.7.19) i wrthod caniatâd i wneud y cais. |

Mae trywydd yr achos hwn yn dangos bod y Ceisydd wedi gwneud 2 (dau) gais i'r Tribiwnlys:

1. Y cais cyntaf oedd yn gofyn am gael caniatâd i wneud cais i adolygu penderfyniad y Comisiynydd i beidio ag agor ymchwiliad.
2. Yr ail gais oedd am ailystyriaeth o benderfyniad y Tribiwnlys i wrthod y cais hwnnw.

Gwrthodwyd y ddau gais gan y Tribiwnlys[19].

---

[19] Fel cyfeirnod, mae gan y Tribiwnlys ddwy sail i wrthod caniatâd i'r Ceisydd gael cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd
62/9 (adran 103) a hynny yw: (a) bod disgwyliad rhesymol y byddai'r cais yn llwyddo, neu (b) bod rhyw reswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed.

Nid oes tystiolaeth arall ar gofrestr y Tribiwnlys o geisiadau a ddechreuwyd yn 2019 yn dynodi'r profiad hwn (hyd yma beth bynnag ond fe allai gael ei ddiweddaru), felly troaf i edrych ar y profiad o'r blynyddoedd cynt, i edrych a yw'r profiad hwn yn y Tribiwnlys yn brofiad anghyffredin neu a oes patrwm yn ffurfio.

Gwelir engreifftiau tebyg o'r un thema yn achos 18/3 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* ac yn achos 17/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*. Felly fe fyddaf yn ymdrin â'r ddau achos hwn isod.

**Achos 18/3 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg**

| | | |
|---|---|---|
| 18/3 [redacted] v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (25.5.18) i beidio â chynnal ymchwiliad mewn perthynas â chwyn gan y Ceisydd. | 11.6.18: penderfyniad gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais.<br><br>25.6.18: y Ceisydd yn hawlio ailystyriaeth o benderfyniad y Tribiwnlys i beidio â rhoi caniatâd i wneud y cais (rheol 16(8)).<br><br>29.8.18: panel y Tribiwnlys yn cadarnhau'r penderfyniad i wrthod caniatâd i wneud y cais.<br><br>26.9.18: cais gan y Ceisydd o dan Reol 48 am adolygiad o'r penderfyniad.<br><br>7.12.18: gwrthodwyd cais y Ceisydd am adolygiad o'r penderfyniad. |

Yn achos 18/3, mae trywydd yr achos yn dangos bod y Ceisydd wedi gwneud 3 (tri) chais i'r Tribiwnlys. Dyma restr o'r ceisiadau:

1. Mae'r cais cyntaf yn gofyn am ganiatâd i wneud cais i gael adolygiad gan y Tribiwnlys o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag agor ymchwiliad. Gwrthododd y Tribiwnlys gais y Ceisydd.
2. Yn dilyn penderfyniad y Tribiwnlys, gwnaeth y Ceisydd hawlio ailystyriaeth o benderfyniad y Tribiwnlys. Cadarnhaodd y Tribiwnlys benderfyniad blaenorol y Tribiwnlys.
3. Yna gwnaeth y Ceisydd gais yn gofyn i'r Tribiwnlys adolygu penderfyniad y Tribiwnlys i wrthod yr ail gais.

Gwrthodwyd tri chais gan y Tribiwnlys yn yr achos hwn, oedd yn eu hanfod, yn herio penderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i'w gŵyn.

Y peth diddorol am achos 18/3 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* yw ei fod, mewn ffordd, yn ddilyniant o achos 17/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, lle gwnaeth y Ceisydd gais llwyddiannus i'r Tribiwnlys i gael adolygiad barnwrol o benderfyniad y Comisiynydd, fel y dynodir yn y tabl isod:

| | | |
|---|---|---|
| 17/2 [redacted] | Cais am adolygiad o benderfyniad y | 19.3.2018: cyhoeddwyd Penderfyniad y Tribiwnlys: |

| | | |
|---|---|---|
| [redacted] v CyG | Comisiynydd (30.8.2017) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 1.Caniatawyd y cais;<br>2.Diddymwyd penderfyniad y Comisiynydd;<br>3.Anfonwyd y penderfyniad yn ôl at y Comisiynydd. |

Wedi i'r Tribiwnlys ddiddymu penderfyniad gwreiddiol y Comisiynydd, ac anfon y penderfyniad yn ôl at y Comisiynydd i'w ailystyried gyda'r canllaw a dderbyniodd gan y Tribiwnlys, daeth y Comisiynydd i'r un penderfyniad â'r penderfyniad gwreiddiol, ond y tro hwn gan ddefnyddio'r canllawiau cyfreithiol cywir. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, gwnaeth yr achwynydd/Ceisydd gais i'r Tribiwnlys yn gofyn am gais i gael adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwnnw – a dyna yw achos 18/3 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* fel y'i disgrifir uchod.

I symleiddio'r broses, mewn ffordd, gwnaeth y Ceisydd 5 (bum) cais i geisio herio penderfyniad y Comisiynydd i beidio ag agor ymchwiliad i'w gŵyn.

**<u>Sylw</u>**

Mae'r math hwn o brofiad sydd yn amlygu ei hun yn y Tribiwnlys, ar un llaw, yn codi peth pryder. Mae'n wir bod y gyfraith yn caniatáu hyn, fel nodwedd o gyfundrefn gyfreithiol ddatblygedig, sydd yn integreiddio atebolrwydd i'r system. Fodd bynnag, rwyf yn bryderus fod y math hwn o batrwm gan rai Ceiswyr, o bosib, yn awgrymu nad ydynt yn deall disgresiwn y Comisiynydd.

Mae delio â chwyn/achos yn gallu cymryd degau os nad cannoedd o oriau o waith, ar ran y ddau barti - yr achwynydd a'r Comisiynydd a'i swyddfa. Ni fydd achwynydd felly yn dwyn achos yn erbyn y Comisiynydd os nad yw'n teimlo'n angerddol ynglŷn â'r corff cyhoeddus a/neu'r mater dan sylw. Wrth gwrs mae hawl gyfreithiol gan achwynwyr/Ceiswyr i wneud cais i'r Tribiwnlys yn erbyn y Comisiynydd; yn ôl yr ystadegau sydd wedi eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn, mae canran uchel yn aflwyddiannus. Fel rwyf wedi dweud eisoes, nid yw hi'n fuddiol i ddehongli cais sydd yn llwyddo yn y Tribiwnlys fel llwyddiant i'r Ceisydd yn unig, gyda'r Comisiynydd yn "colli"; yn hytrach, fe fydd y Comisiynydd yn derbyn cyfarwyddyd a chanllaw gan y Tribiwnlys ynglŷn â sut i arfer ei bŵer. Ond gyda chymaint o geisiadau yn cael eu gwrthod gan y Tribiwnlys, rwyf yn annog Ceiswyr i ystyried, cyn gwneud cais i'r Tribiwnlys, beth yw rhagolygon llwyddiant eu cais. Gall barn gyfreithiol annibynnol roi cyngor ar ragolygon llwyddiant cais.

Rwyf yn llawn werthfawrogi bod rhai ohonom yn teimlo'n rhwystredig nad yw rhai cyrff cyhoeddus eto yn cydymffurfio'n ddigonol â'u dyletswyddau cyfreithiol o dan y Safonau; ond os yw rhagolygon am lwyddiant cais Tribiwnlys yn isel, rwy'n annog Ceiswyr i ystyried ai gwneud cais i'r Tribiwnlys yw'r weithred fwyaf effeithiol i geisio cyflawni'r gydymffurfiaeth a geisir. Mae pawb sydd ynghlwm wrth y gŵyn hon – ac eraill y tu hwnt - am weld yr un nod o ddefnydd o'r Gymraeg yn cael ei hybu a'i hyrwyddo. Felly mae'n ddoeth ceisio dod i ddeall y tirlun ehangach ac ystyried yr hyn sydd yn mynd i fod fwyaf effeithlon o ran sicrhau'r nod.

**Dilema cyffredinol y Comisiynydd: agor ymchwiliad anghymesur v ymdrin â chwyn yn y Tribiwnlys gyda rhagolygon isel o lwyddo?**

Mae nifer o'r ceisiadau aflwyddiannus yn ymwneud ag arwyddion neu faterion unigol gan gynghorau sir (e.e. achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, achos 17/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, achos 18/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, achos 18/3 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* ac achos 19/1 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*), a hynny weithiau tra bod y Comisiynydd eisoes yn delio ag ymchwiliadau eang i gydymffurfiaeth cynghorau â safonau.

Yn achos 18/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, er enghraifft, y rheswm a roddwyd gan y Comisiynydd am beidio ag ymchwilio i'r gŵyn honno oedd: "Rwyf wedi penderfynu… i beidio â chynnal ymchwiliad unigol i bob un o'ch cwynion yn unigol; yn hytrach rwyf wedi penderfyu defnyddio eich tystiolaeth i agor ymchwiliad cyffredinol i gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau perthnasol…" Eglurodd, gan ei bod hi felly eisoes wedi agor "ymchwiliad eang i gydymffurfiaeth y Cyngor â safonau gosod arwyddion", y byddai agor ymchwiliadau i'r cwynion diweddaraf yn golygu "ymchwilio i'r un methiant ag sydd eisoes yn destun ymchwiliad gennyf" ac felly'n "ddefnydd anghymesur o adnoddau ac yn debygol o fod yn dyblygu gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo" (para. 2).

Gwelwyd geiriau tebyg yn nyfarniad y Tribiwnlys yn achos 18/3 [redacted] *Comisiynydd y Gymraeg*, (para. 21), lle dywedodd y Tribiwnlys: gan mai "diben y system safonau yw newid ymddygiad awdurdodau cyhoeddus, os yw yn digwydd bod newid o'r fath wedi bod, byddai ymchwiliad, hyd yn oed pe byddai wedi arwain at ganfyddiad o fethiant i gydymffurfio, yn ddefnydd adnoddau a fyddai'n anghymesur i unrhyw fudd a fyddai'n deillio i ddefnyddwyr y Gymraeg. Felly mae'n ymddangos ei bod hi'n gwbl rhesymol a rhesymegol i'r Comisiynydd "ganolbwyntio adnoddau ar weithgareddau a fydd yn cyflawni'r budd mwyaf" (para. 22) i "newid ymddygiad awdurdodau cyhoeddus" (para. 21) a "hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg" (adran 3).

Mae'r ceisiadau sydd yn mynd i'r Tribiwnlys, gyda rhagolygon isel o lwyddo, yn rhoi pwysau uwch nag oes raid ar adnoddau dynol y Comisiynydd a'i staff. Yn wir, rwyf yn deall bod llwyth gwaith y Tîm Ymchwilio a Gorfodi wedi bod yn destun trafod i'r Tîm Rheoli yn 2016. O edrych ar ystadegau'r ymchwiliadau ar gyfer 2016, gwelaf fod 9 (naw) cais yn y Tribiwnlys yn 2016 o'i gymharu a 2 (dau) gais yn 2017 a 5 (pump) cais yn 2018. Dyma'r ystadegau wedi eu cyflwyno mewn tabl:

| **Safonau yn dod i rym** | **30/3/2016 (1)** | **25/1/2017 (2)<br><br>30/3/17<br>(4 a 5)** | **1/4/2018 (6)** | **Mai 2019 (7)** |
|---|---|---|---|---|
| | Achos 2016/1 | 2017/1 | 2018/1 | 2019/1 |
| | Achos 2016/2 | 2017/2 | 2018/2 | 2019/2 |
| | Achos 2016/3 | | 2018/3 | 2019/3 |
| | Achos 2016/4 | | 2018/4 | 2019/4 |
| | Achos 2016/5 | | 2018/5 | 2019/5 |
| | Achos 2016/6 | | | 2019/6 |
| | Achos 2016/7 | | | 2019/7 |
| | Achos 2016/8 | | | 2019/8 |
| | Achos 2016/9 | | | 2019/9 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 2019/10 |
| | | | | 2019/11 |
| | | | | 2019/12 |

**Mae canran isel y ceisiadau yn y Tribiwnlys yn 2017 a 2018 yn fy arwain i gwestiynu a oedd y Comisiynydd yn agor mwy o ymchwiliadau yn ystod y cyfnod hwn; yn sicr roedd nifer yr ymchwiliadau a agorwyd rhwng Ebrill a Mehefin 2018 yn uchel iawn, yn arbennig o'i gymharu â'r nifer am yr un cyfnod yn 2017 a 2016.** I ddangos hyn yn fwy gweledol, cymeraf y ffigurau a gyflwynwyd gan Gymdeithas yr Iaith[20] yn y gŵyn a gellir eu hystyried gyda'r tabl uchod sydd yn dangos ffigurau'r achosion yn y Tribiwnlys dros yr un blynyddoedd:

**<u>Ymchwiliadau a agorwyd gan y Comisiynydd Ebrill – Mehefin 2016, 2017, 2018 a 2019</u>**

| Blwyddyn | Ebrill - Mehefin 2016 | Ebrill - Mehefin 2017 | Ebrill - Mehefin *2018* | Ebrill - Mehefin 2019 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer yr ymchwiliadau a agorwyd** | 25 | 20 | 41 | 21 |
| **Canran ymchwilio[21]** | *62.5%* **59.5%** | *71%* | *80.3%* **78.8%** | *39.6%* **53.8%** |

**Y ffaith gryfaf mae'r darlun hwn yn ei dangos yw pa mor uchel oedd yr ymchwiliadau yn y cyfnod hwn yn 2018 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2016, i raddau llai yn 2017, ac yna yn 2019**. Mae'r cynnydd i'w weld yn dechrau yn 2017.

Mae dyfarniadau a phenderfyniadau'r Tribiwnlys yn cynnig tystiolaeth sydd yn ymhlyg gynnig rhesymau dros y cynnydd yn yr ymchwiliadau ym mlwyddyn 2017 a 2018. Ymddengys mai un factor arwyddocaol oedd achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, yn enwedig yn dilyn cyhoeddi penderfyniad y Tribiwnlys ym mis Mehefin 2017.

**Mae'r dystiolaeth o'r Tribiwnlys a'r ystadegau yn awgrymu i mi fod achwynydd/wyr yn ceisio herio penderfyniad y Comisiynydd i beidio ag agor ymchwiliad yn y Tribiwnlys, os nad oedd ymchwiliad yn cael ei agor. Roedd hynny/mae hynny i'w weld yn digwydd pan nad oedd/yw yn gymesur neu'r weithred fwyaf effeithiol i "hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg" (adran 3).**

**Felly mae'n ymddangos bod y Comisiynydd yn wynebu dilema rhwng dewis agor ymchwiliadau anghymesur i fodloni'r achwynydd/wyr, neu os oedd penderfyniad i beidio ag agor ymchwiliadau, wynebu cais am her i'r penderfyniad hwnnw yn y Tribiwnlys, oedd, yn ôl y dystiolaeth, yn debyg o fod yr un os nad mwy "gwastraffus"[22] o ran adnoddau dynol ac ariannol nag agor ymchwiliad anghymesur.**

### *Y gost a'r risg i'r Achwynydd/Ceisydd*

Rwyf yn nodi, nad oes ffi i Geisydd wneud cais am adolygiad barnwrol yn Nhribiwnlys y Gymraeg, yn wahanol i gais am adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys. O gael cipolwg ar y

[20] Mae'r ffigurau mewn italics yn ffigurau a gyflwynwyd gan Gymdeithas yr Iaith

[21] Mae'r ffigurau mewn du trwm yn ffigurau y mae'r Comisiynydd wedi eu cyflwyno. Noder nad oes llawer o wahaniaeth rhyngddynt ar wahân i Ebrill-Mehefin 2019.

[22] Achos 18/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, para. 9.

gost yn yr Uchel Lys (<https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/820085/ex50a-cym.pdf>), y ffigur diweddaraf yw ar gyfer Gorffennaf 2019. Mae Tabl E yn y ddogfen honno yn dangos bod ffi Adolygiad Barnwrol fel a ganlyn:

- Caniatâd i wneud cais £154
- Ar gais, ailystyried mewn gwrandawiad benderfyniad ynghylch caniatâd £385
- Caniatâd i fwrw ymlaen £770

Felly mae gwneud cais i'r Tribiwnlys yn rhad ac am ddim i Geiswyr.

Nodaf nad oes tystiolaeth wedi dod i law yn dangos bod y Comisiynydd wedi gofyn i'r Tribiwnlys wneud gorchymyn ar gyfer costau yn erbyn yr un Ceisydd mewn ceisiadau aflwyddiannus (Rheol 55 o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015) felly mae'n ymddangos bod gwneud cais i'r Ceisydd wedi bod yn un ai'n ddi-risg neu yn risg isel.

***Y gost a'r risg i Gomisiynydd y Gymraeg***

Ystyriaf y gost i swyddfa'r Comisiynydd.

*Costau adnoddau dynol*

Roedd llwyth gwaith y Tîm Ymchwilio a Gorfodi wedi bod yn destun trafod y Tîm Rheoli yn 2016 ac yn dilyn hynny, bu argymhelliad i ailystyried pa gamau gellid eu cymryd i sicrhau bod y tîm yn cyflawni'r hyn oedd yn ofynnol, ac i sicrhau nad oedd aelodau'r tîm yn wynebu pwysau gwaith gormodol.

Yn 2017, cafwyd adolygiad mewnol o'r broses gwynion. Nododd yr adolygiad hwnnw bod swmp y gwaith, oherwydd nifer y cwynion a brosesir, yn cael effaith ar effeithlonrwydd y broses. Fel arfer, byddai cwmnïau ymgynghori, wrth gynnal adolygiadau mewnol o systemau cwynion, yn enwedig systemau cwynion masnachol, yn argymell datblygu meini prawf i brosesu'r cwynion. Ond mae'r archwiliad mewnol yn cydnabod bod gallu'r Comisiynydd i wneud hynny yn gyfyngedig i ofynion y gyfraith.

*Costau gwasanaethau proffesiynol*

Yn ogystal â chostau adnoddau dynol mewnol, bydd ar y Comisiynydd weithiau angen gwasanaethau proffesiynol megis gwasanaethau archwilio mewnol a gwasanaethau cyfreithiol. Gall hynny fod er mwyn ysgwyddo rhywfaint o'r baich mewnol neu pan mae cwestiynau cyfreithiol yn codi, er enghraifft ynglŷn â dyletswyddau'r Comisiynydd. Mae'r gwasanaethau hyn, felly, yn gallu bod o fudd i'r Comisiynydd ac achwynwyr. Ond mae cost ariannol iddynt - yn uniongyrchol i swyddfa'r Comisiynydd ac yn anuniongyrchol i'r achwynwyr fel trethdalwyr.

I edrych ar y gost gyfreithiol, edrychaf yn Adroddiad Blynyddol 2018-2019 y Comisiynydd, sydd wedi ei gyhoeddi ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, (<http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Adroddiadau/Cyhoeddiadau/Pages/ManylionCyhoeddiad.aspx?PublicationId=91f5489c-74f2-4062-aa57-3d7995ff4480>). Yno gwelaf fod y costau cyfreithiol a chostau proffesiynol o dan yr un categori. Mae costau cyfieithu, er enghraifft, yn cael ei gategoreiddio yn y categori 'proffesiynol',

ynghyd â chostau archwilio mewnol. A dyma ddyfyniad perthnasol o'r Adroddiad:

> **"Cyfreithiol a phroffesiynol**
> Gall y gofynion amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, yn enwedig ar gostau paratoi ar gyfer ac amddiffyn achosion ger bron Tribiwnlys y Gymraeg".

Gan ei bod hi'n gallu cymryd degau os nad cannoedd o oriau i ddelio â chwyn/achos, mae'n dilyn bod delio â chwyn/achos yn gostus i'r Comisiynydd.

**Thema 1 yn gryno**

I grynhoi'r rhan hon, dyma'r thema rwyf yn ei gweld sydd wedi datblygu - mae'n ymddangos ers 2016:

- Mae sawl cais i'r Tribiwnlys wedi ymwneud ag arwyddion neu faterion unigol. Enghreifftiau o hyn yw achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, 17/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, 18/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, 18/3 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* a 19/4 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg.*
- Mae'r Comisiynydd mewn sawl achos wedi penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn sydd yn ymwneud ag arwyddion neu fater unigol oherwydd bod ymchwiliadau eraill cyffelyb neu ehangach wedi eu hagor/cynnal sydd yn ymchwilio i'r un egwyddor gydymffurfiol neu egwyddor gydymffuriol debyg (e.e. achos 18/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* a 19/4 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*).
- Pan na fydd Ceisydd/wyr yn deall gwaith y Comisiynydd (na gwaith y Tribiwnlys), maent yn gwneud cais i'r Tribiwnlys i herio penderfyniad y Comisiynydd (i beidio â chynnal ymchwiliad)
- Mae'r dystiolaeth yn dangos bod canran uchel o geisiadau i herio penderfyniad y Comisiynydd (i beidio â chynnal ymchwiliad), yn aflwyddiannus yn y Tribiwnlys.
- Y rheswm pam mae Ceiswyr yn aflwyddiannus yn eu cais yn y Tribiwnlys yw (yn gyffredinol) oherwydd bod y Tribiwnlys o'r farn nad oes disgwyliad rhesymol y byddai'r cais yn llwyddo (adran 103).
- Mae achosion 18/3 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* a 19/4 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, yn dangos bod posib gwneud hyd at dri chais yn y Tribiwnlys, yn ei hanfod, i herio penderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad. Y rheswm pam mae'r llwybrau hyn ar agor i Geiswyr yw sicrhau bod y Comisiynydd yn atebol i'r Tribiwnlys a'r Tribiwnlys ei hun yn atebol i banel annibynnol arall yn y Tribiwnlys.
- Mae'r math hyn o heriau cyfreithiol yn gostus o ran adnoddau dynol ac yn ariannol i'r Comisiynydd.
- Ymddengys fod y dystiolaeth yn awgrymu bod achwynydd/wyr yn gwneud ceisiadau i'r Tribiwnlys i geisio herio penderfyniad y Comisiynydd (i beidio ag agor ymchwiliad) os nad oedd y Comisiynydd yn penderfynu agor ymchwiliad, a hynny, hyd yn oed pan nad oedd gan y ceisiadau hynny un ai dim gobaith neu obaith isel iawn o lwyddo yn y Tribiwnlys.
- Mae'n ymddangos bod y math hwn o ymddygiad gan rai achwynwyr yn peri dilema i'r Comisiynydd: i un ai agor ymchwiliadau anghymesur i fodloni achwynydd/wyr, neu ymdrin â her i'r penderfyniad i beidio ag agor ymchwiliadau anghymesur. Mae ymdrin â her i ymchwiliad anghymesur, ei hun yn anghymesur.
- Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y cyn-Gomisiynydd yn dewis arfer ei disgresiwn i

agor mwy o ymchwiliadau na herio ceisiadau “costus a gwastraffus”[23] yn y Tribiwnlys.

- Mae’r un disgresiwn gan y cyn-Gomisiynydd a’r Comisiynydd presennol. Cyhyd â bod y Comisiynydd yn arfer y disgresiwn hwnnw o fewn terfynau’r gyfraith, penderfyniad y Comisiynydd yw sut mae’n arfer y disgresiwn hwnnw. Hynny yw, nid mater i achwynwyr/Ceiswyr nac i mi yw sut mae’r Comisiynydd yn dewis arfer y disgresiwn hwnnw.

| **Thema 1 - casgliad a barn yn gryno** |
|---|
| Yn fy marn i, mae’r dystiolaeth yn awgrymu nad nifer yr ymchwiliadau a agorwyd rhwng Ebrill a Mehefin 2019 sydd yn isel, ond nifer yr ymchwiliadau a agorwyd rhwng Ebrill a Mehefin 2018 oedd yn uchel (gwelwyd y cynnydd yn 2017 hefyd). |

## THEMA 2 - y Comisiynydd yn ildio i Geiswyr oherwydd cost ac amser delio ag achwynwyr ymgyfreithgar - neu yn osgoi craffu ar ei weithrediadau?[24]

Mae’r ail thema rwyf yn ei gweld yn amlygu ei hun yng nghwynion y Comisiynydd yn debyg i Thema 1, ond nid yn union yr un fath.

Roedd y dystiolaeth o dan fy Thema 1 yn awgrymu bod y Comisiynydd yn agor mwy o ymchwiliadau nag a fyddai’n cael eu hagor fel arall, oherwydd fel arall, byddai Ceisydd/wyr yn herio penderfyniadau’r Comisiynydd yn y Tribiwnlys, er nad oedd gan fwyafrif o’r ceisiadau un ai dim rhagolygon o lwyddo neu ragolygon isel iawn o lwyddo. Hynny yw, roedd penderfyniad y Comisiynydd yn ymddangos yn ddewis rhwng agor ymchwiliad anghymesur neu wynebu her a oedd, mae’n debyg, yn fwy anghymesur. Felly o dan fy Thema 1, nid oedd cwyn yr achwynydd/wyr yn cyrraedd y Tribiwnlys.

Yn wahanol i Thema 1, mae’r ail thema yn ymwneud â’r Comisiynydd yn un ai’n ildio i’r Ceisydd pan fydd cwyn y Ceisydd wedi cyrraedd y Tribiwnlys neu, yn dibynnu ar ganfyddiadau’r adolygiad hwn, yn osgoi craffu ar ei weithrediadau gan y Tribiwnlys. Amlinellaf isod y dystiolaeth o’r ceisiadau a’r achosion sydd i’w gweld yn disgyn i’r thema hon.

### Achos 16/1

Mae crynodeb o amlinelliad yr achos i’w weld yn y tabl isod (sydd yn gopi o ran o gofrestr y Tribiwnlys):

| | | |
|---|---|---|
| 2016/1<br>AB v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd nad oedd dyletswydd arni i ystyried ai i gynnal ymchwiliad neu beidio mewn | 20.04.2016: Caniatâd y Tribiwnlys i wneud cais - y Tribiwnlys o'r farn bod y cais yn codi cwestiwn o bwysigrwydd cyffredinol ar ddehongliad adran 93 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac felly bod rheswm cryf pam y dylai’r cais gael ei glywed. |

[23] Achos 18/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, para. 9

[24] Mae achos 19/1 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* hefyd yn disgyn i Thema 2, ond oherwydd rhesymau ffeithiol unigryw a rhesymau cyfreithiol technegol, rwyf yn rhoi’r achos hwnnw yn ei gategori ei hun o dan Thema 3

| | | |
|---|---|---|
| | perthynas â chwyn gan y ceisydd fod cyngor sir wedi peidio â chydymffurfio a Safon y Gymraeg. | 09.05.2016: datganiad achos y Comisiynydd; yn haeru nad oedd cwyn y ceisydd yn cydymffurfio â gofynion adran 93 o'r Mesur gan nad oedd enw defnyddiwr Twitter yn gyfeiriad a oedd yn cydymffurfio ag adran 93(5).<br><br>30.06.2016: y ceisydd yn tynnu'r cais yn ôl wedi i'r Comisiynydd dderbyn bod cyfeiriad Twitter yn cwrdd â gofynion adran 93(5) o'r Mesur. |

Fel yr wyf wedi pwysleisio drwy'r adroddiad hwn, y Tribiwnlys yw'r unig awdurdod ar y gyfraith. Fodd bynnag, rwyf o'r farn y byddai'n dda os byddai'r Tribiwnlys wedi cael y cyfle i roi dyfarniad ynglŷn â'r mater yn yr achos hwn. Mae ymchwiliad manwl i rinweddau'r achos hwn y tu hwnt i fy nghylch gorchwyl i ond ar yr wyneb, cwestiynaf os oes gofynion eraill y tu hwnt i'r Mesur yn berthnasol i'r mater yn y gŵyn hon, yn benodol yn ymwneud â rheolau cyflwyno cwyn, ac os oes, a yw'r gofynion hynny yn cael eu bodloni yma drwy barodrwydd y Comisiynydd i dderbyn cwynion drwy Twitter. Mater i gyfreithwyr y Comisiynydd yw cynghori ar y pwynt yna.

O ddarllen crynodeb achos 16/1, ymddengys i mi fod y Comisiynydd wedi ildio i'r Ceisydd.

**Achos 16/6**

Mae profiad tebyg i'r profiad yn achos 16/1 i'w weld yn achos 16/6. Mae crynodeb o amlinelliad yr achos i'w weld yn y tabl isod (sydd yn gopi o gofrestr y Tribiwnlys):

| | | |
|---|---|---|
| 16/6<br>EF v<br>CyG | Apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd mewn perthynas â chŵyn gan y Ceisydd, nad oedd Cyngor [redacted] wedi methu â chydymffurfio â Safon 60, a osodwyd ar y Cyngor gan Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd 30.9.2015 | 09.01.2017<br>Tynnwyd y cais yn ôl yn sgil penderfyniad y Comisiynydd, ar ôl adolygu ei phenderfyniad gwreiddiol, i ddyfarnu bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safon 60 ac i osod camau gorfodi ar y Cyngor. |

**Achos 18/2 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg**

Yn yr achos hwn, mae'r elfen o ildio i'w weld yn amlwg, a hynny oherwydd "cost ac amser".
Mae amlinelliad o'r achos i'w weld yn y tabl isod (wedi ei gopïo o gofrestr y Tribiwnlys) a chrynodeb o'r achos isod. Mae'r ffeithiau/naratif yn yr achos hwn yn berthnasol:

| | | |
|---|---|---|
| 18/2 [redacted] v CyG | Cais am adolygiad o ddau benderfyniad y Comisiynydd (16.2.18) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan Ceisydd. | 21.3.18: y Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i wneud y cais.<br><br>11.6.18: cais gan y Comisiynydd i ddileu'r Cais. |

**Y ffeithiau/naratif**

Yn yr achos hwn, hysbysodd y Comisiynydd y Ceisydd ei bod wedi penderfynu peidio â chynnal ymchwiliadau i ddwy gŵyn a wnaed gan y Ceisydd (ar 7 Rhagfyr 2017 a 11 Rhagfyr 2017) (cwyn CSG301 a CSG302). Roedd y ddwy gŵyn yn ymwneud ag arwyddion cyhoeddus.

Yn y ddau achos, y rheswm a roddodd y Comisiynydd am beidio ag ymchwilio i'r gŵyn oedd ei bod eisoes wedi agor "ymchwiliad eang i gydymffurfiaeth y Cyngor â safonau gosod arwyddion" ac y byddai agor ymchwiliadau i'r cwynion diweddaraf yn golygu "ymchwilio i'r un methiant ag sydd eisoes yn destun ymchwiliad gennyf" ac felly'n "ddefnydd "anghymesur o adnoddau ac yn debygol o fod yn dyblygu gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo". Roedd y Ceisydd yn ymwybodol o fodolaeth yr ymchwiliad a oedd eisoes ar droed (ymchwiliad CSG237). Yn wir, mae'n ymddangos mai nifer o gwynion yr oedd ef wedi eu gwneud i'r Comisiynydd y flwyddyn flaenorol oedd wedi sbarduno'r Comisiynydd i agor yr ymchwiliad hwnnw. Yn nyfarniad y Tribiwnlys, gwelir bod y Comisiynydd wedi anfon llythyr at y Ceisydd ar 21 Mehefin 2017 yn esbonio:

> "Rwyf wedi penderfynu felly i beidio â chynnal ymchwiliad unigol i bob un o'ch cwynion yn unigol; yn hytrach rwyf wedi defnyddio eich tystiolaeth i agor ymchwiliad cyffredinol i gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau perthnasol…"

Yr un, felly, oedd rheswm y Comisiynydd dros beidio â chynnal ymchwiliad i gwynion CSG301 a CSG302 a'r rheswm a roddwyd i'r Ceisydd dros beidio â chynnal

ymchwiliadau i'w gwynion cynharach, sef y byddai cynnal ymchwiliadau i gwynion penodol y Ceisydd yn dyblygu gwaith yr ymchwiliad "cyffredinol" (CSG237) yr oedd y Comisiynydd eisoes wedi ei gychwyn.

Nid oedd y Ceisydd wedi ceisio herio penderfyniad y Comisiynydd ym Mehefin 2017, i beidio ag ymchwilio i'w gwynion unigol. Ond erbyn Chwefror 2018 roedd agwedd y Ceisydd wedi newid, gan arwain at y cais hwn yn y Tribiwnlys. Roedd hynny am ei fod wedi disgwyl y byddai'n cael ei drin, mewn perthynas ag ymchwiliad CSG237, fel "person a chanddo fuddiant" ac felly'n cael mewnbwn i'r broses o setlo cylch gorchwyl yr ymchwiliad. Ond nid oedd y Comisiynydd yn cytuno oherwydd bod ymchwiliad CSG237 yn ymchwiliad eang a agorwyd gan y Comisiynydd ei hun, yn hytrach nag ym mherthynas â chwyn y Ceisydd.
Roedd y Ceisydd hefyd yn anhapus fod ymchwiliad CSG237 yn cymryd cymaint o amser i'w gwblhau, ac yn cael ei drin gan y Comisiynydd fel rheswm dros wrthod ymchwilio i gwynion newydd yn erbyn y cyngor dan sylw, mewn perthynas ag arwyddion cyhoeddus.

**Cais o dan adran 103**
Gwnaeth y Ceisydd gais i'r Tribiwnlys am ganiatâd i gael adolygiad o benderfyniadau diweddaraf y Comisiynydd i wrthod ymchwilio i'w gwynion, gan ddadlau nad oedd "sail gyfreithiol gadarn" i ymchwiliad CSG237, gan fod modd y Comisiynydd o gynnal yr ymchwiliad hwnnw yn ei amddifadu o'i hawliau fel "person a chanddo fuddiant".

Rhoddodd y Tribiwnlys ganiatâd i'r Ceisydd gael adolygiad.

**Y Comisiynydd yn ailystyried ei phenderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliadau**
Wedi i'r Comisiynydd gael ei hysbysu bod y Ceisydd wedi cael caniatâd i herio sail gyfreithiol ei phenderfyniadau i beidio â chynnal ymchwiliadau i gwynion CSG301 a CSG302, ysgrifennodd y Comisiynydd at y Ceisydd yn ei hysbysu ei bod hi wedi ailystyried y penderfyniadau hynny.

Yn y dyfarniad, dywed y Tribiwnlys (para. 9), mai'r rheswm dros hyn oedd y teimlai'r Comisiynydd y byddai'r achos Tribiwnlys yn golygu "cryn gost ac amser" iddi ac i'w staff ac y byddai'n "llai costus a gwastraffus" pe bai'n cytuno, wedi'r cyfan, i agor ymchwiliadau i gwynion CSG301 a CSG302 ynglŷn ag arwyddion (er ei bod hi eisoes wedi agor "ymchwiliad eang i gydymffurfiaeth y Cyngor â safonau gosod arwyddion" a bod y Ceisydd yn ymwybodol o hynny).

Nid oedd y Ceisydd, fodd bynnag, yn fodlon, gan ei fod am i'r Tribiwnlys ystyried y ffordd yr oedd y Comisiynydd wedi arfer ei swyddogaethau, yn benodol, y ffordd yr oedd hi wedi dibynnu ar fodolaeth ymchwiliad CSG237 fel rheswm dros wrthod ymchwilio i gwynion newydd yn erbyn yr un cyngor.

**Penderfyniad y Tribiwnlys**
Nid oes gan y Tribiwnlys awdurdodaeth dros gwynion pan mae'r Comisiynydd ei hun yn gwrthdroi'r penderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad.

**Arwyddocâd yr achos**

Mae'r dystiolaeth uniongyrchol sydd i'w gweld gan y cyn-Comisiynydd yn yr achos hwn, yn ymddangos i awgrymu ei bod yn "llai costus a gwastraffus" ildio i'r Ceisydd ac agor

ymchwiliad i gŵyn, nag ymdrin â chwyn yn y Tribiwnlys. Mae hynny yn ymddangos yn wir hyd yn oed pan mae'r Comisiynydd wedi agor "ymchwiliad eang i gydymffurfiaeth y Cyngor â safonau gosod arwyddion", ac y byddai agor ymchwiliadau i'r cwynion unigol yn golygu "ymchwilio i'r un methiant ag sydd eisoes yn destun ymchwiliad gennyf" ac felly'n ddefnydd "anghymesur o adnoddau ac yn debygol o fod yn dyblygu gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo".

Mae'r amgylchiadau yma yn dangos fel y gall Ceisydd roi'r Comisiynydd mewn sefyllfa o 'orfod' ildio ac agor ymchwiliadau oherwydd y gost a'r amser o ymdrin â chwyn yn y Tribiwnlys, heb unrhyw ystyriaeth i rinweddau'r gŵyn (megis yn achos 16/1), na'r ffordd fwyaf effeithlon i "hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg", megis yn yr achos hwn ac achos 16/6). Gall yr amgylchiadau hyn gyfrannu yn rhannol tuag at gynnydd yn yr ymchwiliadau yng nghyfnod Ebrill-Mehefin 2018.

**Y Comisiynydd yn osgoi sefyllfa lle byddai'r Tribiwnlys yn craffu ar ei g/weithrediadau**

Yr ochr arall i'r ddadl o dan Thema 2 yw bod y Comisiynydd yn ildio yn y Tribiwnlys ac yn agor ymchwiliad i osgoi sefyllfa lle byddai'r Tribiwnlys yn craffu ar ei g/weithrediadau. Yn sicr mae hyn yn ddadl theoretig. Fodd bynnag, nid wyf yn argyhoeddedig ei bod hi'n bosib cynnal y ddadl honno oherwydd sawl rheswm.

I ddechrau, roedd dyfarniad achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg,* ym mis Mehefin 2017, wedi ei gwneud yn glir beth oedd dyletswyddau'r Comisiynydd - i achwynwyr a'r Comisiynydd fel ei gilydd. Roedd canllawiau'r Tribiwnlys yn glir. Awdurdodaeth i graffu ar y modd y cyrhaeddodd y Comisiynydd y penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad sydd gan y Tribiwnlys, nid awdurdodaeth i graffu ar y penderfyniad hwnnw ei hun. Fel y dywedodd y Tribiwnlys (achos 17/2, para. 15), nid yw penderfynu a yw'r Gymraeg wedi cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn farn i'r Tribiwnlys ac nid yw'n unrhyw ran o rôl y Tribiwnlys i ymyrryd â'r farn honno, cyhyd â bod y farn honno wedi'i harfer oddi mewn i'r terfynau cyfreithiol. Mae pŵer y Tribiwnlys yn cynnwys y pŵer i ddiddymu penderfyniad y Comisiynydd a'i anfon yn ôl at y Comisiynydd gyda chyfarwyddyd ar gyfer ei ailystyried (adran 104). Felly pan fydd adolygiadau o benderfyniadau'r Comisiynydd yn llwyddo yn y Tribiwnlys, mae'n bosib y bydd y Comisiynydd yn cyrraedd yr un penderfyniad eilwaith, ond yr eildro, o dan ganllawiau'r Tribiwnlys. Rhaid hefyd ystyried bod derbyn canllawiau'r Tribiwnlys o fudd i'r Comisiynydd, nid yn 'fethiant', hyd yn oed pan mae'r Ceisydd yn llwyddo. Felly cwestiynaf, pa reswm sydd gan y Comisiynydd i osgoi craffu gan y Tribiwnlys ar y gweithrediadau. Deallaf nad yw Ceiswyr yn cydfynd â phenderfyniad y Comisiynydd; ond mae craffu ar y penderfyniad hwnnw, ynddo'i hun, y tu hwnt i awdurdodaeth y Tribiwnlys, oherwydd, fel yr eglurodd y Tribiwnlys (yn achos 18/3, para 22), "mae'n rhaid i'r Comisiynydd, wrth weithredu'r system, gael elfen o ddisgresiwn i ganolbwyntio adnoddau ar weithgareddau a fydd yn cyflawni'r budd mwyaf".

Ffactor arall sydd yn cyfrannu tuag at y ffaith nad wyf yn argyhoeddedig bod modd cefnogi'r ddadl bod y Comisiynydd yn osgoi craffu cyhoeddus ar y gweithrediadau yw'r ffaith bod y Comisiynydd wedi datgelu deunydd megis yr ohebiaeth rhwng y Comisiynydd a Gweinidog y Gymraeg, i Gymdeithas yr Iaith. Nid wyf yn gweld bod gan y Comisiynydd lawer i elwa ohono wrth osgoi sefyllfa lle byddai'r Tribiwnlys yn craffu ar y gweithrediadau - ar wahân i arbed costau adnoddau dynol ac ariannol.

Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth yn fy arwain yn ôl at dystiolaeth uniongyrchol y Comisiynydd yn achos 18/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg,* ynglŷn â'r gost a'r amser o ymdrin â chwyn yn y Tribiwnlys. Ymddengys fod y dystiolaeth yn awgrymu bod y Comisiynydd yn ailystyried y penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad, yn hytrach na dadlau achos yn y Tribiwnlys oherwydd "costau ac amser". Mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyn yn arwain at gynnydd yn nifer yr ymchwiliadau.

**Thema 2 yn gryno**

- Un ochr i'r ddadl yw bod y Comisiynydd yn ildio i Geiswyr oherwydd cost ac amser delio ag achwynwyr ymgyfreithgar
- Yr ochr arall i'r ddadl yw bod y Comisiynydd yn osgoi craffu cyhoeddus ar ei weithrediadau
- Wedi ystyried y dystiolaeth rwyf o'r farn bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y Comisiynydd yn ailystyried rhai penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad, yn hytrach na dadlau achos yn y Tribiwnlys oherwydd "costau ac amser".
- Mae'r dystiolaeth yn dangos bod yr arfer hwn yn arwain at gynnydd yn nifer yr ymchwiliadau.
- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr arfer yma yn digwydd ers 2016.

| **Thema 2 - casgliad a barn yn gryno** |
|---|
| Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y Comisiynydd yn ailystyried rhai penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad, yn hytrach na dadlau achos yn y Tribiwnlys, oherwydd "costau ac amser".<br>Mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyn yn arwain at gynnydd yn nifer yr ymchwiliadau. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr arfer yma yn digwydd ers 2016. |

| **Sylw** |
|---|
| Ymddengys i mi fod rhai achwynwyr/Ceiswyr wedi ceisio gwneud elfen o swydd y Comisiynydd yn gaeth i'w syniadau nhw o swyddogaeth y Comisiynydd, yn hytrach nag i gysyniad y Cynulliad Cenedlaethol o'r disgresiwn yn y Mesur a phenderfyniadau'r Tribiwnlys.<br><br>Yn achos 18/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, penderfynodd y Comisiynydd beidio ag agor ymchwiliadau i gwynion y Ceisydd am arwyddion unigol oherwydd ei bod hi wedi agor "ymchwiliad eang i gydymffurfiaeth y Cyngor â safonau gosod arwyddion" yn dilyn ei gwynion blaenorol. Roedd y Comisiynydd o'r farn y byddai agor ymchwiliadau i'r cwynion diweddaraf yn golygu "ymchwilio i'r un methiant ag sydd eisoes yn destun ymchwiliad gennyf" ac felly'n "ddefnydd "anghymesur o adnoddau ac yn debygol o fod yn dyblygu gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo". Er hynny, heriodd y Ceisydd benderfyniad y Comisiynydd yn y Tribiwnlys.<br><br>Mae'n anodd gweld sut roedd agor ymchwiliadau i gwynion y Ceisydd am arwyddion unigol yn gymesur, pan fod y Comisiynydd eisoes wedi agor ymchwiliad eang i gydymffurfiaeth y Cyngor â safonau gosod arwyddion. |

O ddarllen y ffeithiau, rwyf o’r farn fod yr ymagwedd hon ar ran y Ceisydd yn fyr-ei-olwg: roedd y cynigion arfaethedig ym Mhapur Gwyn Bil y Gymraeg, ‘Taro’r Cydbwysedd Iawn’ (<https://llyw.cymru/bil-y-gymraeg-papur-gwyn>) yn cynnwys cynigion i “leihau biwrocratiaeth” neu symleiddio’r prosesau sy’n gysylltiedig â’r system Safonau. Cyhoeddwyd hwn yn Awst 2017. Cwestiynaf a oedd yr ymagwedd sydd i’w gweld yn yr achos hwn, ymysg achosion a chwynion eraill, wedi cyfrannu tuag at y cynigion hynny.

Ers i’r Mesur ddod i rym a sefydlu swyddfa’r Comisiynydd, mae’r hinsawdd wleidyddol wedi ‘caledu’. Mae’r wlad wedi gweld twf UKIP, Brexit a gweinyddiaeth Brydeinig sydd yn bleidiol i ‘Brydain un genedl’. Mae arweinydd y Ceidwadwyr yn y Cynulliad, Paul Davies, wedi dweud[25] na fydd yn cynyddu cyllideb y corff sy’n gyfrifol am redeg y Cynulliad, os bydd ei blaid yn cipio grym yn etholiad nesaf y Cynulliad. Mae wedi addo haneru nifer y gweinidogion yng Nghymru i saith a rhewi recriwtio gweision sifil. Yng nghynhadledd ei blaid dywedodd na fyddai’n dileu’r Cynulliad, ond bod angen gwrando ar y rhai sydd am wneud hynny. Mae rhagolygon yn awgrymu bod gan y blaid ‘*Abolish the Welsh Assembly’* siawns o ennill seddi yn 2021[26]. Mae rhai ohonom wedi byw drwy flynyddoedd cyn y Mesur, cyn creu swydd a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, cyn y Cynulliad a thrwy flynyddoedd o ymgyrchu i ennill yr hawliau hynny. Nid ydym am weld erydiad o’r hawliau yn y Mesur. Dyma dynnu sylw Cymdeithas yr Iaith at risgiau ehangach i ddefnydd o’r Gymraeg a all ddatblygu o dan gyfundrefn wleidyddol wahanol. Felly anogaf Ms Ruth a Grŵp Hawl Cymdeithas yr Iaith i ystyried sgil-effaith eu gweithgarwch ar ddyfodol y gwaith statudol sydd eisoes yn bodoli i hybu a hwyluso defnydd o’r Gymraeg.

Rwyf yn llawn werthfawrogi fod rhai ohonom yn teimlo’n rhwystredig nad yw rhai cyrff cyhoeddus eto yn cydymffurfio’n ddigonol â’u dyletswyddau cyfreithiol o dan y Safonau. Ond rhaid ystyried beth sydd fwyaf adeiladol i hybu a hwyluso defnydd o’r Gymraeg, rŵan ***ac*** yn yr hirdymor: rhwymo gweithrediadau’r Comisiynydd a’i swyddfa, ac efallai gyfrannu tuag at hyd yn oed ddinistrio’r penodiad statudol a’r swyddfa, ynteu ystyried sut i fod o gymorth i gefnogi hybu a hwyluso defnydd o’r Gymraeg, rŵan ***ac*** yn yr hirdymor.

Mae gweithrediadau'r Comisiynydd yn amlochrog. Mae’n cynnwys hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg drwy reoleiddio a thrwy ddulliau eraill. Mae’r Llywodraeth wedi rhoi'r pŵer hwn i’r Comisiynydd oherwydd bod dealltwriaeth bod angen ymagwedd amlochrog i’r swydd a’r gwaith i fod yn llwyddiant. Os nad yw gwaith “perswadiol,”[27] diplomataidd y Comisiynydd yn effeithiol gyda rhai cyrff cyhoeddus, mae’r pwerau rheoleiddiol ar gael pe bai angen. Dyna, yn fy marn i, yw model o reoleiddio da.

## THEMA 3 – achos 19/1 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* ac atebolrwydd y Comisiynydd

### Tebygrwydd gyda Thema 2

Mae achos 19/1 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, mewn ffordd, yn disgyn i Thema 2 hynny yw, fe newidiodd y Comisiynydd y penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad pan oedd yr achos yn y Tribiwnlys, a oedd yn golygu nad oedd gan y Tribiwnlys, mwyach, awdurdodaeth dros yr achos. Ond roedd ffeithiau unigryw yn yr achos hwn, oedd yn codi cwestiynau cyfreithiol gwahanol i’r achosion eraill yn Thema 2. Dyna pam rwyf yn rhoi’r achos hwn yn ei gategori ei hun.



[25] https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/51757865
[26] https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-51510076
[27] Achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, para. 26

**Atebolrwydd y Comisiynydd**

Mae'r Mesur yn gwneud y Comisiynydd yn atebol mewn sawl ffordd. Mae Mesur y Gymraeg yn gwneud y Comisiynydd yn atebol i Lywodraeth Cymru (adran 119, ymysg eraill), i drethdalwyr (adran 18, ymysg eraill) ac i achwynwyr (adran 94, ymysg eraill).

**Atebolrwydd y Comisiynydd i'r trethdalwyr a'r Llywodraeth**

Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar y Comisiynydd i lunio Adroddiadau Blynyddol (adran 18) ac Adroddiadau 5-mlynedd (adran 5).

**Atebolrwydd i'r Llywodraeth**

Mae'r Mesur, hefyd, yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiynydd (adran 16), ond nid mewn perthynas ag ymchwilio i fethiant i gydymffurfio â safonau (ymysg materion eraill). Mae'r Mesur yn glir bod yn "rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru".

Nid oes awdurdod gennyf i fynegi barn ynglŷn ag unrhyw Weinidog, gan gynnwys Gweinidog y Gymraeg. Fodd bynnag, rwyf yn awgrymu bod ystyr yr eithriad yn yr adran hon yn gyfyngedig i gwynion/ymchwiliadau unigol, nid i gwynion/ymchwiliadau mewn egwyddor. Ond wrth gwrs, y Tribiwnlys yw'r unig un ag awdurdod i bennu ystyr adrannau yn y Mesur.

**Atebolrwydd i achwynwyr**

Mae'r Mesur yn gwneud y Comisiynydd yn atebol i achwynwyr drwy osod dyletswydd ar y Comisiynydd i roi rhesymau i achwynwyr dros beidio â chynnal ymchwiliad i'w cwyn (adran 94). Mae'r Mesur hefyd yn gwneud y Comisiynydd yn atebol i achwynwyr drwy adran 103, sydd yn rhoi'r hawl i achwynwyr/Ceiswyr wneud cais i'r Tribiwnlys am adolygiad barnwrol o weithrediadau'r Comisiynydd wrth gyrraedd y penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad.

**Achos 19/1 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*[28]**

Yng nghyd-destun atebolrwydd y Comisiynydd i achwynwyr, cefais fy nennu at achos 19/1 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* a hynny oherwydd ar yr wyneb, bod tebygrwydd rhwng yr achos hwn â chwyn Cymdeithas yr Iaith. Mae cofrestr y Tribiwnlys yn dweud bod y Ceisydd wedi gwneud cais i'r Tribiwnlys am orchymyn i'r Comisiynydd ddatgelu cynllun gweithredu y cyfeiriwyd ato gan y Comisiynydd yn ei resymau dros wrthod ymchwilio i gŵyn y Ceisydd.

Rwyf yn gweld yr achos hwn yn codi ystyriaethau *tebyg* (ond nid yn union yr un fath) i gŵyn Cymdeithas yr Iaith. Mae'r achos yn achos cyfreithiol dechnegol, felly rwyf ond yn trafod yr achos yn y manylder rwyf o'r farn sydd ei angen i gymharu'r achos gyda chŵyn Cymdeithas yr Iaith. Dechreuaf drwy grynhoi'r ffeithiau/naratif fel y'u hadroddwyd gan y Tribiwnlys yn y dyfarniad.

**Ffeithiau/naratif yr achos**



[28] Gwnaed y gŵyn o dan ddeiliadaeth y cyn-Gomisiynydd a pharhaodd yr achos wedi i'r Comisiynydd presennol gael ei benodi, felly mae'r adroddiad o'r achos yn cynnwys cyfeiriad at y Comisiynydd yn fenywaidd ac yn wrywaidd.

Ym mis Ionawr 2019, gwnaeth y Ceisydd nifer o gwynion i'r Comisiynydd yn honni nifer o fethiannau gan ei gyngor lleol i gydymffurfio â'i ddyletswyddau dan safonau'r Gymraeg. Er i'r Comisiynydd gytuno i gynnal ymchwiliadau i sawl un o gwynion y Ceisydd, penderfynodd beidio â gwneud hynny yng nghyswllt y gŵyn hon, oedd yn ymwneud â'r cyngor yn methu â defnyddio cyfeiriad Cymraeg yr achwynydd/Ceisydd fel y gofynnodd iddynt, a hynny oherwydd rhesymau technegol yn ymwneud â'u cyflenwyr meddalwedd. Fodd bynnag, derbyniodd y Comisiynydd fod yr arfer yr oedd y Ceisydd wedi cwyno amdano yn anghyson â dyletswydd y cyngor dan y safon berthnasol. Roedd ei rhesymau dros wrthod ymchwilio i'r gŵyn yn ymwneud â'r ffaith bod y gŵyn yn debyg i gŵyn flaenorol gan aelod arall o'r cyhoedd, a oedd eisoes wedi bod yn destun ymchwiliad gan y Comisiynydd, ac wedi ei gadarnhau gan y Comisiynydd.

Roedd y Comisiynydd yn barod, wedi gosod camau gorfodaeth ar y cyngor dan sylw ynglŷn â'r gŵyn/ymchwil flaenorol. Yn benodol, yn ei llythyr at y Ceisydd, cyfeiriodd at y ffaith ei bod hi wedi ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor baratoi "cynllun gweithredu" o dan adran 77(3)(a) o'r Mesur. Cyfeiriodd at ddyfyniad o'r cynllun gweithredu hwnnw yn ei llythyr at y Ceisydd. Un o'r camau a oedd wedi ei gynnwys yn y cynllun oedd i'r cyngor newid un arfer penodol erbyn 5 Medi 2019 (sef sicrhau bod tendrau newydd ar gyfer cytundebau meddalwedd a ddefnyddir i greu llythyrau a biliau yn cynnwys y dewis o fersiwn Cymraeg a Saesneg o gyfeiriadau cartrefi). Felly, daeth y Comisiynydd i benderfyniad na fyddai cynnal ymchwiliad i gŵyn y Ceisydd yn ddefnydd effeithlon o adnoddau ac na fyddai cynnal ymchwiliad, pe byddai methiant arall yn cael ei ganfod, yn debygol o'i harwain i osod camau gweithredu gwahanol i'r rhai o osodwyd yn barod.

**Her y Ceisydd**

Ceisiodd y Ceisydd herio penderfyniad y Comisiynydd ar ddwy sail, sef i) nad oedd y cynllun gweithredu yn sail gyfreithlon dros wrthod ymchwilio i gŵyn newydd y Ceisydd; a ii) hyd yn oed os oedd y cynllun yn berthnasol i gŵyn y Ceisydd, ei bod yn afresymegol trin y cynllun fel rheswm pendant dros beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn y Ceisydd.

**Y cais cyntaf (adran 103)**

Yn y lle cyntaf, gwrthododd Llywydd y Tribiwnlys ganiatâd i'r Ceisydd i wneud cais.

**Cais am ailystyriaeth (Rheol 16(8) o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015)**

Penderfynodd y Ceisydd arfer ei hawl i ofyn am ailystyriaeth gan banel o aelodau'r Tribiwnlys (Rheol 16(8) o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015).

Fodd bynnag, yn y cais am ailystyriaeth, gwnaeth y Ceisydd hefyd gais yn gofyn i'r Tribiwnlys orchymyn i'r Comisiynydd ddatgelu'r cynllun gweithredu y cyfeiriwyd ato gan y Comisiynydd yn ei rhesymau dros wrthod ymchwilio i gŵyn y Ceisydd. Felly roedd dau gais erbyn hyn sef:

- **Cais 1** - yn gofyn am ddatgelu'r cynllun gweithredu, a
- **Cais 2** - yn gofyn am ganiatâd i wneud cais i adolygu arferion y Comisiynydd yn cyrraedd ei phenderfyniad.

Y cynllun gweithredu dan sylw oedd cynllun gweithredu o dan adran 77(3)(a) o Fesur y Gymraeg, sydd yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ei gwneud hi'n ofynnol bod cyngor yn paratoi "cynllun gweithredu" at ddiben "atal methiant [y corff cyhoeddus] i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd".

**Penderfyniad y Comisiynydd ynglŷn â datgelu copi o'r cynllun gweithredu**

Pan wnaeth y Ceisydd gais i'r Comisiynydd am gopi o'r cynllun gweithredu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gwrthododd y Comisiynydd ei ddatgelu o dan adran 22 y Mesur (ynglŷn â phŵer i ddatgelu gwybodaeth).

**Penderfyniad y Tribiwnlys o dan Gais 1 - datgelu copi o'r cynllun gweithredu**

Dywedodd y Tribiwnlys (para. 19) bod yn "rhaid i gynnwys llawn y cynllun gweithredu… gael ei ddatgelu, oni bai fod rhesymau eithriadol dros beidio".

Yng nghyd-destun y cais i ddatgelu'r cynllun, daeth y Tribiwnlys i'r casgliad nad oedd "yn barod i gymryd y cam eithriadol o orchymyn bod y Comisiynydd yn datgelu'r cynllun gweithredu cyn ystyried a ddylid rhoi caniatâd neu beidio" i gais y Ceisydd am ganiatâd i wneud cais i adolygu arferion y Comisiynydd yn cyrraedd i benderfyniad.

**Penderfyniad y Tribiwnlys o dan Gais 2 - cais am ganiatâd i wneud cais i adolygu arferion y Comisiynydd**

Yng nghyd-destun y cais yn gofyn am ganiatâd i wneud cais i adolygu arferion y Comisiynydd yn cyrraedd ei phenderfyniad, ystyriodd y Tribiwnlys yr her i'r ffaith bod y Comisiynydd wedi selio ei phenderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad yn gyfan gwbl ar y cynllun gweithredu dan sylw. Wrth gyrraedd ei gasgliad, mabwysiadodd y Tribiwnlys iaith yr Arglwydd Ustus Flaux yn achos *Secretary of State for the Home Department v MS* [2018] EWCA Civ 594, gan ddweud: "Er ei bod yn glir na all y Tribiwnlys… ymyrryd yn uniongyrchol â'r cynllun gweithredu… fe allai yn ein barn ni ofyn iddo'i hun a ellid disgrifio'r cynllun hwnnw, a oedd yn ganolog i reswm y Comisiynydd dros wrthod ymchwilio i gŵyn y Ceisydd, fel un "perverse, irrational or one which was not open" i'r Comisiynydd ei gymeradwyo.

Aeth y Tribiwnlys ymlaen i ddweud, "Efallai pan fydd darpariaethau llawn y cynllun gweithredu'n cael eu hystyried y bydd dadleuon y Ceisydd… yn troi allan i fod yn seiliedig ar gamsyniad. Ond heb weld y cynllun gweithredu, mae'n ymddangos bod ganddynt o leiaf obaith rhesymol o lwyddo". Ac felly, gorchmynnodd y Tribiwnlys i'r cynllun gweithredol gael ei ddatgelu. Wrth ddod i'r casgliad hwn, dyfynnodd y Tribiwnlys eiriau'r Arglwydd Bingham yn *Tweed v Parades Commission for Northern Ireland* [2006] UKHL 53 (para. 4) fel un o'r rhesymau dros y gorchymyn, sef: "Where a public authority relies on a document as significant to its decision, it is ordinarily good practice to exhibit it as the primary evidence".

Felly'r ffaith ddiddorol yma yw bod y Tribiwnlys, yn y cais i ddatgelu'r cynllun gweithredu, wedi gwrthod y cais hwnnw, ond bod yr un Tribiwnlys, mewn cais i gael caniatâd i wneud cais i adolygu arferion y Comisiynydd, wedi rhoi gorchymyn i ddatgelu'r cynllun gweithredu, a hynny at bwrpas darganfod os oedd y cynllun hwnnw yn un "perverse, irrational or one which was not open" i'r Comisiynydd ei gymeradwyo. I'r perwyl hwn, mae'n bwysig deall na fyddai gan y Tribiwnlys bŵer pellach i gymeradwyo cynnwys y cynllun gweithredu.

**Y Comisiynydd yn gwrthdroi'r penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad**

Yn dilyn y cais a gorchymyn y Tribiwnlys, gwnaeth y Comisiynydd benderfynu gwrthdroi penderfyniad gwreiddiol y Comisiynydd a chynnal ymchwiliad i gŵyn y Ceisydd (nid yw'n berthnasol mai'r cyn-Gomisiynydd wnaeth y penderfyniad gwreiddiol ac mai'r Comisiynydd presennol wnaeth y penderfyniad terfynol). Roedd y Tribiwnlys yn achos

18/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg* eisoes wedi dod i'r casgliad nad oes gan y Tribiwnlys awdurdodaeth i glywed achosion pan mae'r Comisiynydd yn gwrthdroi penderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad i gŵyn. Fodd bynnag, yn yr un modd ag y gwnaeth y Ceisydd yn achos 18/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, gofynnodd y Ceisydd yn achos terfynol 19/1 i'r Tribiwnlys ystyried y ffordd yr oedd y Comisiynydd wedi arfer ei swyddogaethau. Dadleuodd y Ceisydd fod y Comisiynydd yn newid y penderfyniad ac yn cytuno i agor ymchwiliad dim ond er mwyn osgoi gwrandawiad, ac yna ddim yn gwneud cynnydd yn yr ymchwiliad.

**Cysoni'r ddau gais yn achos 19/1 - un yn gwrthod rhoi gorchymyn i ddatgelu'r cynllun gweithredu a'r llall yn gorchymyn ei ddatgelu**

Er nad oes gan y Tribiwnlys awdurdodaeth dros y mater pan mae'r Comisiynydd yn gwrthdroi penderfyniad i beidio ag ymchwilio i gŵyn, mae her y Ceisydd yn achos 19/1 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*, ar yr wyneb, yn codi cwestiynau pwysig yng nghyd-destun atebolrwydd y Comisiynydd. Hynny yw, sut mae cyfiawnhau a chysoni'r ffaith bod y Tribiwnlys yn rhoi gorchymyn i ddatgelu'r cynllun gweithredu at ddiben gwneud cais i adolygu arferion y Comisiynydd, ac ar y llaw arall, bod y Comisiynydd yn gallu newid y penderfyniad ac agor ymchwiliad, ac wrth wneud hynny, osgoi datgelu'r cynllun gweithredu?

Ar yr wyneb mae'n ymddangos fel bod rhesymau amheus dros osgoi datgelu'r cynllun gweithredu. Fodd bynnag, i ateb y cwestiwn hwn yn foddhaol, rhaid ystyried dau beth: 1. Y gwahaniaeth rhwng y ddau wahanol gais; a 2. Y gwahaniaeth rhwng swyddogaethau'r Comisiynydd a'r Tribiwnlys.

**Y gwahaniaeth rhwng y ddau gais**

Yng nghais 1, cafodd y cais am orchymyn i ddatgelu'r cynllun gweithredu ei wrthod gan y Tribiwnlys; yr unig amod y cafodd y gorchymyn i ddatgelu'r cynllun gweithredu ei wneud yng nghais 2 oedd at ddiben gwneud cais i gael adolygu arferion y Comisiynydd yn cyrraedd ei phenderfyniad. Hynny yw, roedd y Tribiwnlys angen gweld y cynllun gweithredu i wneud eu penderfyniad yng nghais y Ceisydd am gael adolygiad o arferion y Comisiynydd. Fel y dywedodd y Tribiwnlys yn y cais (Cais 2) (para. 16), "efallai pan fydd darpariaethau llawn y cynllun gweithredu'n cael eu hystyried y bydd dadleuon y Ceisydd… yn troi allan i fod yn seiliedig ar gamsyniad…" ac na fyddant yn berthnasol. Ond heb weld y cynllun gweithredu, mae'n amhosib dweud.

Mae eglurhad dros y gwahaniaeth rhwng y ffaith bod caniatâd wedi ei roi yng Nghais 2 (sef cais am ganiatâd i wneud cais i adolygu arferion y Comisiynydd), ond ddim yng Nghais 1 (sef cais am orchymyn i ddatgelu copi o'r cynllun gweithredu), i'w gael yn y ffaith mai awdurdodaeth i graffu ar y modd y cyrhaeddodd y Comisiynydd y penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad sydd gan y Tribiwnlys, nid awdurdodaeth i graffu ar y penderfyniad hwnnw ei hun.

Roedd y Comisiynydd wedi gwrthod datgelu'r cynllun gweithredu o dan adran 22 o'r Mesur. Yng nghyd-destun penderfyniad y Comisiynydd, nid oedd gan y Tribiwnlys awdurdodaeth ynglŷn â'r cynllun gweithredu; ond yng nghyd-destun edrych a oedd y cynllun gweithredu yn berthnasol i gŵyn y Ceisydd, fe oedd golwg ar y cynllun

gweithredu yn berthnasol, ac yn y cyswllt hwn roedd gan y Tribiwnlys awdurdodaeth.

**Y rheswm dros wahaniaethu rhwng y ddau gais: gwahaniad pwerau**

Yr athrawiaeth gyfansoddiadol sydd yn egluro'r gwahaniaeth rhwng pwerau'r Comisiynydd a phwerau'r Tribiwnlys yw athrawiaeth gwahaniad pwerau rhwng awdurdodaeth adrannau cyhoeddus ac awdurdodaeth y llysoedd.

Nod y Comisiynydd yw "hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg" (adran 3), a hynny drwy "wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei dyb ef mewn cysylltiad ag unrhyw un o'i swyddogaethau" (adran 11), cyhyd â'i fod yn arfer ei disgresiwn/ddisgresiwn o fewn y gyfraith. Yng nghyd-destun achos 19/1, pau'r Comisiynydd oedd cymeradwyo a sicrhau cydymffurfiaeth y corff cyhoeddus dan sylw a'r cynllun gweithredu hwnnw.

Nod y Tribiwnlys, ar y llaw arall, yw sicrhau bod y Comisiynydd yn arfer y disgresiwn hwnnw o fewn terfynau cyfreithiol, hynny yw, yng nghyd-destun yr achos 19/1, i ddarganfod a oedd y cynllun gweithredu yn un "perverse, irrational or one which was not open" i'r Comisiynydd ei gymeradwyo.

Mae'r gwahaniaeth rhwng pwerau'r Comisiynydd a phwerau'r Tribiwnlys yn un cynnil, ond yn un cyfansoddiadol bwysig.

**Honiad y Ceisydd yn achos 19/1**

I ddychwelyd at honiad y Ceisydd yn achos 19/1, bod y Comisiynydd yn osgoi gwrandawiad, mae'n rhaid deall y pwyntiau canlynol: rhoddodd y Tribiwnlys orchymyn i'r cynllun gweithredu gael ei ddatgelu at bwrpas cul a hynny oedd i'r Tribiwnlys edrych a oedd y cynllun gweithredu yn "perverse, irrational or one which was not open" i'r Comisiynydd ei gymeradwyo. Dim ond wedi datgelu'r cynllun gweithredu, byddai'r Tribiwnlys yn gallu gweld a oedd y cynllun gweithredu yn berthnasol i'r gŵyn, hynny yw, efallai na fyddai ac os felly, ni fyddai ystyriaeth yn cael ei gwneud o'r cynllun gweithredu.

Mae'r gweithdrefnau cyfreithiol yn yr achos hwn yn gallu bod yn ddryslyd; hefyd, efallai bod yr athrawiaeth sydd yn creu deuoliaeth rhwng swyddogaeth y Comisiynydd a swyddogaeth y Tribiwnlys yn newydd i rai, ond dyma'r drefn gyfansoddiadol. Mae'n rhaid, felly, bod yn glir o'r terfynau rhwng swyddogaeth y Comisiynydd a swyddogaeth y Tribiwnlys i lawn ddeall gweithrediad y gyfraith yn y maes hwn.

**Swyddogaeth a disgresiwn y Comisiynydd**

Diben y system Safonau yw newid ymddygiad awdurdodau cyhoeddus (achos 18/3, para. 21). Yn achos 19/1, gwyddom fod y Comisiynydd eisoes wedi gosod camau gorfodi ar y cyngor dan sylw ynglŷn â'r gŵyn/ymchwil flaenorol, ac mai rhan o'r camau hynny oedd i'r cyngor baratoi cynllun gweithredu. Yn y Comisiynydd y mae'r panel penodi wedi ymddiried y pŵer i fonitro cydymffurfiaeth â'r Safonau, nid yn y Tribiwnlys na'r Ceisydd. Y Comisiynydd (a'i dîm) fydd yn gwybod beth fydd y "budd mwyaf" (achos 18/3, para. 22) i gyflawni amcanion y Mesur ac fel eglurodd y Tribiwnlys (yn achos 19/1, para. 12), ni fyddai gan y Tribiwnlys unrhyw sail ar gyfer ymyrryd â'r disgresiwn hwnnw, gan gynnwys cymeradwyo'r cynllun gweithredu.

**Y gwahaniaeth rhwng achos 19/1 a chwyn Cymdeithas yr Iaith**

Yn dilyn dadansoddiad o achos 19/1, gwelaf ddau wahaniaeth rhwng y cynllun gweithredu yn yr achos, a'r canllawiau mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am eu datgelu gan y Comisiynydd yn y gŵyn hon. Oherwydd bod y Tribiwnlys yn glir fod amgylchiadau pob cwyn yn amrywio, ac nad yw'n bosib darparu canllawiau cynhwysfawr (achos 16/8, para. 27), nid yw'n bosib i'r Comisiynydd ddarparu a bod yn ei feddiant ganllawiau cynhwysfawr. Yn wahanol i'r cynllun gweithredu yn achos 19/1, oedd yn sefydlog, mae'n amhosibl i'r Comisiynydd ddarparu canllawiau unffurf, sefydlog (yn dilyn achos 16/8) i'w datgelu.

**Thema 3 yn gryno**

- Mae'r Comisiynydd yn atebol i drethdalwyr, i'r Llywodraeth ac i achwynwyr.
- Mae'r Comisiynydd yn atebol i achwynwyr drwy adran 94 sydd yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i roi rhesymau i achwynwyr dros beidio â chynnal ymchwiliad i'w cwyn.
- I ddeall y gwahaniaeth rhwng swyddogaeth y Comisiynydd a swyddogaeth y Tribiwnlys, mae'n rhaid deall yr egwyddor gyfansoddiadol o wahaniad pwerau.
- Mae'r egwyddor gyfansoddiadol o wahaniad pwerau yn golygu bod pŵer gan y Tribiwnlys i adolygu arferion y Comisiynydd wrth gyrraedd ei benderfyniad, ond nid oes gan y Tribiwnlys bŵer i adolygu'r penderfyniadau hynny.
- I ddeall achos 19/1 [redacted] *v Comisiynydd* y Gymraeg, rhaid deall egwyddor gyfansoddiadol gwahaniad pwerau.

| **Thema 3 - casgliad a barn yn gryno** |
| --- |
| Mae'r Comisiynydd yn atebol mewn sawl ffordd gan gynnwys drwy broses adolygiad barnwrol (adran 103). O dan y broses honno, mae pŵer gan y Tribiwnlys i adolygu arferion y Comisiynydd wrth gyrraedd ei benderfyniad, ond nid i adolygu'r penderfyniadau hynny eu hunain (adran 103). Hynny yw, nid oes gan y Tribiwnlys unrhyw awdurdodaeth i ymyrryd yn nisgresiwn y Comisiynydd (achos 19/1, para. 12). Dyma egwyddor gwahaniad pwerau. |
| Yn y Comisiynydd y mae'r panel penodi wedi ymddiried y pŵer i fonitro cydymffurfiaeth â'r Safonau. |
| Mae'n ymddangos i mi nad yw rhai Ceiswyr ac achwynwyr yn deall yr egwyddorion hyn. |

## Crynodeb o'r themâu

Wedi adolygu ystadegau cwynion y Comisiynydd a gyflwynwyd gan Gymdeithas yr Iaith, amlinelliad o'r ceisiadau a'r achosion yn y Tribiwnlys, ynghyd â rhai achosion yn fwy manwl, rwyf o'r farn bod y dystiolaeth yn awgrymu nad nifer yr ymchwiliadau a agorwyd rhwng Ebrill a Mehefin 2019 sydd yn isel, ond nifer yr ymchwiliadau a agorwyd rhwng Ebrill a Mehefin 2018 oedd yn uchel, gyda'r cynnydd yn dechrau yn 2017. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod 3 (tri) thema yn amlygu eu hunain, sef:

**Thema 1** - O'r dystiolaeth, mae'n ymddangos fod cynnydd yn yr ymchwiliadau yn 2018 (ac i raddau llai yn 2017), yn rhannol o ganlyniad i ddilema gan y Comisiynydd rhwng un ai agor ymchwiliadau i fodloni achwynydd/wyr, neu ymdrin â heriau i benderfyniadau i beidio ag agor ymchwiliadau. Mae'n ymddangos bod cynnal ymchwiliad wedi bod yn llai llafurus ac anghymesur i'r Comisiynydd a'r tîm nag ymdrin â her yn y Tribiwnlys.

**Thema 2 -** Mae'r dystiolaeth o dan Thema 2 yn awgrymu bod y Comisiynydd yn ailystyried rhai penderfyniadau i beidio â chynnal ymchwiliad, yn hytrach na dadlau achos yn y Tribiwnlys, oherwydd "costau ac amser". Mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr ymchwiliadau yn 2017 a 2018. Beth sydd yn ymddangos wrth wraidd hyn yw achwynwyr/Ceiswyr ddim yn deall y gyfraith na threfn gyfansoddiadol gwahaniad pwerau.

**Thema 3** - Mae pwerau (sydd yn cynnwys disgresiwn) y Comisiynydd wedi eu diffinio ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; mae panel penodi'r Comisiynydd wedi ymddiried y disgresiwn hwnnw yn y Comisiynydd. Drwy'r Mesur, mae'r Cynulliad Cenedlaethol, yn rhoi i'r Comisiynydd ystod eang o bwerau sydd yn cynnwys gorfodaeth ond sydd ddim yn gyfyngedig i orfodaeth. Mae hyn yn cynnwys "dulliau perswadiol."[29]

Mae'r Mesur yn gwneud y Comisiynydd yn atebol mewn sawl ffordd. Un o'r ffyrdd hynny yw drwy adran 103, sydd yn rhoi'r hawl i achwynydd/Ceisydd wneud cais i Dribiwnlys y Gymraeg am adolygiad barnwrol o'r modd y cyrhaeddodd y Comisiynydd benderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad. Mae'r Tribiwnlys wedi ac yn chwarae rhan bwysig yn sicrhau atebolrwydd y Comisiynydd drwy broses adolygiad barnwrol. Ond y pŵer sydd gan y Tribiwnlys yw adolygu arferion y Comisiynydd wrth gyrraedd penderfyniad i gynnal ymchwiliad ai peidio i gŵyn, nid i adolygu'r penderfyniad hwnnw ei hun. Nid oes gan y Tribiwnlys unrhyw awdurdodaeth i ymyrryd yn nisgresiwn y Comisiynydd. Y Comisiynydd sydd â'r pŵer i fonitro cydymffurfiaeth â'r Safonau, nid y Tribiwnlys. Dyna egwyddor gwahaniad pwerau.

**Y themâu - casgliadau a barn yn gryno**

Mae'n ymddangos nad yw rhai achwynwyr/Ceiswyr yn deall y darpariaethau cyfreithiol yn y Mesur, pwysigrwydd dyfarniadau'r Tribiwnlys, na threfn gyfansoddiadol gwahaniad pwerau. Ymddengys fod y dystiolaeth yn awgrymu bod hyn wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer yr ymchwiliadau oedd yn cael eu hagor gan ei bod yn ymddangos fod cynnal ymchwiliad yn llai llafurus ac anghymesur i'r Comisiynydd a'r tîm, nag ymdrin â her yn y Tribiwnlys.

Mater arall sydd yn berthnasol yma yw bod y safonau a gorfodi'r safonau yn newydd



[29] Achos 16/8 [redacted] v Comisiynydd y Gymraeg, para. 26

dros 2016, 2017 a 2018. Cyn hyn, nid oedd canllawiau i'r Comisiynydd ynglŷn â sut i arfer y pwerau a'r dyletswyddau yn y Mesur. Dros y blynyddoedd hynny, cafwyd dyfarniadau gan y Tribiwnlys, sydd wedi gwneud pwerau a dyletswyddau'r Comisiynydd yn glir. Erbyn 2019, mae'r pwerau a'r dyletswyddau hynny yn fwy clir i'r Comisiynydd ac mae'r Comisiynydd yn gallu elwa ar y gwaith sylfaenol a wnaed gan y Comisiynydd dros 2016, 2017 a 2018, ynghyd â chanllawiau'r Tribiwnlys dros y blynyddoedd hynny.

Dyma'r ddau gyfuniad, yn fy marn i, paham y mae Cymdeithas yr Iaith yn cwyno nad yw'r Comisiynydd presennol yn agor cymaint o ymchwiliadau ag a agorwyd yn y gorffennol.

# 17 Pwerau cosb sifil

Mater o ddisgresiwn i'r Comisiynydd yw pa opsiwn i'w gymryd/pa opsiynau i'w cymryd pan mae methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol (adran 77).

Nid oes gan y Tribiwnlys awdurdodaeth dros yr opsiwn(opsiynau) a ddewisa'r Comisiynydd. Mae'r panel a benododd y Comisiynydd wedi ymddiried yr opsiynau pan mae methiant i gydymffurfio yn y Comisiynydd.

# 18 Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan AC

Nid oes gennyf unrhyw awdurdod i fynegi barn ynglŷn â Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Ms Morgan AC yw'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Comisiynydd. Mae yna felly berthynas annatod rhwng y ddau berson/swyddfa; serch hynny, mae annibyniaeth yn greiddiol i'r Comisiynydd.

Er y llythyru, ac unrhyw argraff y tu allan i'r cyd-destun cyfreithiol, mae'r Comisiynydd wedi arfer ei swyddogaethau yn briodol.

# 19 Crynodeb o'r casgliadau a barn ynglŷn â honiadau Cymdeithas yr Iaith

| Honiadau/materion | Casgliadau/Barn | Adran yn yr adroddiad |
|---|---|---|
| **Honiad o weithredu yn groes i'r Mesur a'r Polisi Gorfodi (honiad 1 a 3)** | Yn fy marn i, nid yw'r Comisiynydd yn gweithredu yn groes i'r Mesur a'r Polisi Gorfodi. Mae'r gŵyn yn awgrymu nad yw Grŵp Hawl Cymdeithas yr Iaith yn deall darpariaeth y gyfraith yn y Mesur, pwysigrwydd y Tribiwnlys yng ngweithdrefn y gyfundrefn gyfreithiol, nac | Adran 3, 4, 5, 6 a 7 |

| | | |
|---|---|---|
| | egwyddor gwahaniad pwerau mewn cyfundrefn gyfansoddiadol.<br><br>Yn fy marn i, nid yw yn fuddiol, o dan y gyfraith bresennol, i roi ffocws ar derm megis 'datrysiad buan'; yn hytrach, y pwêr sydd gan y Comisiynydd yw arfer ei ddisgresiwn a'i swyddogaethau o fewn y Mesur, sydd wedi cael ei ddehongli gan y Tribiwnlys yn achosion y Tribiwnlys. | |
| **Honiad o anrhyloywder (honiad 2)** | Mae canllawiau yn barod yn y pau cyhoeddus yn nyfarniadau a phenderfyniadau'r Tribiwnlys, er efallai nad yw'n hawdd dod o hyd iddynt na'u dehongli. Er hwylustod, mae'r canllawiau hyn wedi eu llunio yn yr adroddiad hwn (Atodiad 1).<br><br>Gan na all rhestr o ganllawiau cynhwysfawr fodoli (yn dilyn dyfarniad y Tribiwnlys yn achos 16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*), mae'n dilyn na all y Comisiynydd gyhoeddi canllawiau cynhwysfawr. Fodd bynnag, os yw'r Comisiynydd yn dewis ychwanegu at y rhain, trwy lunio canllawiau posib ei hun (gan gofio na allent fod yn gyflawn, yn dilyn achos 16/8), rwyf o'r farn y gall y wybodaeth honno gael ei heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 31(1)(g) ac adran 31(2)(c) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ar y sail bod datgelu'r wybodaeth honno yn debygol o niweidio gwaith gorfodi'r Comisiynydd. | Adran 8 |
| **Pwerau cosb sifil** | Mater o ddisgresiwn i'r Comisiynydd yw pa opsiwn i'w gymryd/pa opsiynau i'w cymryd pan mae methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. | Adran 11 |
| **Honiad fod y Comisiynydd presenol yn agor llai o ymchwiliadau na'r cyn-Gomisiynydd** | Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai nifer yr ymchwiliadau oedd yn uchel yn 2018 (ac i raddau llai, yn 2017), nid bod nifer yr ymchwiliadau a agorwyd yn 2019 yn isel.<br><br>Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod dau reswm dros gynnydd yn nifer yr ymchwiliadau dros 2017/18:<br><br>i) Nad oedd achwynwyr/Ceiswyr yn deall darpariaeth y gyfraith yn y Mesur, pwysigrwydd dyfarniadau'r Tribiwnlys yn y weithdrefn gyfreithiol, nac egwyddor gwahaniad pwerau mewn cyfundrefn | Adran 9 a 10 |

| | | |
|---|---|---|
| | gyfansoddiadol.<br><br>ii) Yng nghyfnod 2016/17/18, cafodd y Comisiynydd ganllawiau gan y Tribiwnlys ynglŷn â sut i arfer y pŵer a'r dyletswyddau o dan y Mesur. Erbyn 2019, mae'r casgliad o ddyfarniadau/canllawiau'r Tribiwnlys yn fwy aeddfed sydd yn galluogi'r Comisiynydd adeiladu ar y gwaith a'r dyfarniadau a fu dros 2016, 2017 a 2018. | |
| **Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol** | Nid oes gennyf unrhyw awdurdod i fynegi barn ynglŷn â Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.<br><br>Er y llythyru, ac unrhyw argraff y tu allan i'r cyd-destun cyfreithiol, mae'r Comisiynydd wedi arfer ei swyddogaethau yn briodol. | Adran 12 |

## Deunydd wedi ei ystyried yn yr adolygiad

**Llythyr cwyn Cymdeithas yr Iaith, ymateb y Comisiynydd a'r llythyr Apêl**
Llythyr cwyn gan Bethan Ruth ar ran Grŵp Hawl Cymdeithas yr Iaith at Gomisiynydd y Gymraeg (4 Tachwedd 2019)
Llythyr gan Gwenith Price ar ran Comisiynydd y Gymraeg yn ateb llythyr cwyn Grŵp Hawl (6 Tachwedd 2019)
Llythyr Apêl gan Bethan Ruth ar ran Grŵp Hawl Cymdeithas yr Iaith (12 Rhagfyr 2019)

**Llythyrau y cyfeiriwyd atynt yn y gŵyn**
Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg at y Comisiynydd (26 Tachwedd 2018)
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Atodiad%201.pdf
Llythyr oddi wrth y Comisiynydd at Weinidog y Gymraeg (5 Chwefror 2019)
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Atodiad%202.pdf
Llythyr oddi wrth y Comisiynydd at Weinidog y Gymraeg (1 Awst 2019)
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Cais%20Deddf%20Rhyddid%20Gwybodaeth%20116%20Atodiad%201.pdf
Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg at y Comisiynydd (4 Medi 2019
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Cais%20Deddf%20Rhyddid%20%20Gwybodaeth%20116%20Atodiad%202.pdf

**Deunyddiau eraill y cyfeiriwyd atynt yn y gŵyn**
Papur trafod (Gweinidog y Gymraeg): strwythurau ar gyfer gweithredu strategaeth Cymraeg 2050
https://llyw.cymru/atisn13502

**Deddfwriaeth**
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**Rheolau**
Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015

**Achosion a chofrestr Tribiwnlys y Gymraeg**

**Achosion**
TyG/16/8 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*
TyG/17/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*
TyG/18/2 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*
TyG/18/3 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*
TyG/19/1 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*
TyG/19/4 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*
TyG/2020/01 [redacted] *v Comisiynydd y Gymraeg*

**Cofrestr Tribiwnlys y Gymraeg**
https://welshlanguagetribunal.gov.wales/sites/welshlanguage/files/2019-06/wlt-06-

register-of-tribunals-cy.pdf?_ga=2.176830565.137518397.1584531879-855101349.1579768127

**Deunyddiau Eraill**
Adroddiad Blynyddol 2018-2019 y Comisiynydd
http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Adroddiadau/Cyhoeddiadau/Pages/ManylionCyhoeddiad.aspx?PublicationId=91f5489c-74f2-4062-aa57-3d7995ff4480

**Archwiliadau mewnol i sicrwydd ansawdd cydymffurfiaeth**
Archwiliad mewnol – Gorffennaf-Medi 2017
Archwiliad mewnol – 2019/20

**ATODIAD 1**

**Crynodeb o'r sefyllfa gyfreithiol, gan gynnwys canllawiau'r Tribiwnlys, sef enghreifftiau o ffactorau a allai fod yn briodol i'r Comisiynydd eu hystyried wrth benderfynu agor ymchwiliad ai peidio**

Yn dilyn asesiad o'r gyfraith, mae'r gyfraith yn glir ynglŷn â'r canlynol:

1. Mae dyletswydd ar y Comisiynydd i ystyried cynnal ymchwiliad ai peidio i gŵyn ddilys.

2. Mae hawl gan y Comisiynydd i gysylltu gyda chorff cyhoeddus cyn ystyried cynnal ymchwiliad ai peidio (h.y cyn penderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio).

3. Wrth ystyried cynnal ymchwiliad ai peidio**,** mae'n rhaid i'r Comisiynydd ystyried materion perthnasol ac anwybyddu materion amherthnasol.

4. Nid yw'n bosibl i'r Comisiynydd ddarparu rhestr gynhwysfawr o ffactorau a all eu hystyried wrth benderfynu agor ymchwiliad ai peidio oherwydd bod yr amgylchiadau yn newid o achos i achos.

5. Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu pa ffactorau sy'n berthnasol mewn achosion unigol [noder nad yw hyn yn eithrio ymddiheuriad gan gyrff].

6. Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu faint o bwysau i'w rhoi ar y ffactorau hynny mae'n penderfynu sy'n berthnasol mewn achosion penodol.

7. Ar ôl i'r Comisiynydd benderfynu pa ffactorau sy'n berthnasol mewn achosion penodol, a faint o bwysau i'w rhoi ar y ffactorau hynny, byddai wedyn yn rhydd i wneud asesiad o ble saif y cydbwysedd rhwng y rhai sy'n cefnogi cynnal ymchwiliad a'r rhai nad ydynt.

8. Mae gan y Comisiynydd hawl i fynegi ei gasgliadau o ran "anghymesuredd" (cyhyd â bod y Comisiynydd wedi ystyried materion perthnasol ac anwybyddu materion amherthnasol).

9. Rhai o'r ffactorau bydd "bron yn sicr o fod yn berthnasol" yw:
   (i) difrifoldeb cymharol y methiant honedig
   (ii) ansawdd y dystiolaeth o fethiant; ac
   (iii) unrhyw hanes blaenorol o ddiffyg cydymffurfio â safonau.

10. Mae hawl gan y Comisiynydd i ystyried tystiolaeth a gasglwyd ganddo cyn yr ymchwiliad (cyhyd â'i fod yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol ac yn anwybyddu ffactorau amherthnasol).

11. Ffactor a all fod yn berthnasol yw'r ffaith bod y sefydliad y cwynwyd amdano wedi newid yr arfer oedd yn destun y gŵyn.

12. Os yw'r Comisiynydd yn ailystyried penderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad, mae gan y Comisiynydd yr hawl, ac yn wir ddyletswydd, i roi ystyriaeth i'r holl faterion perthnasol fel y maent ar yr adeg y gwna hynny - nid oes dyletswydd i'r ystyriaethau fod yn gyfyngedig i'r amser y cododd y gŵyn.

13. Mewn perthynas â safon 58 (sydd yn benodol berthnasol i ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol), mae gan y Comisiynydd hawl i ystyried lleoliad cymharol y ddwy iaith ar gyfryngau cymdeithasol.

14. Mae'r Polisi Gorfodi yn nodi'r amgylchiadau canlynol fel ystyriaethau perthnasol:
    - Cwyn yn codi amheuaeth o fethiant difrifol i gydymffurfio
    - Cwyn yn gofyn am weithredu brys; a
    - Lle mae tystiolaeth ddiamheuol eisoes wedi ei darparu gan yr achwynydd fel rhan o'r gŵyn.

15. "…byddai gan y Comisiynydd o hyd y gallu i geisio perswadio person i gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol y person… drwy ddulliau eraill" [h.y ar wahân i agor ymchwiliad os yw'r Comisiynydd, ar ôl ystyried cynnal ymchwiliad, yn penderfynu peidio ag ymchwilio].

Ar ôl ystyried ai i gynnal ymchwiliad ai peidio, os yw'r Comisiynydd yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd hysbysu'r achwynydd o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

**Crynodeb o ganllawiau'r Tribiwnlys, sef enghreifftiau o ffactorau a allai fod yn briodol i'r Comisiynydd eu hystyried wrth benderfynu agor ymchwiliad ai peidio**

1. Rhai o'r ffactorau bydd "bron yn sicr o fod yn berthnasol" yw:
   i) difrifoldeb cymharol y methiant honedig
   ii) ansawdd y dystiolaeth o fethiant; ac
   iii) unrhyw hanes blaenorol o ddiffyg cydymffurfio â safonau.
2. Tystiolaeth a gasglwyd gan y Comisiynydd cyn yr ymchwiliad.
3. Y ffaith bod y sefydliad y cwynwyd amdano wedi newid yr arfer oedd yn destun y gŵyn.
4. Anghymesuredd.
5. Mewn perthynas â safon 58 (defnydd o gyfryngau cymdeithasol), mae gan y Comisiynydd hawl i ystyried lleoliad cymharol y ddwy iaith ar gyfryngau cymdeithasol.
6. Os yw'r Comisiynydd yn ailystyried penderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad, mae gan y Comisiynydd yr hawl, ac yn wir ddyletswydd, i roi ystyriaeth i'r holl faterion perthnasol fel y maent ar yr adeg y gwna hynny - nid oes dyletswydd i'r ystyriaethau fod yn gyfyngedig i'r amser y cododd y gŵyn.
7. Mae'r Polisi Gorfodi yn nodi'r amgylchiadau canlynol fel ystyriaethau perthnasol:
   i) Cwyn yn codi amheuaeth o fethiant difrifol i gydymffurfio
   ii) Cwyn yn gofyn am weithredu brys; a
   iii) Lle mae tystiolaeth ddiamheuol eisoes wedi ei darparu gan yr achwynydd fel rhan o'r gŵyn.

**ATODIAD 2**

**Cofrestr y Tribiwnlys**

| **Y Safonau yn dod i rym** | **Achosion TyG/WLT** | **Math o gais** | **Cyfarwyddiadau, Gwrandawiadau a Dyfarniadau** |
|---|---|---|---|
| 30/3/16 (1) | | | |
| | 2016/1 AB v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd nad oedd dyletswydd arni i ystyried ai i gynnal ymchwiliad neu beidio mewn perthynas â chwyn gan y ceisydd for cyngor sir wedi peidio â chydymffurfio â Safon y Gymraeg. | 30.06.2016: y ceisydd yn tynnu'r cais yn ôl (trwy hysbysiad o dan reol 54 o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015) - hynny yn sgil y ffaith fod y Comisiynydd bellach yn derbyn bod cyfeiriad Twitter yn cwrdd â gofynion adran 93(5) o'r Mesur. |
| | 16/2 CD v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn o fethiant honedig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg | 01.07.2016: penderfyniad gan y Tribiwnlys i wrthod caniatâd i wneud cais am nad oes disgwyliad rhesymol y byddai'r cais yn llwyddo ac nad oes rheswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed. |
|  | 16/3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | Apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd nad oedd gosod ar y Ceisydd | 24.11.16: tynnodd y Ceisydd y cais yn ôl |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bannau Brycheiniog v CyG | ddyletswydd i gydymffurfio â Safon 145 ac â Safon 146 yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd i'r Ceisydd ar 30.09.2015 yn afresymol nac yn anghymesur. | |
| | 16/4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili v CyG | Apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd nad yw gosod ar y Ceisydd ddyletswydd i gydymffurfio â Safonau 21, 41(b), 46 a 64 yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd i'r Ceisydd ar 30.09.2015 yn afresymol nac yn anghymesur. | Bu cais gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg i gael ei chysylltu fel parti o dan reol 35. Penderfynodd y Tribiwnlys na ddylid cysylltu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fel parti i'r achos ond y dylai dadleuon ysgrifenedig y Gymdeithas gael eu hystyried gan banel y Tribiwnlys a fydd yn penderfynu'r achos.<br><br>20.01.17: gwrthodwyd yr apêl [h.y apêl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili]. |
| | 16/5 Cyngor Sir Penfro v CyG | Apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd nad yw gosod ar y Ceisydd ddyletswydd i gydymffurfio â Safonau 26, 26A, 29 a 29A yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd i'r Ceisydd ar 30.09.2015 yn afresymol nac yn anghymesur. | Bu cais gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg i gael ei chysylltu fel parti o dan reol 35. Penderfynodd y Tribiwnlys na ddylid cysylltu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fel parti i'r achos ond y dylai dadleuon ysgrifenedig y Gymdeithas gael eu hystyried gan banel y Tribiwnlys a fydd yn penderfynu'r achos.<br><br>26.04.2017: gwrthodwyd yr apêl [h.y apêl Cyngor Sir Penfro]. |
| | 16/6 EF v CyG | Apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd mewn perthynas â chŵyn gan y Ceisydd, nad oedd Cyngor [redacted] | 09.01.2017<br>Tynnwyd y cais yn ôl yn sgil penderfyniad y Comisiynydd, ar ôl adolygu ei phenderfyniad gwreiddiol, i ddyfarnu bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safon 60 ac i osod camau gorfodi ar y Cyngor. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | wedi methu â chydymffurfio â Safon 60, a osodwyd ar y Cyngor gan Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd ar 30.9.2015 | |
| | 16/7<br>GH v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (5.10.2016) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 28.11.2016<br>Gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais |
| | 16/8<br>JK [redacted] v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (9.12.2016) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 23.12.2016<br>Y Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i wneud y cais.<br><br>28.6.2017: cyhoeddwyd penderfyniad y Tribiwnlys:<br>1. Caniatawyd y cais;<br>2. Diddymwyd penderfyniad y Comisiynydd;<br>3.Anfonwyd y penderfyniad yn ôl at y Comisiynydd. |
| | 16/9<br>LM v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (17.11.2016) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 16.12.2016: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais |
| 25/1/17 (2) | | | |
| 30/3/17 (4 & 5) | | | |
| | 17/1<br>NO v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniadau'r Comisiynydd (6.2.2017 a 2.3.2017) i beidio ag ymchwilio i gwynion gan y Ceisydd. | 1.9.2017: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod estyn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais (28 diwrnod). Ni chaiff y Tribiwnlys felly ystyried y cais. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | 17/2 PR [redacted] v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (30.8.2017) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 19.3.2018: cyhoeddwyd Penderfyniad y Tribiwnlys:<br><br>1.Caniatawyd y cais;<br>2.Diddymwyd penderfyniad y Comisiynydd;<br>3.Anfonwyd y penderfyniad yn ôl at y Comisiynydd. |
| | 18/1 ST v CYG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (19.1.18) i beidio â chynnal ymchwiliad mewn perthynas â chŵyn gan y Ceisydd. | 16.3.2018: penderfyniad gan y Tribiwnlys yn gwrthod estyn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais (28 diwrnod). Ni chaiff y Tribiwnlys felly ystyried y cais. |
| 1/4/18 (6) | | | |
| | 18/2 (UW) [redacted] v CyG | Cais am adolygiad o ddau benderfyniad y Comisiynydd (16.2.18) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan Ceisydd. | Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i wneud y cais.<br><br>Cais gan y Comisiynydd i ddileu'r Cais o dan Reol 28 o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015.<br><br>9.07.2018: y cais i ddileu'r Cais yn cael ei ganiatáu. |
| | 18/3 (YA) [redacted] v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (25.5.18) i beidio â chynnal ymchwiliad mewn perthynas â chŵyn gan y Ceisydd. | 11.6.18: penderfyniad gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais.<br><br>25.6.18: y Ceisydd yn hawlio ailystyriaeth o benderfyniad y Tribiwnlys i beidio â rhoi caniatâd i wneud y cais (rheol 16(8)). Cynhelir gwrandawiad er mwyn ailystyried y penderfyniad<br><br>29.8.18: panel y Tribiwnlys yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cadarnhau'r penderfyniad i wrthod caniatâd i wneud y cais.<br><br>26.9.18: cais gan y Ceisydd o dan Reol 48 am adolygiad o'r penderfyniad.<br><br>7.12.18: gwrthodwyd cais y Ceisydd am adolygiad o'r penderfyniad. |
| | 18/4<br>BC v CyG | Cais am adolygiad i benderfyniadau'r Comisiynydd (30.8.17, 26.10.17, 17.11.17 a 19.1.18) i beidio â chynnal ymchwiliadau mewn perthynas â chwynion gan y Ceisydd. | 17.7.18: penderfyniad gan y Tribiwnlys yn gwrthod estyn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais (28 diwrnod). Ni chaiff y Tribiwnlys felly ystyried gwrando'r cais.<br><br>19.7.18: cais gan y Ceisydd am adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys o dan reol 49 o'r Rheolau.<br><br>23.10.18: gwrthodwyd y cais. |
| | 18/5<br>Y Comisiynydd Gwybodaeth v CyG | Apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd (22.10.18) fod y Ceisydd wedi methu â chydymffurfio â Safon 11 yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd i'r Ceisydd ar 25.7.16 (diwrnod gosod 31.3.17). | 29.3.19: penderfyniad y Tribiwnlys - gwrthodwyd yr apêl a chadarnhawyd dyfarniad Comisiynydd y Gymraeg. |
| | 19/1<br>DE [redacted] v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (19.3.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 12.4.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais.<br><br>26.4.19: cais gan y Ceisydd am ailystyriaeth o'r penderfyniad i wrthod caniatâd i wneud y cais<br><br>1.5.19: cais gan y Ceisydd am orchymyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | i'r Comisiynydd i ddatgelu cynllun gweithredu y cyfeiriwyd ato gan y Comisiynydd yn ei rhesymau dros wrthod ymchwilio i gŵyn y Ceisydd.<br><br>24.7.19: c<br>Cais gan y Comisiynydd i ddileu'r Cais ar y sail bod y Comisiynydd wedi penderfynu gwrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol ac nad oes gan y Tribiwnlys awdurdodaeth bellach i adolygu'r penderfyniad hwnnw.<br><br>29.7.19: ceisydd yn gwrthod cais y Comisiynydd i ddileu'r cais.<br><br>6.12.19: nid oedd gan y Tribiwnlys bŵer, dan adran 103 a 104 i adolygu penderfyniad a oedd eisoes wedi cael ei wrthdroi gan y Comisiynydd. O ganlyniad, nid oedd gan y Tribiwnlys ddewis arall ond dileu'r cais. |
| Mai 2019 (7) | | | |
| | 19/2<br>FG v CYG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (24.5.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 4.6.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais. |
| | 19/3<br>HI v CYG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (27.3.19) i beidio ag ymchwilio i gwynion gan y Ceisydd | 5.6.19: y Tribiwnlys yn gwrthod estyn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais (28 diwrnod). Ni chaiff y Tribiwnlys felly ystyried y cais. |
| | 19/4<br>JK [redacted] | Cais am adolygiad o | 12.7.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | [redacted] v CyG | benderfyniad y Comisiynydd (19.6.19) i beidio ag ymchwilio i gwynion gan y Ceisydd | gwrthod caniatâd i wneud y cais.<br><br>12.7.19: cais gan y Ceisydd am ailystyriaeth o'r penderfyniad i wrthod caniatâd i wneud y cais.<br><br>4.11.19: panel y Tribiwnlys yn cytuno gyda phenderfyniad cyn-lywydd y Tribiwnlys (12.7.19) i wrthod caniatâd i wneud y cais. |
| | 19/5<br>LM v CYG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (7.6.19) i beidio ag ymchwilio i gwynion gan y Ceisydd. | 12.7.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais |
| | 19/6<br>Anhysbys v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gwynion gan y Ceisydd. | Gwrthodwyd y cais. |
| | 19/7<br>Anhysbys v CyG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd | Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i wneud y cais.<br><br>Cais gan y Comisiynydd i ddileu'r Cais o dan Reol 23 o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015. |
| | 19/8<br>ST v CYG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (8.10.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd | 20.12.19: y Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i wneud y cais. |
| | 19/9<br>UW v CYG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (10.10.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 20.12.19: y Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i wneud y cais. |
|  | 19/10<br>YA v CYG | Cais am adolygiad o | 23.12.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | benderfyniad y Comisiynydd (3.12.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | gwrthod caniatâd i wneud y cais. |
| | 19/11 BC v CYG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (3.12.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 23.12.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais. |
| | 19/12 DE v CYG | Cais am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd (3.12.19) i beidio ag ymchwilio i gŵyn gan y Ceisydd. | 23.12.19: gorchymyn gan y Tribiwnlys yn gwrthod caniatâd i wneud y cais. |

**Awdur**: Rhianwen Roberts LLB (Cymru), LLM, Bargyfreithwraig (anghofrestredig) (Gray's Inn)

**BUDDIANT**

Rwyf yn aelod o Gymdeithas yr Iaith.

**DATGANIADAU**

1. Nid wyf erioed wedi cyfarfod na siarad gyda'r Comisiynydd (na'r cyn-Gomisiynydd), yn broffesiynol nac yn bersonol.
2. Nid wyf yn adnabod, yn broffesiynol nac yn bersonol, unrhyw un o staff y Comisiynydd (na'r cyn-Gomisiynydd).